Cronfa Bensiwn
Caerdydd a Bro Morgannwg



# ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL 2021/22

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Rhagair – Naratif | 4 |
| Adroddiad Rheoli a Gweinyddu | 6 |
| Gweinyddu'r Gronfa | 8 |
| Adroddiad Polisi Buddsoddi a Pherfformiad | 10 |
| Perfformiad Buddsoddi | 13 |
| Bwrdd Pensiynau Lleol | 15 |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | 18 |
| Datganiad Actiwaraidd | 24 |
| Datganiad yr Archwilydd | 28 |
| Cyfrif y Gronfa | 29 |
| Datganiad Asedau Net | 30 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 31 |
| Atodiad 1: Data Buddsoddi | 54 |
| Atodiad 2: Datganiad Strategaeth Ariannu | 56 |
| Atodiad 3: Datganiad Strategaeth Fuddsoddi | 84 |
| Atodiad 4: Datganiad Polisi Cyfathrebu | 89 |
| Atodiad 5: Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu | 95 |
| Rhestr termau | 102 |
| Rhagor o Wybodaeth | 107 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

- Cynyddodd cyfanswm gwerth y Gronfa gan 7.2% dros y flwyddyn gyda phrisiad o £2.699 biliwn ar 31 Mawrth 2022, o gymharu â'r prisiad blaenorol o £2.518 biliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

- Ar ddechrau 2021/22 parhaodd marchnadoedd ariannol i dyfu yn yr un modd a welwyd yn 2020/21, ond yn ystod ail hanner y flwyddyn gwelwyd newid yn ymdeimlad y farchnad wrth iddynt ddirywio. Cafodd hyn ei sbarduno gan gyfuniad o faterion gan gynnwys y cynnydd mewn cyfraddau llog byd-eang i fynd i'r afael â chwyddiant cynyddol, y polisi sero-Covid a fabwysiadwyd gan Tsieina ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror 2022. Mae'r rhwystrau economaidd hyn wedi parhau yn 2022/23. Cyflawnodd y Gronfa adenilliad ar fuddsoddiadau ar gyfer y flwyddyn o 6.2% (net o ffioedd), 7.6% yn is na'r meincnod adenillion o 13.8%.

- Mae'r Gronfa'n parhau mewn sefyllfa bositif o ran llif arian o ran ei hymwneud ag aelodau'r Gronfa gyda'r cyfraniadau a gwerthoedd trosglwyddo a dderbyniwyd yn fwy na'r buddion, ad-daliadau a gwerthoedd trosglwyddo a dalwyd gan £12.0 miliwn.

- Mae cyfanswm aelodaeth y Gronfa ar 31.03.2022 yn cynnwys 16,876 o gyfrifon cyfranwyr gweithredol tra bod 12,515 o gyfrifon pensiynwyr a 17,430 o bensiynwyr gohiriedig erbyn hyn.

- Gwnaed prisiad tair blynedd diweddaraf y Gronfa ar 31 Mawrth 2019 a gwelodd y prisiad hwn gynnydd yn y dogn cyllid i 96% o'i gymharu â'r lefel flaenorol o 85%. Mae'r twf yn asedau'r Gronfa dros y cyfnod o 3 blynedd yn mwy na gwrthbwyso'r rhwymedigaethau cynyddol sy'n cynnwys lwfans ar gyfer costau ychwanegol sy'n deillio o ddyfarniad McCloud. Bydd y prisiad teirblwydd nesaf ar 31 Mawrth 2022 a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod 2022/23.

- Yn 2021/22 cafwyd symudiad arwyddocaol pellach o asedion y Gronfa hon i Gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ac ym mis Gorffennaf 2021 trosglwyddwyd daliadau Ecwiti Rhanbarthol y Gronfa i ddwy is-gronfa Ecwiti Byd-eang PPC. Roedd y newid hwn yn werth £725 miliwn a chafodd ei ddilyn ym mis Hydref 2021 gan symud daliadau Ecwiti Marchnadoedd Datblygol (MD) presennol y Gronfa o £125m i is-gronfa newydd Ecwiti Marchnadoedd Datblygol (MD) PPC. Ar 31 Mawrth 2022 roedd 63% o werth y Gronfa yng Nghronfa PPC. Mae canran yr asedau sy'n cael eu cyfuno os yw'r Gronfa Olrhain Ecwiti Carbon Isel yn cael ei gynnwys yn cynyddu i 86%.

- Ar yr un pryd â'r trosglwyddiad ecwiti byd-eang ym mis Gorffennaf 2021, manteisiodd y Gronfa hon hefyd ar y cyfle i gynyddu'n sylweddol ei daliadau yng Nghronfa Olrhain Ecwiti Carbon Isel BlackRock. Gwnaed buddsoddiad ychwanegol o £283 miliwn a chafodd y trosglwyddiad hwn ei ariannu gan ostyngiad yn naliad ecwiti goddefol y Gronfa yn y DU. Ar 31 Mawrth 2022 daliad y Gronfa yn y Gronfa Carbon Isel hon oedd £616 miliwn a oedd yn cynrychioli bron i 23% o gyfanswm gwerth y gronfa ar y dyddiad hwnnw. Bydd y buddsoddiad cynyddol yn y Gronfa hon ynghyd â mentrau i'r Cronfeydd Ecwiti eraill megis cyflwyno troshaenau dad-garboneiddio a symud i wneud portffolios "wedi'u halinio â Paris" yn helpu i leihau ôl troed Carbon y Gronfa wrth symud ymlaen.

- Dangosir ystadegau cryno ar gyfer y Gronfa yn Atodiad 1.

# ADRODDIAD NARATIF

Cyngor Caerdydd yw Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) sydd yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) Cymru a Lloegr. Y CPLlL yw'r cynllun pensiwn galwedigaethol statudol ar gyfer yr holl gyflogeion llywodraeth leol (ac eithrio athrawon) a Llywodraeth y DU sy'n pennu'r rheoliadau.

Cyflawnir cyfrifoldebau'r Cyngor fel rheolwr y Gronfa drwy'r Pwyllgor Pensiynau sy'n goruchwylio strategaethau a pholisïau'r Gronfa. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sy'n rheoli'r Gronfa'n weithredol. Mae'r Bwrdd Pensiynau Lleol yn cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r CPLlL a gofynion y Rheolydd Pensiynau ac i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Roedd nifer yr aelodau'n statig i raddau helaeth yn ystod y flwyddyn gydag ychydig o dan 16,900 o gyflogeion yn cyfrannu a chynnydd bach i ychydig dros 12,500 yn nifer y Pensiynwyr sy'n derbyn buddion gan y Gronfa.

Cododd asedau'r Gronfa Bensiwn gan 7.2% yn ystod 2021/22, o £2.518 biliwn i £2.699 biliwn. Parhaodd marchnadoedd buddsoddi yn fyd-eang y twf adfer ar ôl Covid a brofwyd yn ystod 2020/21 i hanner cyntaf 2021/22. Yn ail hanner 2021/22 fodd bynnag, profwyd cyfnod llawer arafach o dwf gyda mwy o anwadalwch yn y marchnadoedd o ganlyniad i bryderon ynghylch amrywiolion Covid newydd, y cynnydd mewn chwyddiant ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror 2022. O ran y digwyddiad olaf uchod, roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), ar ran 8 cronfa'r CPLIL yng Nghymru, yn gyflym i gyhoeddi ei bwriad i waredu ei ddaliadau mewn stociau Rwsiaidd cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol bosibl.

Fis Gorffennaf 2021, cwblhawyd y broses o drosglwyddo daliadau Ecwiti Rhanbarthol gwaddol y Gronfa i ddwy Gronfa Ecwiti Byd-eang PPC, a ddechreuodd yn 2020/21, ar yr un pryd â'r buddsoddiad ychwanegol i Gronfa Olrhain Carbon Isel BlackRock. Dros £1 biliwn oedd cyfanswm gwerth y trosglwyddiadau hyn. Ym mis Hydref 2021, symudodd y Gronfa ei buddsoddiadau Ecwiti Marchnadoedd Datblygol (MD) i gronfa MD newydd PPC.

Ar 31 Mawrth 2022 roedd gwerth asedau'r Gronfa a gadwyd mewn is-gronfeydd PPC yn 63% o gyfanswm gwerth y Gronfa sy'n cynyddu i 86% o gynnwys y gronfa BlackRock a gaffaelwyd ar y cyd. Roedd PPC, ar ran wyth Cronfa Bensiwn CPLlL yng Nghymru, yn gyflym i gondemnio ymosodiad Rwsia ar Wcráin a chyhoeddi dadfuddsoddiad mewn daliadau Rwsiaidd yn ei Chronfeydd. Mae copi o Ddatganiad PPC ar

wefan y Gronfa Bensiwn. Roedd daliad y Gronfa hon mewn buddsoddiadau Rwsiaidd ar draws 4 is-gronfa PPC ychydig o dan £2.5 miliwn a oedd yn cynrychioli llai nag 1% o gyfanswm gwerth y gronfa. Nid oedd unrhyw ddaliadau materol mewn buddsoddiadau Rwsiaidd yng ngweddill portffolio'r Gronfa.

Yn sgil canlyniadau mini-gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Medi 2022, gwelwyd adroddiadau newyddion am "argyfwng hylifedd" sy'n wynebu Cronfeydd Pensiwn a oedd yn gofyn am ymyrraeth Banc Lloegr i brynu Bondiau Llywodraeth y DU (Gilts) i roi sicrwydd i'r Marchnadoedd. Mae'r mater hwn wedi codi lle mae gan Gronfeydd Pensiwn, fel arfer cynlluniau Budd Diffiniedig (BD) Corfforaethol, asedau mewn Buddsoddiadau a Yrrir gan Atebolrwydd (BYA). Gyda phris Gilts yn gostwng gorfodwyd y Cronfeydd hyn i werthu asedau i gynnal lefelau trosoledd, a arweiniodd at ostyngiad pellach ym mhrisiau Gilt gan arwain at ymyrraeth Banc Lloegr i gynnal sefydlogrwydd y Farchnad.
Nid oes gan y Gronfa unrhyw asedau LDI ac ychydig iawn o Gilts y DU. Ar ddiwedd mis Medi 2022, roedd daliad is-gronfa Bond Llywodraeth Byd-eang PPC mewn Gilts y DU dim ond 0.6% (£1.237 miliwn) o werth yr is-gronfa honno. Y sefyllfa gyfatebol ar ddiwedd mis Mehefin 2022 oedd 2.2% (£5.350 miliwn).

Parhaodd wyth awdurdod y gronfa CPLlL yng Nghymru i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn gyda datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Yn ogystal â'r Gronfa MD newydd y cyfeirir ati yn y paragraff uchod mae'r gwaith o sefydlu is-gronfeydd Marchnad Breifat PPC yn mynd yn ei flaen yn dda. Disgwylir i is-gronfeydd ar gyfer Credyd Preifat a Seilwaith, Cam 1 Marchnadoedd Preifat, gael eu lansio yn 2022/23 gydag is-gronfa Ecwiti Preifat PPC wedyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn 2021/22, cwblhaodd PPC y broses o groesawu Cynrychiolydd Aelod o'r Cynllun heb hawliau pleidleisio i'w Chyd-bwyllgor Llywodraethu. Ym mis Mawrth 2022 cafodd PPC wybod fod ei chais am ddod yn un o lofnodwyr Cod Stiwardiaeth 2020 y DU wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Adrodd Ariannol (CAA). Mae hyn yn dangos ymrwymiad Cronfeydd CPLIL Cymru, gan gynnwys y Gronfa hon, i Fuddsoddi Cyfrifol (BC), a fydd yn adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn 2021/22 wrth i gynhyrchion buddsoddi ddatblygu yn y blynyddoedd i ddod.

Ar drothwy'r prisiad tair blynedd nesaf, un o amcanion allweddol y gronfa o hyd yw darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'w chyflogeion sy'n cyfrannu iddi, y pensiynwyr a'r aelodau gohiriedig, ac i leihau'r baich ariannol ar gyflogwyr sy'n cyfrannu yn yr hirdymor.

**Christopher Lee**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau**

# ADRODDIAD RHEOLI A GWEINYDDU

## RHEOLWYR AC YMGYNGHORWYR Y CYNLLUN

**Enwir Cyngor Caerdydd yn y Rheoliadau CPLlL fel Rheolwr y Cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sef cronfa'r CPLlL ar gyfer Dinas Caerdydd a Bro Morgannwg.**

**Pwyllgor Pensiynau**
Sefydlwyd y Pwyllgor Pensiynau gan y Cyngor ar 30 Mehefin 2016 i weithredu swyddogaethau'r Cyngor fel Awdurdod Gweinyddu. Rôl y Pwyllgor yw darparu goruchwyliaeth strategol o'r Gronfa gan gynnwys adolygu ei gofynion polisi statudol.

Dyma aelodau'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C. Weaver | (Cadeirydd) |
| Y Cynghorydd D. Ali | |
| Y Cynghorydd N. Howells | |
| Y CynghoryddG. Thomas | |
| Y Cynghorydd C. Lay | |

Mae rheolaeth weithredol ar y Gronfa yn gyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau dan gynllun dirprwyo'r Cyngor.

**Y Panel Cynghori ar Fuddsoddi**
Cynghorir y Pwyllgor a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ar faterion buddsoddi gan y Panel Cynghori ar Fuddsoddi.

Dyma aelodau'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022:

| | |
|---|---|
| Y CynghoryddC. Weaver | (Cadeirydd) Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Cyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd N. Howells | Aelod, Cyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd G. Thomas | Aelod, Cyngor Caerdydd |
| Mr. S. Bates | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Ms. C. Burton | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Mr. C. Lee | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Cyngor Caerdydd |

**Bwrdd Pensiynau Lleol**
Sefydlwyd y Bwrdd Pensiynau Lleol ar 29 Ionawr 2015 yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Rôl y Bwrdd yw cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau CPLlL a sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu'n effeithlon.

Yr Aelodau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 oedd:

| | |
|---|---|
| Michael Prior | Cadeirydd Annibynnol |
| | |
| Cynrychiolwyr Cyflogwyr: | |
| David Llewellyn | Cyfarwyddwr Cyllid, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| Mark Sims | Dirprwy Bennaeth a Swyddog Cyllid Cyfrifol, Cyngor Tref y Barri |
| Carys Lord | Pennaeth Cyllid, Cyngor Bro Morgannwg* |
| Laithe Bonni | Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyflogeion, Cyngor Bro Morgannwg** |

** Ymddiswyddodd Cays Lord o'r Bwrdd Pensiynau ym mis Rhagfyr 2021*

*** Ymunodd Laithe Bonni â'r Bwrdd Pensiynau ym mis Ionawr 2022*

| | |
|---|---|
| Cynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun: | |
| Peter King | Enwebai Unsain |
| Hilary Williams | Enwebai Unsain |
| Sheelagh Doolan-Pitt | Enwebai GMB |

**Y Rheolwyr Buddsoddi rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 oedd:**

| | |
|---|---|
| Aberdeen Standard | Ecwitïau Marchnadoedd Sy'n Datblygu (gweithredol) (tan fis Hydref 2021) |
| | Eiddo yn y DU |
| BlackRock Investment | Ecwitïau y DU (wedi'u mynegeio) (tan fis Gorffennaf 2021) |
| Management | Ecwitïau UDA (wedi'u mynegeio) (tan fis Gorffennaf 2021) |
| | Ecwitïau Carbon Isel Byd-eang (wedi'u mynegeio) |
| | Eiddo yn y DU |
| State Street Global Advisors | Ecwitïau Ewropeaidd (heb gynnwys y DU) (gweithredol) (tan fis Gorffennaf 2021) |
| Invesco Perpetual | Ecwitïau y DU (gweithredol) (tan fis Gorffennaf 2021) |
| WPP Link Fund Solutions | Ecwitïau yn y DU (gweithredol) |
| | Bondiau Llywodraeth Byd-eang |
| | Credyd Byd-eang |
| | Credyd Aml-Ased |
| | Ecwitïau Byd-eang (gweithredol) (o fis Gorffennaf 2021) |
| | Ecwitïau Marchnadoedd sy'n Datblygu (o fis Hydref 2021) |
| Nikko Asset Management | Ecwitïau Japaneaidd (gweithredol) (tan fis Gorffennaf 2021) |
| Schroders Investment | Ecwitïau Asia a'r Môr Tawel (ac eithrio Japan) (gweithredol) (tan fis Gorffennaf 2021) |
| Management | Eiddo yn y DU |
| UBS | Eiddo yn y DU |
| CBRE | Eiddo Byd-eang |
| Capital Dynamics | Ecwiti Preifat |
| HarbourVest | Ecwiti Preifat |
| Pantheon | Ecwiti Preifat |

**Ymgynghorwyr Proffesiynol**

Ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa yn ystod y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| Actiwarïaid | AON Hewitt Limited |
| Archwilydd | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Bancwyr | NatWest Bank plc |
| Ceidwad | Northern Trust |
| Ymgynghorwyr Cyfreithiol | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Caerdydd |
| | Sacker and Partners |
| Ymgynghorwyr Buddsoddi | Mr. S. Bates a Ms. C. Burton |
| Gweinyddu'r Cynllun | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Cyngor Caerdydd |
| Darparwr CGY Presennol | Prudential Assurance |

# GWEINYDDU'R GRONFA

Mae'r CPLlL yn Gynllun Budd Diffiniedig a reolir gan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 a'r gwahanol reoliadau eraill a gyhoeddir gan y Weinyddiaeth dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'r Cynllun yn agored i bob cyflogai awdurdod lleol heblaw am athrawon, ac mae'r Rheoliadau'n nodi bod gan gyflogeion rhai cyrff penodol eraill yr un hawliau i aelodaeth ag sydd gan gyflogeion awdurdod lleol. Hefyd mae'r Rheoliadau yn rhoi'r grym i awdurdodau gweinyddu fynd i gytundebau derbyn gyda chyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer y cyflogwyr gweithredol yn y Gronfa a'r rhai sydd wedi rhoi'r gorau iddi fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022:

| | Gweithredol | Wedi rhoi'r gorau iddi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Corff Cofrestredig | 17 | 13 | 30 |
| Corff Derbyniedig | 27 | 32 | 59 |
| **Cyfanswm** | **44** | **45** | **89** |

Rhoddir rhestr lawn o gyflogwyr sy'n cyfrannu yn Nodyn 22 i'r cyfrifon.

Mae Aelodaeth y Gronfa wedi ei chrynhoi yn Nodyn 7 y cyfrifon. Yn ychwanegol i'r cyfranwyr, y pensiynwyr a'r aelodau sydd â buddion gohiriedig, ar 31 Mawrth 2022 roedd 3,915 o ymadawyr ansicr h.y. aelodau y byddai ad-daliad cyfraniadau, budd gohiriedig neu drosglwyddiad allan yn ddyledus iddynt.

Mae incwm y gronfa yn codi o enillion buddsoddi a chyfraniadau gan gyflogwyr a chyflogeion. Gosodir cyfraddau cyflogeion yn genedlaethol yn dibynnu ar dâl pensiynadwy aelod. Yn ystod 2021/22, dyma'r bandiau cyfraniadau:

| Band | Ystod Cyflog Pensiynadwy | Cyfradd Cyfraniadau |
|---|---|---|
| 1 | Hyd at £14,600 | 5.5% |
| 2 | £14,601 i £22,900 | 5.8% |
| 3 | £22,901 i £37,200 | 6.5% |
| 4 | £37,201 i £47,100 | 6.8% |
| 5 | £47,101 i £65,900 | 8.5% |
| 6 | £65,901 i £93,400 | 9.9% |
| 7 | £93,401 i £110,000 | 10.5% |
| 8 | £110,001 i £165,000 | 11.4% |
| 9 | £165,001 neu fwy | 12.5% |

Y bandiau cyfraniadau ar gyfer 2022/23 yw:

| Band | Ystod Cyflog Pensiynadwy | Cyfradd Cyfraniadau |
|---|---|---|
| 1 | Hyd at £15,000 | 5.5% |
| 2 | £15,001 i £23,600 | 5.8% |
| 3 | £23,601 i £38,300 | 6.5% |
| 4 | £38,301 i £48,500 | 6.8% |
| 5 | £48,501 i £67,900 | 8.5% |
| 6 | £67,901 i £96,200 | 9.9% |
| 7 | £96,201 i £113,400 | 10.5% |
| 8 | £113,401 i £170,100 | 11.4% |
| 9 | £170,101 neu fwy | 12.5% |

Cyfrifir cyfraddau cyflogeion gan actiwari'r cynllun ym mhob gwerthusiad teirblwydd. Yn ogystal â chyfraniadau a gyfrifir fel canran o'r tâl pensiynadwy, i rai cyflogwyr, mae'r actiwari hefyd wedi pennu symiau arian i'w talu bob blwyddyn ariannol.

**Cynnydd Pensiwn**
Mae pensiynau a gaiff eu talu yn destun cynyddiadau gorfodol blynyddol a bennir gan y cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) yn y ddeuddeg sir hyd at y mis Medi blaenorol. Mae'r cynyddiadau yn daladwy gan y Gronfa ac amcangyfrifir cynyddiadau yn y dyfodol ym mhob prisiant teirblwydd. Caiff unrhyw amrywiadau eu haddasu mewn prisiadau dilynol trwy raddfa cyfrannu cyflogwr diwethaf yr aelod cyn iddo adael ei gyflogaeth. Bydd cynyddiadau yn dod i rym yn wythnos lawn gyntaf pob blwyddyn ariannol. Y cynnydd ar gyfer 2021/22 oedd 0.5% a'r cynnydd ar gyfer 2022/23 yw 3.1%.

Mae buddiannau EGCH y mae aelodau gweithredol y Gronfa wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2014 hefyd yn destun newidiadau blynyddol yn gysylltiedig â'r MPD. Ailbrisiwyd cyfrifon a ddygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gan 0.5% ac ailbrisiwyd cyfrifon a ddygwyd ymlaen i 2022/23 gan 3.1% ar 1 Ebrill 2022.

**Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGYau)**
Mae Prudential Assurance yn parhau fel y darparwr CGY presennol ar gyfer y Gronfa. Mae Prudential yn cynnig gwybodaeth drwy eu gwefan https://www.pru.co.uk/rz/localgov/

**Gwaith gweinyddol**
Gweinyddir y Gronfa gan Dîm Pensiynau Cyngor Caerdydd, sydd wedi'u lleoli yn Neuadd y Sir, Caerdydd.

Cedwir cofnodion aelodau ar y system Altair a ddarperir ac a gynhelir gan Aquila Heywood. Telir pensiynau misol trwy system cyflogres SAP y Cyngor.

# ADRODDIAD POLISI BUDDSODDI A PHERFFORMIAD

## Pwerau Buddsoddi

Ceir prif bwerau buddsoddi'r Gronfa yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) a gyhoeddwyd yn 2016. Mae'r Rheoliadau'n rhoi'r pŵer i awdurdodau gweinyddu ddirprwyo penderfyniadau buddsoddi i reolwyr allanol yn amodol ar ystyriaeth briodol o arallgyfeirio rhesymol a digonol gan reolwyr. Mae adolygiadau cyfnodol o benodi rheolwyr a'r buddsoddiadau a wneir ganddynt hefyd yn orfodol. Mae gofyn am gyngor priodol wrth bennu mathau addas o fuddsoddi.

## Amcan Buddsoddi

Amcan buddsoddi cyffredinol y Gronfa yw cael yr adenillion mwyaf o fuddsoddi a chadw cyfraniadau'r cyflogwyr yn y dyfodol cyn ised â phosibl, neu o leiaf yn gyson yn yr hirdymor a chyda lefel dderbyniol o risg.

Mae'r Gronfa yn ddarbodus wrth geisio gwireddu'r gofyniad rheoleiddiol er mwyn sicrhau diddyledrwydd y Gronfa dros gyfnod o amser (h.y. er mwyn i werth asedau'r Gronfa fod yr un peth neu'n fwy na'i hymrwymiadau a gronnir gan ddefnyddio dulliau a rhagdybiaethau 'cyfredol' yr actiwari.) Cyfrifir y cyfnod hwn, ynghyd â lefel yr ariannu bob tair blynedd, gan yr Actwari yn dilyn adolygiad yn asesu addasrwydd asedau'r Gronfa i fodloni ei hymrwymiadau. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried y sefyllfa actiwaraidd a'r lefel ariannu wrth adolygu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Cwblhawyd prisiad actiwaraidd 2019 ym mis Mawrth 2020. Mae'r Adroddiad Prisio ar gael ar wefan y Gronfa yma:
https://www.cardiffandvalepensionfund.org.uk/cy/amdanom-ni/adroddiadau-gwerthuso-actiwaraidd/

Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2021 wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn fel Atodiad 2.

Ar gyfer prisiad 2019 cyfrifwyd y gymhareb ariannu asedau yn erbyn rhwymedigaethau fel 96%, cynnydd o 85% ar gymhareb 2016. Bu hyn yn bennaf oherwydd y twf mewn asedau Cronfa dros y tair blynedd, wedi'i wrthbwyso gan gynnydd mewn rhwymedigaethau oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol. Gostyngodd y diffyg ariannu cyffredinol o £300m i £95m, a phennwyd cyfraniadau cyflogeion am y tair blynedd nesaf gyda'r nod o adennill diffygion o fewn 17 flynedd. Mae'r cyfraniadau'n cynnwys

lwfans ar gyfer rhwymedigaethau ychwanegol posibl yn deillio o ddyfarniad 'McCloud', a ddyfarnodd fod trefniadau diogelu trosiannol ar gyfer rhai cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus yn anghyfreithlon. Mae Actiwari'r Gronfa wedi cynghori ar gyfraddau cyfraniadau addas gan gyflogwyr i gwmpasu'r cyfnod o 3 blynedd o 1 Ebrill 2020.

## Rheoli'r Gronfa

Nod y Panel Cynghori ar Fuddsoddi yw cyfarfod â phob rheolwr â phortffolio a reolir yn weithredol unwaith y flwyddyn. Mae hefyd yn ystyried yn ei gyfarfodydd chwarterol:

- Yr Amcan Cronfa cyffredinol a lefel y risg fuddsoddi
- Y Gronfa Gyffredinol a pherfformiad rheolwyr unigol
- Trefniadau rheoli buddsoddiadau'r Gronfa
- Dyrannu asedau'n strategol dros brif sectorau'r farchnad ac ardaloedd daearyddol, gan gynnwys y rhaniad rhwng rheoli'n oddefol ac yn weithredol

Mae'r Pwyllgor Pensiynau'n adolygu ac yn cymeradwyo dogfennau buddsoddi strategol y Gronfa, a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sy'n gyfrifol yn ffurfiol am y penderfyniadau buddsoddi gweithredol.

Caiff rheolaeth y Gronfa ei strwythuro ar sail arbenigol, a dyrennir sectorau neu ardaloedd daearyddol i reolwyr unigol (gweler uchod am restr o reolwyr a'u mandadau). Pan fo'n bosibl, rhoddir targed perfformiad i bob rheolwr, ond yn gyffredinol hefyd rhoddir i bob un dipyn o ryddid o ran sut y cyflawnir hyn. Mae'r Gronfa yn cyflogi ceidwad byd-eang er mwyn sicrhau y cedwir pob gwarant a fasnechir yn gyhoeddus yn ddiogel, a rheoli setlo masnachau ac adfer trethiant. Caiff ecwiti preifat, ymddiriedolaethau unedau eiddo ac arian parod ei reoli'n fewnol gan na chaiff yr asedau hyn eu masnachu'n gyhoeddus.

Ffioedd rheoli yw'r brif ffurf ar wariant ar fuddsoddi ac maent yn cynnwys cyfuniad o ffioedd ad valorem (sy'n amrywio yn ôl gwerth yr arian a reolir) a ffioedd perfformiad. Mae ffioedd cystodaeth yn amrywio gyda nifer y trafodion buddsoddi a wneir gan reolwyr y gronfa. Mae ffioedd ymgynghorwyr y Panel yn codi yn unol â chyflog y Prif Swyddogion. Mae canllawiau cyfrifyddu diwygiedig o 2015/16 ymlaen yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ffioedd rheoli gael eu cyfrif fel treuliau buddsoddi p'un a ydynt yn cael eu codi'n uniongyrchol neu eu gwrthbwyso yn erbyn adenillion buddsoddi ai peidio. Y ffioedd Rheoli a Gwarchodaeth ar gyfer 2021/22 oedd £6.2m (£6.6m yn 2020/21).

## Datganiad Strategaeth Fuddsoddi

Mae Rheoliadau CPLlL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 yn gofyn bod yr holl gronfeydd CPLlL yn paratoi ac yn cyhoeddi Datganiad Egwyddorion Buddsoddi (DEB). Mae'r DEB yn crynhoi amcanion buddsoddi'r Gronfa a'r polisïau y mae'n eu defnyddio i reoli buddsoddiadau. Dan y Rheoliadau diwygiedig a gyflwynwyd yn 2016/17, mae'r DEB wedi ei ddisodli gan Ddatganiad Strategaeth Fuddsoddi (DSF). Cymeradwywyd DSF y Gronfa i ddechrau o flwyddyn ariannol 2020/21 gan y Pwyllgor Pensiynau ar 27 Ionawr 2020.

Mae'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi sy'n weithredol yn ystod 2021/22 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn fel Atodiad 3 ac mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Gronfa drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
https://www.cardiffandvalepensionfund.org.uk/cy/amdanom-ni/dogfennau-llywodraethu-allweddol/


Hefyd, caiff athroniaeth buddsoddi'r Gronfa ei chrynhoi yn y ddogfen 'Credoau Buddsoddi Craidd' sydd ar gael ar y wefan.

## Meincnod y Gronfa a Dyrannu Asedau Strategol

Mae'r Gronfa wedi cytuno ar ei meincnod pwrpasol a'i Amcan Cronfa ei hun, a osodwyd i sicrhau yr adlewyrchir ei nodweddion ei hun o ran ymrwymiadau atebolrwydd ac nid cyfartaledd grŵp cyfoedion. Mae'r Panel Cynghori ar Fuddsoddi yn adolygu dyraniad asedau cyffredinol y Gronfa yn rheolaidd ac, os yw'n briodol, yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Pensiwn i ddiwygio'r dyraniad asedau. Strategaeth wrthrychol gyffredinol y Gronfa yw sicrhau'r enillion buddsoddi mwyaf posibl a thrwy wneud hynny mae wedi'i chynllunio i leihau, neu o leiaf sefydlogi, cyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol ac osgoi amrywiadau mawr mewn cyfraniadau. Mae'r fersiwn gyfredol hon o'r DSF yn adlewyrchu arwyddocâd cynyddol cyfuno buddsoddiadau'r Gronfa drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn ogystal â sut y caiff ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl) eu hystyried gyda phenderfyniadau buddsoddi'r Gronfa.

Roedd Dyraniad Asedau 2021/22 y Gronfa yn cynnwys dyraniad o 60% i Ecwitïau a oedd yn cynnwys y dyraniad 20% i Gronfa Carbon Isel, dyraniad 30% i Ecwiti Byd-eang a dyraniad 5% i Farchnadoedd sy'n Datblygu yn ogystal â 15% ar gyfer Ecwitïau yn y DU. Cymeradwyodd cyfarfod y Pwyllgor Pensiwn ym mis Chwefror 2021 argymhelliad y Panel Cynghori ar Fuddsoddi y dylid buddsoddi tua 10% pellach o werth y Gronfa, i gynyddu'r dyraniad i 20%, yn y Gronfa Carbon Isel gyda gostyngiad cyfatebol mewn Ecwiti'r DU. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020, roedd y Pwyllgor Pensiynau wedi cymeradwyo'r argymhelliad i drosglwyddo daliadau Ecwiti Rhanbarthol etifeddol y Gronfa i ddwy is-gronfa Ecwiti Byd-eang PPC.

Ceir dadansoddiad o'r portffolio buddsoddi dros y pum mlynedd ddiwethaf yn Atodiad 1. Adlewyrcha newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad newidiadau mewn polisi buddsoddi a pherfformiad cymharol gwahanol farchnadoedd.



# PERFFORMIAD BUDDSODDI

Yn ystod 2021/22, cyfanswm adenillion y Gronfa (net o ffioedd) oedd 6.2%, 7.6% o dan feincnod adenillion y Gronfa, sef 13.8%. Dangosodd teimlad y farchnad yn 2021/22 barhad cychwynnol o'r twf a welwyd yn 2020/21 ond newidiodd teimlad y farchnad yn ail hanner 2021/22 gyda phryderon chwyddiant ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn cael effaith negyddol arno.

Roedd perfformiad portffolios y rheolwyr yn ystod 2021/22 o'i gymharu â'u meincnodau a'u targedau fel a ganlyn:

| Rheolwr | Mandad (targed yn erbyn meincnod) | Meincnod adenillion (%) | Targed Portffolio (%) | Adenillion Portffolio (%) |
|---|---|---|---|---|
| PPC | Credyd Aml-Ased Byd-eang | Amh | 4.1 | -2.3 |
| PPC | Bondiau Llywodraeth Byd-eang | -4.2 | -4.2 | -3.5 |
| PPC | Credyd Byd-eang | -5.1 | -5.1 | -4.1 |
| PPC | Ecwitïau'r DU | 13.0 | 15.0 | 1.5 |
| PPC ** | Ecwitïau Byd-eang – Cyfleoedd Byd-eang | 12.4 | 14.4 | 11.1 |
| PPC ** | Ecwitïau Byd-eang – Twf Byd-eang | 12.4 | 14.4 | 3.0 |
| PPC **** | Ecwitïau Marchnadoedd sy'n Datblygu | -5.4 | -3.4 | -5.7 |
| BlackRock* | Ecwitïau yn y DU (goddefol) | 5.6 | 5.6 | 5.7 |
| BlackRock* | Ecwitïau yn UDA (goddefol) | 8.6 | 8.6 | 8.6 |
| BlackRock* | Carbon Isel (goddefol) | 15.7 | 15.7 | 16.1 |
| State Street* | Ecwitïau Ewropeaidd (+2%) | 7.5 | 9.5 | 7.6 |
| Nikko* | Ecwitïau Japaneaidd (+3%) | -0.3 | 2.7 | 2.5 |
| Schroders* | Ecwitïau Asia a'r Môr Tawel (+3%) | 4.1 | 7.1 | 2.8 |
| Aberdeen Standard*** | Ecwitïau Marchnadoedd sy'n Datblygu (+3%) | -7.3 | -4.3 | -7.7 |
| Invesco* | Ecwitïau yn y DU (heb eu cyfyngu) | 5.6 | Amh. | 4.2 |
| Cronfeydd Ecwiti Preifat (32) | Ecwiti Preifat Byd-eang | 13.0 | 13.0 | 37.4 |
| Cronfeydd Eiddo yn y DU (4) | Eiddo yn y DU | 23.1 | 23.1 | 23.8 |
| CBRE | Eiddo Byd-eang (10% o adenillion absoliwt) | Amh. | 10.0 | -4.0 |

* Perfformiad hyd at ddiwedd Mehefin 2021 ** Perfformiad ar gyfer y flwyddyn gyfan ond buddsoddiad o fis Gorffennaf 2021
*** Perfformiad tan fis Hydref 2021 **** Perfformiad o fis Hydref 2021

Er ei bod yn ddefnyddiol cymharu perfformiad rheolwyr dros y flwyddyn a aeth heibio, mae adolygiadau'r Panel Cynghori ar Fuddsoddi yn canolbwyntio ar berfformiad cyfartalog rheolwyr gweithredol dros dair i bum mlynedd er mwyn sicrhau y cymerir amrywiadau yn y farchnad i ystyriaeth.

## Perfformiad Tymor Hwy y Gronfa

Dylid mesur cyfanswm cyffredinol y Gronfa Bensiwn dros yr hirdymor. Dros y deng mlynedd ddiwethaf mae cyfanswm adenillion y Gronfa wedi dychwelyd cyfartaledd blynyddol o 8.1% o gymharu â meincnod Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM) o 3.5%. Yn y tabl isod mae'r cyfartaledd 5 mlynedd hefyd yn cymharu perfformiad y Gronfa â'r MPM gyda'r cymariaethau 3 blynedd ac 1 flwyddyn yn erbyn meincnod penodol y gronfa. Gan ddefnyddio 2021/22 fel y flwyddyn sylfaen, mae cyfansymiau cymharol dros gyfnodau gwahanol fel a ganlyn:

| | % Cronfa y flwyddyn | % Meincnod y flwyddyn |
|---|---|---|
| 1 Flwyddyn (2021-2022) | 6.2 | 13.8 |
| Cyfartaledd 3 blynedd (2019-2022) | 7.9 | 9.0 |
| Cyfartaledd 5 mlynedd (2017-2022) | 6.3 | 4.1 |
| Cyfartaledd 10 mlynedd (2012-2022) | 8.1 | 3.5 |



# ADRODDIAD Y BWRDD PENSIYNAU LLEOL

Sefydlwyd Bwrdd Pensiynau Lleol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Bwrdd) dan y trefniadau newydd ar gyfer llywodraethu Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol a gyflwynwyd o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2015. Prif bwrpas y Bwrdd yw cynorthwyo Cyngor Caerdydd (fel yr Awdurdod Gweinyddu) i reoli Cronfa CPLlL Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa). Nid yw'r Bwrdd yn rhan o'r gwaith o gynnal y Gronfa Bensiwn o ddydd i ddydd ond mae'n goruchwylio a herio.

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd ar gael ar wefan y Gronfa drwy'r ddolen ganlynol :
https://www.cardiffandvalepensionfund.org.uk/wp-content/uploads/Pension-Term-or-Ref-cy.pdf (cronfabensiwncaerdyddabromorgannwg.org.uk)

## Aelodaeth

Mae gan y Bwrdd saith aelod gyda thri chynrychiolydd sy'n Gyflogwyr a thri chynrychiolydd sy'n Aelodau, wedi'u henwebu gan Undebau Llafur ynghyd â Chadeirydd annibynnol. Mae aelodaeth y Bwrdd ar 31.03.22 i'w weld yn y tabl isod

| Math | Statws | Enw | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd | Presennol | Michael Prior | Annibynnol |
| Cyflogwr | Newydd | Laithe Bonni | Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyflogwr | Presennol | David Llewelyn | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| Cyflogwr | Presennol | Mark Sims | Cyngor Tref y Barri |
| Aelod | Presennol | Peter King | Cynrychiolydd enwebedig yr undeb |
| Aelod | Presennol | Hilary Williams | Cynrychiolydd enwebedig yr undeb |
| Aelod | Presennol | Sheelagh Doolan-Pitt | Cynrychiolydd enwebedig yr undeb |

**Crynodeb o weithgareddau 2021/22**
Nid yw'r Bwrdd yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Ei rôl yw rhoi cyngor a sylwadau ar reoli'r Gronfa fel bod cyfarfodydd y Bwrdd yn alinio â chyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd adolygu a rhoi sylwadau ar adroddiadau a pholisïau cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo.

Yn ystod 2021/22 bu'r Bwrdd yn ystyried ac yn trafod y canlynol:

- Arolwg y Rheoleiddiwr Pensiynau 2021
- Cynllun Busnes y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2021/22
- Diweddariad ar weithgarwch y Gronfa i leihau ei ôl troed Carbon a sut mae'n lliniaru risg Newid Hinsawdd.
- Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn 2021/22 (er gwybodaeth)
- Polisïau Cwynion a Chyfathrebu'r Gronfa
- Diwygiadau i'r Datganiad Strategaeth Ariannu (DSA) i gyflwyno hyblygrwydd ychwanegol i gyflogwyr
- Adolygu Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu'r Gronfa
- Adolygiad Seiberddiogelwch Pensiynau 2022

Yn ogystal â'r uchod ar gyfer pob cyfarfod o'r Bwrdd ceir yr adroddiadau canlynol hefyd fel eitemau sefydlog ar agenda cyfarfod y Bwrdd:

**Adroddiad Gweinyddu**
Mae hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar waith sy'n cael ei wneud gan yr Adran Bensiynau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys diweddariadau ar lwyth gwaith a pherfformiad y Tîm Gweinyddu Pensiynau gan gynnwys cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol yn ogystal â diweddariadau ar staffio ac adnoddau. Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar fentrau presennol ac yn y dyfodol megis sut mae'r Tîm yn cyflwyno'r cynllun Hunanwasanaeth i Aelodau, yn paratoi ar gyfer McCloud a sut mae'r Tîm wedi addasu i gyfyngiadau Covid 19.

**Y Gofrestr Risgiau**
Mae'r Gronfa Bensiwn yn cynnal Cofrestr Risgiau, sy'n defnyddio fformat Cyngor Caerdydd, ac mae'r adolygiad o'r Gofrestr Risgiau yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd amryw o argymhellion ynghylch y Gofrestr Risgiau gan gynnwys argymell sgoriau uwch ar gyfer rhai risgiau e.e. seiberddiogelwch a chyflwyno risg annibynnol i gydnabod effaith risgiau Newid yn yr Hinsawdd / ACLl ar gyfer y Gronfa.

**Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) / Buddsoddiadau**
Er bod y Bwrdd yn canolbwyntio ar faterion gweinyddu a llywodraethu, nid yw materion buddsoddi yn cael eu hanwybyddu a darperir diweddariad lefel uchel ar berfformiad buddsoddi'r Gronfa a'r Marchnadoedd Ariannol ehangach ym mhob cyfarfod. O ystyried arwyddocâd cynyddol PPC wrth ddarparu cynhyrchion buddsoddi ar gyfer y Gronfa mae'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ar gynlluniau ar gyfer is-gronfeydd PPC newydd a datblygiadau eraill ynghylch PPC megis y broses o ychwanegu Cynrychiolydd Aelod o'r Cynllun at Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC a gafodd ei gyflawni'n ddiweddar.

**Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd 2021-22**

Cyfarfu'r Bwrdd ar dri achlysur yn ystod 2021/22 ynghyd â chyfarfod blynyddol ar y cyd anffurfiol gyda'r Pwyllgor Pensiynau. Cafodd y pedwar cyfarfod hynny eu cynnal yn rhithwir yn sgil effaith barhaus feirws Covid-19. Roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd fel a ganlyn:

| | 27 Ebrill 2022 | 06 Gorffennaf 2021 | 18 Ionawr 2022 |
|---|---|---|---|
| Michael Prior | √ | √ | √ |
| Carys Lord * | √ | x | Amh. |
| David Llewelyn | √ | √ | √ |
| Mark Sims | √ | x | x |
| Peter King | √ | x | √ |
| Hilary Williams | √ | √ | √ |
| Sheelagh Doolan-Pitt | x | √ | √ |

** Ymddiswyddodd Carys Lord fel Cynrychiolydd Cyflogwr ar y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2021. Penodwyd Laithe Bonni i'r Bwrdd fel Cynrychiolydd Cyflogwr ym mis Ionawr 2022, ond ar ôl y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2022..*

Er ar ôl i'r cyfnod sy'n cael ei ystyried yn yr Adroddiad Blynyddol ymddiswyddodd Sheelagh Doolan-Pitt o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am aelodau unigol y Bwrdd ar wefan y Gronfa
[Y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd- Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro]

**Hyfforddiant**

Mae aelodau'r bwrdd yn cael gwybod am gyfleoedd hyfforddi allanol fel digwyddiadau Rhwydwaith Pensiynau CLlL a CIPFA ac maent yn cael eu hannog i fynychu os ydynt ar gael yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau CIPFA a fynychwyd gan aelodau'r Bwrdd yn ystod 2021/22 yn cynnwys:

- CIPFA – Digwyddiad Diwrnod Llawn Blynyddol i Aelodau Bwrdd Pensiynau Lleol CPLlL 2021 – 23 Mehefin 2021
- Aon – Earth, Wind and Fire: Considering & Communicating on climate risk – 12 Gorffennaf 2021
- CIFPA – Seminarau'r Hydref i Fwrdd Pensiynau Lleol CPLlL a Swyddogion 04 Hydref 2021
- Aon – Refreshing and Redesigning a One Pensions Team – 19 Hydref 2021
- CIPFA – Sesiynau hyfforddiant 3 diwrnod sylfaenol CPLlL – Hydref i Ragfyr 2021
- Aon = Beyond COP26 – Cynhadledd Buddsoddi Aon – 16 Tachwedd 2021
- CIPFA – Cynhadledd Lywodraethu Flynyddol CPLlL – 21 Ionawr 2021
- Aon CIPFA – Cyfres hyfforddi seiliedig ar gymhwysedd – 7 sesiwn drwy'r flwyddyn

Mae aelodau'r bwrdd hefyd yn cael eu hannog i fynychu'r digwyddiadau hyfforddiant chwarterol ar-lein sy'n cael eu darparu gan PPC. Mae'r digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar y gweithgareddau buddsoddi a wnaed gan PPC, ond maent yn ymdrin ag ystod eang o faterion sy'n berthnasol i aelodau'r Bwrdd a oedd, yn 2021/22, yn cynnwys cyflwyniad i ddosbarthiadau Asedau'r Farchnad Breifat, Buddsoddi Cyfrifol, a chynnydd Cronfeydd CPLlL eraill.

## Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

Sefydlwyd PPC yn 2017 gyda'r amcan i gyflawni:


- arbedion maint
- llywodraethiant a gwneud penderfyniadau cryf
- costau llai a gwerth ardderchog am arian, a
- gwell capasiti a gallu i fuddsoddi mewn isadeiledd

Mae'r PPC yn un o wyth cronfa bensiwn llywodraeth leol yn genedlaethol ac mae'n gydweithrediad o'r wyth cronfa CPLlL yng Nghymru, sy'n cynnwys Caerdydd a Bro Morgannwg, Clwyd, Dyfed, Gwent Fwyaf (Torfaen), Gwynedd, Powys, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Mae gan yr wyth cronfa hanes hir a llwyddiannus o gydweithio gan gynnwys tendr ar y cyd ar gyfer darparwr ecwiti goddefol ar gyfer cronfeydd Cymru cyn menter cronfeydd y Llywodraeth.

Mae rheoli buddsoddiadau ar y cyd yn cynnig y potensial ar gyfer arbedion ffioedd buddsoddi, cyfleoedd i ehangu portffolios buddsoddi, gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu gwell yn ogystal â mynediad at wybodaeth a rennir ac arfer gorau. Er bod PPC yn gyfrifol am ddarparu atebion buddsoddi cydweithredol, mae pob awdurdod cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am bennu ei strategaeth fuddsoddi ei hun.
Mae model gweithredu PPC wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg a darparu gwerth am arian. Penododd PPC Weithredwr cronfa allanol ac mae'n gwneud defnydd o ymgynghorwyr allanol i ddod â'r arbenigedd gorau i helpu i gynnal y Gronfa. Y Gweithredwr yw Link Fund Solutions ac maent wedi ffurfio partneriaeth â Russell Investments i ddarparu atebion rheoli buddsoddiadau effeithiol a darparu rhwyd gref o berfformiad ffioedd ar gyfer yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

### Llywodraethiant

Mae'r PPC yn manylu ar sut mae'n ymdrin â phob agwedd ar Lywodraethu drwy ei Gytundeb Rhyng-awdurdod a gafodd ei gymeradwyo gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ym mis Mawrth 2017. Mae'r Cytundeb hwn yn diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Aelodau, Pwyllgorau a Swyddogion ac mae'n cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau. Yn unol â'i gred y dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid, mae'r PPC wedi rhoi strwythur llywodraethu cadarn ar waith:



Wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC yw:

- Cyngor Sir Caerfyrddin (sy'n cynnal)
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eistedd ar frig strwythur llywodraethu PPC. Maent yn cadw rheolaeth ar holl weithgareddau PPC ac yn gyfrifol am gymeradwyo Cynllun Busnes PPC, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith PPC, yn ogystal â'i Chredoau a'i Hamcanion.

Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn goruchwylio ac yn adrodd ar PPC ac mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae'r Gweithgor Swyddogion yn darparu cefnogaeth a chyngor i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ac mae'n cynnwys ymarferwyr a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Cynnal ar gyfer PPC ac mae'n gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion, a chysylltu o ddydd i ddydd â'r Gweithredwr ar ran holl gronfeydd CPLlL Cymru. Mae Link Fund Solutions (y Gweithredwr) yn cynnal ystod eang o wasanaethau ar gyfer PPC, gan gynnwys hwyluso cyfryngau buddsoddi ac is-gronfeydd, adrodd ar berfformiad, gweithredu'r trosglwyddiadau a monitro rheolwyr a thrafod ffioedd. Mae Cytundeb Gweithredwr ar waith sy'n nodi dyletswyddau cytundebol y Gweithredwr ac sy'n rheoli'r berthynas rhwng y Gweithredwr a PPC. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion, gyda chefnogaeth Hymans Robertson, yn goruchwylio'r gwaith y mae Link Fund Solutions yn ei wneud ar ran PPC. Mae Link yn ymgysylltu â'r Awdurdodau Cyfansoddol drwy:

- Ymgysylltu'n uniongyrchol – presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor blynyddol
- Ymgysylltu'n anuniongyrchol – gydag Awdurdodau Cyfansoddol ar y cyd, trwy'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion

Mewn cydweithrediad â Link Fund Solutions, mae Russell Investments yn darparu gwasanaethau atebion rheoli buddsoddiadau i PPC ac maent yn gweithio mewn ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC i sefydlu cyfryngau buddsoddi.


Northern Trust yw'r Ymddiriedolwr ar gyfer cyfrwng ACS PPC ac mae'n darparu nifer o wasanaethau gan gynnwys benthyca gwarantau, gweinyddu cronfeydd, monitro cydymffurfiaeth ac adrodd.

Hymans Robertson yw Ymgynghorydd Goruchwylio PPC ac mae eu rôl yn cwmpasu goruchwyliaeth a chyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwyr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth rheoli prosiectau.

Ymgynghorwyr cyfreithiol PPC yw Burges Salmon ac maent yn darparu cyngor cyfreithiol mewn perthynas â chronfeydd rheoledig AYA, trefniadau treth a llywodraethu, gan gynnwys cynorthwyo gyda phrosesau caffael cymhleth. Mae Robeco UK wedi'i benodi'n ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC ac maent yn gyfrifol am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio PPC ac ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu ar ran PPC.

**Polisïau PPC**

Credoau PPC yw'r sylfaen ar gyfer fframwaith llywodraethu PPC ac fe'u defnyddiwyd i lywio holl weithgareddau a phenderfyniadau PPC, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau. Mae'r PPC, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu cyfres o bolisïau llywodraethol. Ym mhob achos datblygwyd polisïau a gweithdrefnau PPC i ategu gweithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Rhestrir polisïau allweddol, cofrestrau a chynlluniau PPC isod ac maent i'w gweld ar wefan PPC.




Mae Buddsoddi Cyfrifol wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i PPC ers ei sefydlu yn 2017. Cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol i weithio tuag at uchelgais PPC o arwain y ffordd mewn Buddsoddi Cyfrifol. I ddechrau, roedd y ffocws ar lunio Polisi Buddsoddi Cyfrifol ac ers hynny mae PPC wedi llunio ei Pholisi Risg Hinsawdd ei hun ac mae wedi gweithio gyda'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Robeco, i gytuno ar Bolisi Pleidleisio. Sefydlwyd Is-Grŵp BC PPC i gymryd perchnogaeth o lif gwaith a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â BC sydd eu hangen i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed ym Mholisïau Risg BC a Risg Hinsawdd PPC.

Mae Cynllun Busnes PPC, Llawlyfr Llywodraethu a phob polisi arall y manylir arno yn y siart uchod i'w gweld ar wefan PPC:
[https://www.partneriaethpensiwncymru.org/](https://www.partneriaethpensiwncymru.org/)

**Risg**

Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad PPC i lywodraethu da. Mae PPC wedi datblygu strategaeth risg strwythuredig, helaeth a chadarn sy'n ceisio nodi a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau llywodraethu addas ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae Polisi Risg PPC wedi'i ddatblygu yn y fath fodd fel y gellir rhagweld a delio â risgiau mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posibl i PPC a'i rhanddeiliaid.
Mae PPC yn cynnal Cofrestr Risgiau sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Is-Grŵp Risg pwrpasol sy'n adrodd yn ôl i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu bob chwarter.

**Hyfforddiant**

Mae gan PPC ei pholisi hyfforddiant ei hun ac mae'n datblygu cynllun hyfforddiant blynyddol sydd wedi'i gynllunio i ychwanegu at gynlluniau hyfforddi'r Awdurdod Cyfansoddol presennol. Bydd anghenion hyfforddi lefel leol yn parhau i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol tra bydd cynllun hyfforddi PPC yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau cronfa PPC.

**Perfformiad y gronfa hyd yma**
Nod PPC yw darparu atebion buddsoddi sy'n caniatáu i'r Awdurdodau Cyfansoddol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain gydag arbedion cost materol wrth barhau i ddarparu perfformiad buddsoddi i'w rhanddeiliaid. Mae PPC wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r amcan hwn. Mae lansio'r cyntaf o dair is-gronfa ecwiti gweithredol PPC yn 2019/20, pum is-gronfa incwm sefydlog yn 2020/21 ac is-gronfa ecwiti Marchnadoedd Sy'n Datblygu yn 2021/22, ochr yn ochr â buddsoddiadau goddefol presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol, wedi golygu bod PPC bellach wedi cyfuno 72% o asedau.

Ar 31 Mawrth 2022, mae gan PPC gyfanswm asedau gwerth £23.1 biliwn, ac mae £16.6bn ohonynt yn eistedd o fewn y gronfa. Gweler y dadansoddiad isod:

| Dosbarth Ased | Rheolir gan | Dyddiad Lansio | 31 Mawrth 2022 £000 | % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang | Link Fund Solutions | Chwefror 2019 | 3,303,494 | 14.3 |
| Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang | Russell Investments | Chwefror 2019 | 3,387,940 | 14.7 |
| Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU | Russell Investments | Medi 2019 | 730,278 | 3.2 |
| Cronfa Ecwiti Marchnadoedd sy'n Datblygu | Russell Investments | Hydref 2021 | 464,615 | 2 |
| Cronfa Credyd Byd-eang | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 757,659 | 3.3 |
| Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 507,273 | 2.2 |
| Cronfa Credyd y DU | Link Fund Solutions | Gorffennaf 2020 | 574,224 | 2.5 |
| Cronfa Credyd Aml-Ased | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 723,184 | 3.1 |
| **1.1.1..1.** Cronfa Bond Adenillion Absoliwt | Russell Investments | Medi 2020 | 509,605 | 2.2 |
| Buddsoddiadau Goddefol | BlackRock | Mawrth 2016 | 5,599,927 | 24.2 |
| Buddsoddiadau heb eu cyfuno eto | | | 6,534,711 | 28.3 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau ar draws pob un o'r 8 Cronfa Bensiwn** | | | **23,092,910** | **100** |

Asedau buddsoddi wedi'u rhannu rhwng Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg a PPC

| | 31 Mawrth 2022 £000 | % |
|---|---|---|
| Byd-eang / Cyfleoedd y DU / Ecwitïau Marchnadoedd sy'n Datblygu | 1,089,998 | 40 |
| Credyd Byd-eang / Llywodraeth Fyd-eang / Credyd y DU... | 609,903 | 23 |
| Ecwitïau Goddefol | 616,030 | 23 |
| Buddsoddiadau heb eu cyfuno eto | 377,186 | 14 |
| **Cyfanswm Asedau Buddsoddi** | **2,693,116** | **100** |

Mae'r tabl uchod yn crynhoi buddsoddiad Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn PPC, ynghyd â'r asedau sy'n parhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol y Gronfa. Yn ystod y flwyddyn, newidiodd £851.7m o asedau'r Gronfa i bortffolios PPC (Ecwiti Byd-eang a MD) ac mae'r tabl uchod yn dangos yr asedau sy'n cael eu rheoli gan y gronfa ar 31 Mawrth 2022.

**Costau cyfuno**

Cyngor Sir Caerfyrddin, fel yr Awdurdod Cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol a chysylltu o ddydd i ddydd â'r Gweithredwr ar ran yr holl gronfeydd CPLlL yng Nghymru. Mae cyllideb PPC wedi'i chynnwys yng Nghynllun Busnes PPC ac fe'i chymeradwyir yn flynyddol gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae costau'r Awdurdod Cynnal a'r Ymgynghorydd Allanol, y costau rhedeg, yn cael eu hariannu'n gyfartal (oni bai bod prosiectau penodol wedi'u cytuno ar gyfer Cronfeydd unigol) gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a'u hailgodi'n flynyddol. Y swm a ailgodwyd i Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 oedd £134.7mil, gweler y tabl isod.

Dyma fanylion y costau a dynnwyd gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg mewn perthynas â chostau rhedeg PPC.

| 2020/21<br>£000 | Costau cyfuno PPC | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| 18.8 | Costau'r Awdurdod Cynnal | 20.3 |
| 69.5 | Costau'r Ymgynghorydd Allanol | 114.4 |
| **88.3** | **Cyfanswm** | **134.7** |

Yn ogystal â'r costau rhedeg, mae costau trosglwyddo hefyd sy'n gysylltiedig â throsglwyddo asedau i'r gronfa. Gellir categoreiddio'r costau hyn yn ôl costau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae'r costau uniongyrchol yn cynnwys costau penodi rheolwr trosglwyddo i ymgymryd â'r newid, ynghyd ag unrhyw oruchwyliaeth ychwanegol o'r broses hon a wneir o safbwynt ymchwil ac adlewyrchiad. Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys costau penodol ac ymhlyg, fel comisiynau, lledaeniad ac effaith a chostau cyfle a elwir yn Ddiffygion Gweithredu. Mae costau trosglwyddo i'w priodoli'n uniongyrchol i'r asedau sy'n cael eu trosglwyddo ac felly maent yn cael eu tynnu o'u gwerth asedau net yn hytrach na thâl uniongyrchol i'r Gronfa.

Mae'r tabl isod yn datgelu'r costau rheoli buddsoddiadau sy'n cael eu rhannu rhwng y rhai a ddelir gan PPC (gan gynnwys yr ecwitïau goddefol) a'r rhai a gedwir y tu allan i PPC.

| | Cronfa Asedau | | | Cronfa Heb Asedau | | | Cyfanswm y Gronfa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uniongyrchol<br>£000 | Anuniongyrchol<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 | Uniongyrchol<br>£000 | Anuniongyrchol<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 | £000 |
| Ffioedd Rheoli | 163 | 2,804 | 2,967 | 3,017 | 757 | 3,774 | 6,740 |
| Costau a rennir ar gyfer y gronfa asedau | 135 | | 135 | | | 0 | 135 |
| Costau trafodion | 1,550 | 1,278 | 2,828 | | | 0 | 2,828 |
| Gwarchodaeth | 231 | | 231 | 41 | | 41 | 272 |
| Costau Trosglwyddo | 335 | | 335 | 132 | | 132 | 467 |
| Arall | 111 | | 111 | 154 | | 154 | 265 |
| **Cyfanswm £000** | **2,525** | **4,082** | **6,607** | **3,344** | **757** | **4,100** | **10,708** |

**Amcanion 2022/23**
Yn dilyn lansio nifer o is-gronfeydd hyd yma, bydd cynnydd yn parhau i gael ei wneud gyda rhesymoli sylweddol o'r ystod bresennol o fandadau. Bydd y gweithredwr / dyraniadau yn datblygu a lansio cyfres bellach o is-gronfeydd a fydd ar y cyd yn adlewyrchu anghenion dyrannu asedau strategol yr wyth cronfa gyfansoddol ac yn hwyluso symudiad sylweddol o'r asedau i'w cyfuno.

Wrth sefydlu cronfa PPC, mae'r prif ffocws wedi bod ar gyfuno'r asedau mwyaf hylifol, sef ecwitïau ac incwm sefydlog. Ym mis Gorffennaf 2021, penododd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu bfinance yn Ymgynghorwyr Dyrannu PPC a byddant yn helpu PPC i nodi Dyraniadau Marchnadoedd Preifat ar gyfer Dosbarthiadau Asedau'r Farchnad Breifat.

Mae amserlen trosglwyddo wedi'i darparu isod:

| Portffolio Buddsoddi | Amserlen ar gyfer lansio / gweithredu |
|---|---|
| Ecwitïau Cynaliadwy | Lansio erbyn diwedd 2022 |
| Dyled breifat / Seilwaith | Lansio cyn diwedd 2022/23 |
| Ecwiti Preifat | Lansiad wedi'i drefnu ddechrau 2023/24 |

Yn ystod 2021/22, cyhoeddodd PPC ei Hadroddiad Stiwardiaeth blynyddol cyntaf ac mae wedi cael ei dderbyn fel llofnodwr ar gyfer Cod Stiwardiaeth y DU 2020. Yn ystod 2022/23 mae PPC yn gobeithio gwella ei ddull o weithredu fel buddsoddwr cyfrifol ymhellach drwy sefydlu fframwaith ymgysylltu, gwella adroddiadau yn unol â gofynion Cod Stiwardiaeth y DU a'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd a pharhau i adolygu'r mandadau is-gronfa presennol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chredoau Buddsoddiad Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC.

Bydd ffocws hefyd ar adolygu a datblygu polisïau ychwanegol PPC, yn ogystal â darparu hyfforddiant amserol a pherthnasol a hwylusir gan y gronfa er budd ei grwpiau rhanddeiliaid ehangach.

**Benthyg ar Warantau**
Dechreuodd y benthyciadau gwarantau ym mis Mawrth 2020. Rhennir refeniw ar sail 85:15 rhwng PPC a Northern Trust gyda'r holl gostau ar gyfer cynnal y rhaglen benthyg ar warantau yn cael eu cymryd o gyfran Northern Trust o'r rhaniad ffioedd. Mae o leiaf 5% o faint nominal pob ecwiti unigol yn cael ei ddal yn ôl ac mae hyd at 25% o gyfanswm yr Asedau dan Reolaeth ar fenthyg ar unrhyw un adeg. Cyfanswm refeniw LF Cymru yn ystod 2021/22 oedd £1,296,016 (gros) / £1,101,659 (net) gyda £430,743,792 ar fenthyg ar 31 Mawrth 2022.

Mae gwybodaeth fanylach i'w chael yn Natganiad Blynyddol PPC a gyhoeddir ar wefan PPC- - [https://www.walespensionpartnership.org/](https://www.walespensionpartnership.org/)

# DATGANIAD ACTIWARAIDD

Yn ôl Rheoliadau'r Cynllun rhaid cynnal prisiad actiwaraidd llawn bob tair blynedd. Diben hyn yw sicrhau y gall Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) gyflawni ei rhwymedigaethau i gyfranwyr hen a newydd, ac adolygu cyfraddau cyfrannu cyflogwyr. Cwblhawyd yr ymchwiliad actiwaraidd llawn diwethaf i sefyllfa ariannol y Gronfa ar 31 Mawrth 2019 gan Aon, yn unol â Rheoliad 62 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

## Sefyllfa Actiwaraidd

**1.** Dangosodd y prisiad ar 31 Mawrth 2019 fod lefel ariannu'r Gronfa wedi gwella ers y prisiad diwethaf, gyda gwerth marchnad asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2019 (£2.178 biliwn) yn cwmpasu 96% o'r rhwymedigaethau, sy'n galluogi cynnydd mewn tâl pensiynadwy yn y dyfodol, yn achos aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014, i gyfranwyr cyfredol y Gronfa.

**2.** Dangosodd y prisiad hefyd mai lefel gyfartalog y cyfraniadau i'w talu gan gyflogwyr cyfranogol o 1 Ebrill 2020 oedd:

- 18.8% o dâl pensiynadwy. Dyma'r gyfradd a gyfrifwyd fel digonol, ynghyd â chyfraniadau a dalwyd gan aelodau, i dalu rhwymedigaethau sy'n deillio o wasanaeth ar ôl y dyddiad prisio (y gyfradd sylfaenol).

**A**

- lwfans o 0.9% o dâl ar gyfer McCloud a rheoli costau – gweler paragraff 9 isod,

**A**

- Symiau ariannol i adfer yr asedau at 100% o'r rhwymedigaethau o ran gwasanaeth cyn y dyddiad prisio dros gyfnod adennill o 17 o flynyddoedd o 1 Ebrill 2020, sy'n cyfateb i 1.8% o dâl pensiynadwy (neu £5.7 miliwn yn 2020/21, ac yn cynyddu gan 3.1% y flwyddyn wedi hynny), sydd ynghyd â'r lwfans uchod yn cynnwys y gyfradd eilaidd.

**3.** Yn ymarferol, caiff sefyllfa pob cyflogwr unigol neu grŵp o gyflogwyr ei hasesu ar wahân a phennir y cyfraniadau yn adroddiad Aon, dyddiedig 30 Mawrth 2020 (yr "adroddiad prisio actiwaraidd"). Yn ogystal â'r cyfraniadau uchod, bydd cyflogwyr yn gwneud taliadau i'r Gronfa i dalu rhwymedigaethau ychwanegol sy'n deillio o ymddeol yn gynnar (heblaw am ymddeol oherwydd salwch).

Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y cyfraniadau sy'n daladwy gan bob cyflogwr dros y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

| Blwyddyn o 1 Ebrill | % o dâl pensiynadwy | Ynghyd â chyfanswm y cyfraniad (£M) |
|---|---|---|
| 2020 | 20.9% | 1.6 |
| 2021 | 20.9% | 1.8 |
| 2022 | 20.9% | 2.0 |

**4.** Roedd y cynllun ariannu a fabwysiadwyd wrth asesu cyfraniadau pob cyflogwr yn unol â'r Datganiad Strategaeth Ariannu. Mabwysiadwyd gwahanol ddulliau gweithredu o ran cyfrifo'r gyfradd cyfraniadau sylfaenol, cynyddu cyfraniadau yn raddol a chyfnodau adfer cyflogwyr unigol fel y cytunwyd gyda'r Awdurdod Gweinyddu ac fel y dangosir yn y Datganiad Strategaeth Ariannu, gan adlewyrchu amgylchiadau'r cyflogwyr.

**5.** Cynhaliwyd y prisiant gan ddefnyddio'r dull actiwaraidd unedau rhagamcanol i'r rhan fwyaf o gyflogwyr ac roedd y prif ragdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu'r targed ariannu a'r cyfraddau cyfraniadau fel a ganlyn.

| **Cyfradd is ar gyfer cyfnodau gwasanaeth** | |
|---|---|
| Cyflogwyr corff cofrestredig* | 4.3% y flwyddyn |
| Cyflogwyr Amddifad parhaus | 4.3% y flwyddyn |
| Targed ariannu risg isel | 1.3% y flwyddyn |
| **Cyfradd is ar gyfer cyfnodau ar ôl gadael gwasanaeth** | |
| Cyflogwyr corff cofrestredig* | 4.3% y flwyddyn |
| Cyflogwyr Amddifad parhaus | 1.6% y flwyddyn |
| Targed ariannu risg isel | 1.3% y flwyddyn |
| **Cyfradd cynnydd tâl** | **3.1% y flwyddyn** |
| **Cyfradd cynnydd cyfrifon pensiwn** | **2.1% y flwyddyn** |
| **Cyfradd cynnydd i bensiynau wrth eu talu (yn fwy na'r Warant Lleiafswm Pensiwn )** | **2.1% y flwyddyn** |

** Defnyddiwyd y gyfradd is i gyrff cofrestredig hefyd ar gyfer cyflogwyr y bydd eu rhwymedigaethau yn cael eu cynnwys ar ôl gadael gan gorff cofrestredig.*

*Hefyd, y gyfradd is ar gyfer rhwymedigaethau a amddifadwyd eisoes (h.y. lle nad oes cyflogwr cynllun sy'n gyfrifol am ariannu'r rhwymedigaethau hynny ac mae'r cyflogwr wedi gadael y Gronfa) oedd 1.3% y flwyddyn.*

Prisiwyd yr asedau ar werth y farchnad.

Nodwyd manylion pellach y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd i'w prisio, gan gynnwys y rhagdybiaethau demograffig, yn yr adroddiad prisio actiwaraidd.

**6.** Y rhagdybiaeth ddemograffig allweddol oedd y lwfans hirhoedledd. Roedd rhagfynegiadau'r marwolaethau ôl-ymddeol a fabwysiadwyd ar gyfer y prisiant actiwaraidd yn unol â thablau marwolaethau S2 y cynllun pensiwn hunanweinyddol (CPHW) safonol gyda ffactorau graddio priodol yn seiliedig ar ddadansoddiad o gyfradd marwolaethau pensiynwyr y Gronfa a dadansoddiad o godau post aelodau'r Gronfa gan ddefnyddio model hirhoedledd Demographic HorizonsTM Aon ac roeddent yn cynnwys lwfans gwelliannau'n seiliedig ar Fodel Rhagfynegiadau Ymchwiliad Marwolaethau Parhaus (YMP) 2018 gyda sk 7.5 a pharametr A 0.0 gan ragdybio cyfradd flynyddol hirdymor o welliant o 1.5% y flwyddyn yn y cyfraddau marwolaeth. Y disgwyliad oes cyfartalog a ddeilliodd o hynny yn 65 oed (ar gyfer ymddeoliadau iechyd arferol) oedd:

| | Dynion | Menywod |
|---|---|---|
| Pensiynwyr 65 oed ar y dyddiad prisio | 22.1 | 24.5 |
| Pensiynwyr y dyfodol sy'n 45 oed ar y dyddiad prisio | 23.1 | 25.9 |

**7.** Mae canlyniadau'r prisiad a grynhoir ym mharagraffau 1 a 2 uchod yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol a lefelau'r farchnad ar y dyddiad prisio, 31 Mawrth 2019. O'r herwydd, nid yw'r canlyniadau'n gadael lle i ystyried y newidiadau sydd wedi digwydd yn dilyn y dyddiad prisio. Mae'r Awdurdod Gweinyddu, ar y cyd â'r Actiwari, yn monitro'r sefyllfa ariannu yn rheolaidd.

**8.** Llofnodwyd yr adroddiad prisio actiwaraidd ffurfiol a'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau sy'n nodi'r cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2023 ar 30 Mawrth 2020. Ac eithrio'r hyn y cytunwyd arno neu a ganiateir neu sy'n ofynnol gan y Rheoliadau ac a ddangosir yn y Datganiad Strategaeth Ariannu fel sy'n briodol, adolygir cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr adeg prisiad actiwaraidd nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2022 yn unol â rheoliad 62 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

**9.** Mae nifer o faterion o ansicrwydd ynghylch buddion y Cynllun ac felly rwymedigaethau:

- **Cynnydd i'r Warant Lleiafswm Pensiwn (GLlP):** Mae prisiad 2019 yn caniatáu ar gyfer ymestyn y 'datrysiad dros dro' i gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus dalu cynnydd chwyddiant llawn ar GLlP ar gyfer y rheiny sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW) rhwng 6 Ebrill 2016 a 5 Ebrill 2021. Ar 23 Mawrth 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth ymateb i'w hymgynghoriad ar yr ateb tymor hwy i sicrhau cydraddoli ar gyfer GLIP fel sy'n ofynnol gan ddyfarniad yr Uchel Lys yn achos Lloyds Bank. Mae'r ymateb yn nodi'r ateb tymor hwy a gynigia, sef estyn yr ateb dros dro i gynnwys y rheiny sy'n cyrraedd OPW ar ôl 5 Ebrill 2021.

  Nid yw canlyniadau prisiad 2019 yn caniatáu ar gyfer effaith yr ateb tymor hwy arfaethedig hwn. Yn seiliedig ar amcan-gyfrifiadau, ar lefel cronfa gyfan, effaith darparu cynnydd pensiwn llawn ar GLlP ar gyfer yr aelodau sy'n cyrraedd OPW ar ôl 5 Ebrill 2021 yw cynnydd rhwng 0.1% a 0.2% mewn rhwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol ar draws y Gronfa yn gyffredinol.

- **Proses Rheoli Costau a dyfarniad McCloud:** Dangosodd canlyniadau cychwynnol proses rheoli costau 2016 Bwrdd Cynghori'r Cynllun (BCC) y byddai gofyn am welliannau buddion / lleihad yng nghyfraniadau aelodau yn cyfateb i 0.9% o'r tâl. Fodd bynnag, gohiriwyd y broses rheoli costau yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl bod y trefniadau trosiannol yng Nghynllun Pensiwn y Barnwyr (McCloud) a chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Sargeant) yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Cadarnhaodd y Llywodraeth y byddai'r dyfarniad yn cael ei drin fel un sy'n berthnasol i bob cynllun gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y CPLlL (lle'r oedd y trefniadau trosiannol ar ffurf sylfaen cyflog terfynol) a chyflwynwyd ymgynghoriad ar newidiadau i'r CPLlL ym mis Gorffennaf 2020.

  Ar 13 Mai 2021 cadarnhaodd y Llywodraeth elfennau allweddol o'r newidiadau disgwyliedig i'r CPLlL i weithredu dyfarniad McCloud mewn Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig, er nad oes disgwyl i'r Rheoliadau Terfynol ddod i rym tan 2023. Ar ôl ymgorffori costau posibl cywiriad McCloud, mae proses rheoli costau 2016 BCC wedi dod i ben, heb unrhyw welliannau i fuddion na newidiadau i gyfraniadau aelodau yn cael eu hargymell dan y broses honno. Fodd bynnag, mae ansicrwydd o hyd gan fod cynnwys costau McCloud yn y broses rheoli costau yn destun Adolygiad Barnwrol.

  Mae cyfraniadau'r cyflogwr a ardystiwyd o 1 Ebrill 2020 fel rhan o brisiad 2019 yn cynnwys lwfans o 0.9% o dâl mewn perthynas â'r costau ychwanegol posibl yn dilyn y broses o ddyfarnu / rheoli costau McCloud. Roedd hwn yn ddull symlach nad oedd yn ystyried gwahanol broffiliau cyflogwyr-aelodau na thargedau ariannu, a gall fod yn fwy neu'n llai na'r gost a aseswyd ar ôl cytuno ar fanylion y newidiadau yn y CPLlL sy'n deillio o ddyfarniad McCloud a phroses rheoli costau 2016.

- **Goodwin:** Daeth dyfarniad Tribiwnlys Cyflogaeth yn ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Athrawon i'r casgliad bod darpariaethau ar gyfer buddion goroeswr benywaidd mewn priodas dau ryw yn llai ffafriol na buddion benyw mewn priodas neu bartneriaeth sifil un rhyw, ac ystyrir bod y driniaeth hon yn wahaniaethiad uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Cyhoeddodd prif ysgrifennydd y Trysorlys mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig ar 20 Gorffennaf 2020 ei fod yn credu y byddai angen newidiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill gyda threfniadau tebyg, er nad yw'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu eto yn rheoliadau CPLlL. Disgwyliwn i'r rhwymedigaeth ychwanegol gyfartalog fod yn llai na 0.1%, ond bydd yr effaith yn amrywio yn ôl cyflogwr yn dibynnu ar ei broffil aelodaeth.

**10.** Lluniwyd y Datganiad hwn gan Actiwari y Gronfa, Aon, i'w gynnwys yng nghyfrifon y Gronfa. Mae'n rhoi crynodeb o ganlyniadau'r prisiad actiwaraidd a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2019. Mae'r prisiad yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa ariannu ar ddyddiad y prisiad ac fe'i defnyddir i asesu lefel y cyfraniadau bydd eu hangen yn y dyfodol.

Ni ddylid ystyried y Datganiad hwn heb gyfeirio at yr adroddiad prisio actiwaraidd ffurfiol sy'n manylu'n llawn ar gyd-destun a chyfyngiadau'r prisiad actiwaraidd.

Nid yw Aon yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb na rhwymedigaeth i unrhyw barti ac eithrio ein cleient, Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, o ran y Datganiad hwn.

**11.** Mae'r adroddiad ar y prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2019 ar gael ar wefan y Gronfa yn y cyfeiriad canlynol: https://www.cardiffandvalepensionfund.org.uk/wp-content/uploads/Cardiff-2019-actuarial-valuation-report-FINAL.pdf

**Aon Solutions UK Limited**
**Mai 2022**

# DATGANIAD YR ARCHWILYDD

Datganiad yr archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar yr Adroddiad Blynyddol.

Rwyf wedi archwilio cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol 2020-21 Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg i bennu a ydynt yn gyson, ym mhob ffordd berthnasol, â chyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a gynhyrchwyd gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ac a awdurdodwyd i'w gyhoeddi ar 24 Tachwedd 2022. Mae cyfrifon y gronfa bensiwn yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

**Barn**
Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn gyson, ym mhob ffordd berthnasol, â chyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a gynhyrchwyd gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ac a awdurdodwyd i'w gyhoeddi ar 24 Tachwedd 2022 y cyhoeddais farn ddiamod arno.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad y cyhoeddais fy marn ar gyfrifon y gronfa bensiwn a gynhwysir yn Natganiad Cyfrifon y gronfa bensiwn, 24 Tachwedd 2022 a dyddiad y datganiad hwn.

**Cyfrifoldebau perthnasol yr Awdurdod Gweinyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru:**
Yr Awdurdod Gweinyddu, sef Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd fy marn ynghylch a yw cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig a geir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson, ym mhob agwedd berthnasol, â chyfrifon y gronfa bensiwn a nodiadau cysylltiedig a gynhwysir yn y Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn. Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall sy'n gynwysedig yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol o ran cyfrifon y gronfa bensiwn. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y Crynodeb Gweithredol; Rhagair Naratif; Adroddiad Rheoli a Gweinyddu; Adroddiad Gweinyddu'r Gronfa; Polisi Buddsoddi ac Adroddiad Perfformiad; Adroddiad Perfformiad Buddsoddi; Adroddiad y Bwrdd pensiynau Lleol; Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r Datganiad Actiwaraidd.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Tachwedd 2022


24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

## Cyfrif y Gronfa

| 2020/21 £000 | | Note | 2021/22 £000 |
|---|---|---|---|
| | **Cysylltiadau gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa** | | |
| | **Cyfraniadau** | | |
| (69,615) | Gan gyflogwyr | 8 | (75,155) |
| (21,174) | Gan gyflogeion | 8 | (22,307) |
| 0 | Trosglwyddiadau grŵp o gynlluniau neu gronfeydd eraill | | 0 |
| (3,510) | Trosglwyddiadau unigol o gynlluniau neu gronfeydd eraill | | (4,577) |
| (269) | Incwm arall (taliadau wedi'u cyfalafu a llog ar ariannu diffyg) | | (2,603) |
| **(94,568)** | | | **(104,642)** |
| | **Buddion Taladwy** | | |
| 71,463 | Pensiynau | 9 | 72,694 |
| 12,941 | Cyfandaliadau, grantiau a thaliadau eraill | 9 | 14,745 |
| | **Taliadau i'r sawl sy'n gadael ac o'u herwydd** | | |
| 86 | Ad-daliadau cyfraniadau | | 135 |
| 0 | Trosglwyddiadau grŵp i gynlluniau neu gronfeydd eraill | | 0 |
| 3,817 | Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau neu gronfeydd eraill | | 5,030 |
| **88,307** | | | **92,604** |
| **(6,261)** | **(Ychwanegiadau)/alldyniadau net o drafodaethau gydag aelodau'r Gronfa** | | **(12,038)** |
| 8,189 | Treuliau rheoli | 10 | 8,295 |
| **1,928** | **(Ychwanegiadau)/alldyniadau net, gan gynnwys treuliau rheoli'r gronfa** | | **(3,743)** |
| | **Adenillion ar Fuddsoddiadau** | | |
| (9,810) | Incwm buddsoddi | 11 | (26,156) |
| (482,650) | Newid yng ngwerth marchnad buddsoddiadau | 12a | (150,846) |
| **(492,460)** | **Adenillion net ar fuddsoddiadau** | | **(177,002)** |
| **(490,532)** | **(Cynnydd)/gostyngiad net yn y Gronfa yn ystod y flwyddyn** | | **(180,745)** |
| (2,027,605) | Asedau net y cynllun wrth agor | | (2,518,137) |
| **(2,518,137)** | **Asedau net y cynllun wrth gau** | | **(2,698,882)** |

## Datganiad Asedau Net

| 2020/21 £000 | | Nodyn | 2021/22 £000 |
|---|---|---|---|
| 2,464,573 | Buddsoddiadau ar werth y farchnad | 12 | 2,620,864 |
| 45,502 | Arian parod (gan gynnwys deilliadau) ac enillion buddsoddi sy'n ddyledus | 12 | 72,253 |
| **2,510,075** | **Cyfanswm buddsoddiadau** | | **2,693,117** |
| 78 | Treth y DU a thramor | | 74 |
| 4,499 | Cyfraniadau sy'n ddyledus gan gyflogwyr ac ariannu diffyg | | 5,509 |
| 633 | Dyledwyr amrywiol | | 327 |
| 1,380 | Costau straen pensiwn sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | 1,153 |
| **6,590** | **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **7,063** |
| 2,359 | Ariannu diffyg (cyn-gyflogwyr) | | 68 |
| 2,327 | Costau straen pensiwn sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | | 1,296 |
| **4,686** | **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **1,364** |
| (267) | Buddion heb eu talu | | (69) |
| (1,893) | Credydwyr amrywiol | | (1,478) |
| (320) | Darpariaeth- grantiau marwolaeth | 20 | (217) |
| **(2,480)** | **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,764)** |
| (734) | Darpariaeth- grantiau marwolaeth | 20 | (898) |
| **(734)** | **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(898)** |
| **2,518,137** | **Asedau net y cynllun** | | **2,698,882** |



# NODIADAU I'R CYFRIFON

## 1. Disgrifiad o'r Gronfa

Gweinyddir Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) gan Gyngor Caerdydd ac mae'n rhan o'r CPLlL.

### Cyffredinol

Rheolir y cynllun gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r is-ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016

Mae'n gynllun pensiwn cyfrannol â buddion wedi'u diffinio a weinyddir gan Gyngor Caerdydd i ddarparu pensiynau a buddion eraill i gyflogeion pensiynadwy Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, ac eithrio athrawon sydd dan gynllun ar wahân. Caniateir i gyflogeion amrywiaeth o gyrff eraill cofrestredig a derbyniedig yn yr ardal ymuno â'r Gronfa hefyd. Goruchwylir y Gronfa gan y Pwyllgor Cronfa Bensiwn, sy'n un o bwyllgorau Cyngor Caerdydd.

### Aelodaeth

Mae aelodaeth o'r CPLlL yn awtomatig i bob cyflogai, a all wedyn ddewis aros yn y cynllun neu wneud ei drefniadau personol ei hun y tu allan i'r cynllun.

Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnwys y canlynol:

- Cyrff cofrestredig, sydd â hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa
- Cyrff derbyniedig, sy'n cymryd rhan yn y Gronfa yn rhinwedd cytundeb derbyn a wnaed rhwng y Gronfa a'r cyflogwr. Mae cyrff derbyniedig yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol, elusennol a sefydliadau dielw tebyg, neu gontractwyr preifat sy'n cyflawni swyddogaeth awdurdod lleol ar ôl rhoi contractau allanol i'r sector preifat.

### Ariannu

Ariennir buddion gan gyfraniadau ac enillion buddsoddi. Caiff cyfraniadau eu gwneud gan aelodau gweithredol y gronfa yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac maent yn amrywio o 5.5% i 12.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Gosodir cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar brisiadau ariannu actiwaraidd teirblwydd. Y prisiad diwethaf o'r fath oedd 31 Mawrth 2019. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio o 17.6% i 37.7% o dâl pensiynadwy o 1 mis Ebrill 2020.

### Manteision

Cyn 1 Ebrill 2014, roedd buddion pensiwn dan y CPLlL yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol a hyd gwasanaeth pensiynadwy. O 1 Ebrill 2014, daeth y cynllun yn gynllun cyfartaledd gyrfa, lle mae aelodau'n cronni buddion yn seiliedig ar eu cyflog pensiynadwy yn y flwyddyn honno ar gyfradd gronnol o 1/49fed. Mae pensiwn cronedig yn cael ei uwch-brisio'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Darperir amrywiaeth o fuddion eraill hefyd gan gynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. I gael rhagor o fanylion, ewch i wefan Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg https://www.cardiffandvalepensionfund.org.uk/cy/

## 2. Sail Paratoi

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a'i sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021. Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22 sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Cafodd y cyfrifon eu paratoi ar sail ystyriaeth barhaus.

## 3. Polisïau Cyfrifyddu Sylweddol

***Polisïau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond heb eu mabwysiadu eto***

Ar ddyddiad y fantolen, ni chafodd unrhyw safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond sydd heb eu mabwysiadu eto eu nodi.

***Incwm a Gwariant***

Ystyriwyd incwm bondiau a difidendau ar y dyddiad talu cytundebol. Credydir incwm eiddo ac ecwiti preifat wrth eu derbyn.
Nid yw'r Gronfa'n ystyried unrhyw fuddion sy'n daladwy neu sy'n ddyledus o ran aelodau sydd am drosglwyddo o un cynllun i'r llall nes derbynnir asedau (naill ai buddsoddiadau arian parod neu fath arall) gan y cynllun sy'n eu derbyn.
Ystyriwyd yr holl incwm a gwariant arall ar sail gronnol, ac eithrio'r rhwymedigaeth i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol, a gafodd ei datgelu ar wahân o fewn y nodiadau i'r cyfrifon.

***Costau caffael buddsoddiadau***

Mae costau caffael wedi'u cynnwys yng nghost y llyfr gwreiddiol ar yr adeg prynu. Ar ddiwedd y flwyddyn, fodd bynnag, mae buddsoddiadau yn y fantolen wedi'u prisio ar werth y farchnad. Cofnodir y gwahaniaeth yn y Cyfrifon fel "Newid yng Ngwerth Marchnad Buddsoddiadau".

***Prisio Buddsoddiadau***

Cynhwysir buddsoddiadau yn y datganiadau ariannol ar sail gwerth teg fel ar y dyddiad adrodd. Cafodd gwerthoedd y buddsoddiadau fel y'u dangosir yn y datganiad asedau net eu pennu yn unol â gofynion y Cod a SAARh 13. Ceir manylion y dulliau prisio a ddefnyddir gan y gronfa yn Nodyn 14c.

***Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod***

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, y balans net ar holl gyfrifon banc y Cyngor. Mae'n cynnwys adneuon gyda sefydliadau ariannol, gan gynnwys rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad, sy'n ad-daladwy ar rybudd o ddim mwy na 24 awr heb gosb sylweddol. Mae hefyd yn cynnwys buddsoddiadau'n aeddfedu a llog a dderbyniwyd ar ddiwrnod gwaith cyntaf mis Ebrill.

***Trafodion Arian Tramor***

Addaswyd buddsoddiadau tramor mewn arian cyfred tramor ar gyfraddau cyfnewid cau WM/Reuters ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

| Trethiant | Triniaeth |
|---|---|
| **Treth Incwm y DU** | Mae'r gronfa'n un gymeradwy eithriedig a all adennill trethi incwm y DU. |
| **Treth ar Enillion Cyfalaf y DU** | Nid yw Treth ar Enillion Cyfalaf yn daladwy. |
| **Treth Ar Werth** | Nid yw'r cyfrifon a ddangosir yn cynnwys TAW. Gan mai'r Cyngor yw'r Awdurdod gweinyddu, gellir adennill TAW ar holl weithgareddau'r Gronfa. |
| **Treth a Gedwir Dramor** | Yn aml bydd buddsoddiad tramor yn dioddef o gadw treth yn ôl yn y wlad wreiddiol, y mae modd o bosibl adennill rhywfaint ohoni. Caiff treth nad oes modd ei hadennill ei netio yn erbyn incwm. |

## 4. Barn allweddol ar weithredu polisïau cyfrifyddu

***Buddsoddiadau ecwiti preifat heb ddyfynbris***

Mae'r rhain wedi'u seilio'n annatod ar ragfynegiadau a blaen-farnau a brisir gan reolwyr buddsoddi gan ddefnyddio'r ddwy brif set o ganllawiau prisio sy'n berthnasol i ecwiti preifat; y Canllawiau Prisio Ecwiti Preifat (CPEP) yn UDA a'r Canllawiau Prisio Rhyngwladol ar Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter (CPRhEPChM) y tu allan i UDA.

***Atebolrwydd Cronfeydd Pensiwn***

Cyfrifir hyn yn unol â IAS19 gan yr actiwari bob tair blynedd gyda datganiad blynyddol yn y blynyddoedd rhyngddynt. Mae'r dyfynbris yn destun amrywiaethau sylweddol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol y cytunir arnynt gyda'r actiwari.

## 5. Rhagdybiaethau am y dyfodol a ffynonellau eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed wrth ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau eraill. Oherwydd nad oes modd penderfynu ar falansau â sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith petai'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| **Gwerth presennol gwirioneddol buddion ymddeol a addawyd** | Mae amcangyfrif rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth o ran y gyfradd ostyngol a ddefnyddir, y gyfradd cynyddu cyflogau, newidiadau mewn cyfraddau marwolaethau ac adenillon disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae'r actiwari'n rhoi cyngor ar y rhagdybiaethau i'w defnyddio i'r gronfa. | Gellir mesur yr effeithiau ar rwymedigaeth pensiwn net y newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y rhagdybiaeth cyfradd ostyngol yn arwain at ostyngiad yn y rhwymedigaeth bensiwn. Byddai cynnydd mewn chwyddiant enillion a ragdybir neu ddisgwyliad oes a ragdybir yn cynyddu gwerth y rhwymedigaethau. |
| **Prisiadau Ecwiti Preifat** | Prisir buddsoddiadau ecwiti preifat ar werth teg yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol. Nid yw'r buddsoddiadau hyn wedi'u rhestru'n gyhoeddus ac felly mae elfen o amcangyfrif ynghlwm wrth y broses brisio. | Cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat yn y datganiadau ariannol yw £103 miliwn. |
| **Cronfeydd Eiddo Cyfun** | Defnyddir technegau prisio i bennu swm cario'r cronfeydd eiddo cyfun. | Cyfanswm y buddsoddiadau cronfa eiddo cyfun yn y datganiadau ariannol yw £202 miliwn.<br>Gallai newidiadau yn y rhagdybiaethau prisio a ddefnyddir, yn ogystal â newidiadau sylweddol yn nhwf rhentu (cynnydd neu ostyngiad) effeithio ar werth teg buddsoddiadau eiddo. Ceir rhagor o wybodaeth am sensitifrwydd yr asedau hyn yn y cyfrifon. |

## 6. Teitlau Perchenogaeth

Cedwir tystiolaeth o berchenogaeth i'r ymddiriedolaethau unedau eiddo (ac eithrio BlackRock, a gedwir gan The Northern Trust Company) a daliadau ecwiti preifat gan Gyngor Caerdydd. Cafodd yr holl dystiolaethau eraill o berchnogaeth ar 31 Mawrth 2022 eu dal gan The Northern Trust Company er budd y Cyngor. Darparwyd datganiadau daliadau gan Northern Trust.

## 7. Aelodaeth

Aelodau'r gronfa ar 31 Mawrth 2022 yw:

| 2020/21 | | 2021/22 |
|---|---|---|
| 43 | Cyflogwyr sy'n Cyfrannu | 44 |
| **43** | **Cyfanswm y Cyflogwyr sy'n Cyfrannu** | **44** |
| 16,936 | Cyfranwyr | 16,876 |
| 12,190 | Pensiynwyr | 12,515 |
| 13,755 | Pensiynwyr gohiriedig | 13,515 |
| **42,881** | **Cyfanswm aelodau** | **42,906** |

Yn ogystal â'r uchod, mae yno aelodau hefyd nad oeddent wedi'u categoreiddio eto ar ddiwedd y flwyddyn o ran a fyddent yn gohirio eu pensiwn, yn ei drosglwyddo i gynllun arall neu'n gofyn am ad-daliad o'u cyfraniadau ac felly nid ydynt yn cyfrannu'n weithredol at y Gronfa Bensiwn. Nifer yr aelodau heb eu categoreiddio eto ar 31 Mawrth 2022 oedd 7,269 (6,010 ar gyfer mis Mawrth 2021)

## 8. Cyrff Cyflogi – Cyfraniadau

| 2021/22 | Nifer y cyfranwyr ar 31/03/2022 | Cyflogwyr | Cyllid Diffyg a Dderbyniwyd | Cyfanswm Cyflogwyr | Cyflogeion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| ***Corff Gweinyddu:*** | | | | | | |
| Cyngor Caerdydd | 10,472 | (45,067) | 0 | (45,067) | (13,617) | (58,684) |
| ***Cyrff Cofrestredig:*** | | | | | | |
| Cyngor Bro Morgannwg | 4,052 | (15,421) | 0 | (15,421) | (4,570) | (19,991) |
| Cynghorau Tref a Chymuned | 58 | (247) | 0 | (247) | (76) | (323) |
| Cyrff Addysg | 1,476 | (7,459) | 0 | (7,459) | (2,809) | (10,268) |
| Cyrff Cofrestredig Eraill | 6 | (41) | 0 | (41) | (14) | (55) |
| ***Cyrff Derbyniedig:*** | | | | | | |
| Cyrff Derbyniedig | 812 | (4,966) | (1,954) | (6,920) | (1,221) | (8,141) |
| **Cyfanswm** | **16,876** | **(73,201)** | **(1,954)** | **(75,155)** | **(22,307)** | **(97,462)** |

| 2020/21 | Nifer y cyfranwyr ar 31/03/2021 | Cyflogwyr | Cyllid Diffyg a Dderbyniwyd | Cyfanswm Cyflogwyr | Cyflogeion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| ***Corff Gweinyddu:*** | | | | | | |
| Cyngor Caerdydd | 10,334 | (42,186) | 0 | (42,186) | (12,702) | (54,888) |
| ***Cyrff Cofrestredig:*** | | | | | | |
| Cyngor Bro Morgannwg | 4,116 | (14,631) | 0 | (14,631) | (4,644) | (19,275) |
| Cynghorau Tref a Chymuned | 56 | (239) | 0 | (239) | (70) | (309) |
| Cyrff Addysg | 1,654 | (6,831) | 0 | (6,831) | (2,537) | (9,368) |
| Cyrff Cofrestredig Eraill | 6 | 922 | 0 | 922 | (17) | 905 |
| ***Cyrff Derbyniedig:*** | | | | | | |
| Cyrff Derbyniedig * | 770 | (4,789) | (1,861) | (6,650) | (1,204) | (7,854) |
| **Cyfanswm** | **16,936** | **(67,754)** | **(1,861)** | **(69,615)** | **(21,174)** | **(90,789)** |

**Mae ffigurau 2020/21 wedi'u hailddatgan yn unol â chyflwyniad 2021/22. Yn y gorffennol, roedd y diffyg yn cynnwys cyfandaliad ychwanegol.*

***Ariannu diffyg ychwanegol***

Ni chytunwyd ar unrhyw gyllid diffyg ychwanegol yn 2021/22 ar ben yr hyn y cytunwyd arno yn y blynyddoedd blaenorol (dim cyllid diffyg ychwanegol yn 2020/21).

## 9. Cyrff Cyflogi – Buddion sy'n Daladwy

| 2021/22 | Pensiynau Ymddeol | Cyfandaliadau, Grantiau a Thaliadau Eraill | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfandaliadau wrth Ymddeol | Grantiau Marwolaeth | Taliadau Gohiriedig |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| ***Corff Gweinyddu:*** | | | | |
| Cyngor Caerdydd | 46,093 | 7,156 | 1,882 | 414 |
| ***Cyrff Cofrestredig:*** | | | | |
| Cyngor Bro Morgannwg | 14,149 | 2,326 | 348 | 119 |
| Cynghorau Tref a Chymuned | 240 | 0 | 0 | 0 |
| Cyrff Addysg | 3,522 | 613 | 308 | 23 |
| Cyrff Cofrestredig Eraill | 2,633 | 128 | 47 | 0 |
| ***Cyrff Derbyniedig:*** | | | | |
| Cyrff Derbyniedig | 6,057 | 1,175 | 154 | 52 |
| **Cyfanswm** | **72,694** | **11,398** | **2,739** | **608** |

| 2020/21 | Pensiynau Ymddeol | Cyfandaliadau, Grantiau a Thaliadau Eraill | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfandaliadau wrth Ymddeol | Grantiau Marwolaeth | Taliadau Gohiriedig |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| ***Corff Gweinyddu:*** | | | | |
| Cyngor Caerdydd | 45,380 | 6,386 | 1,724 | 340 |
| ***Cyrff Cofrestredig:*** | | | | |
| Cyngor Bro Morgannwg | 13,923 | 2,235 | 381 | 102 |
| Cynghorau Tref a Chymuned | 235 | 10 | 0 | 0 |
| Cyrff Addysg | 3,387 | 400 | 89 | 61 |
| Cyrff Cofrestredig Eraill | 2,667 | 165 | 34 | 1 |
| ***Cyrff Derbyniedig:*** | | | | |
| Cyrff Derbyniedig | 5,871 | 818 | 185 | 10 |
| **Cyfanswm** | **71,463** | **10,014** | **2,413** | **514** |



## 10. Treuliau Rheoli

| 2020/21 £000 | | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| 1,485 | Costau gweinyddu | 1,730 |
| 29 | Ffioedd archwilio | 73 |
| **1,514** | **Cyfanswm costau gweinyddu** | **1,803** |
| 243 | Gwarantau Llog Sefydlog | 0 |
| 1,062 | Ecwitïau | 430 |
| 797 | Cronfa ecwiti'r DU PPC * | 155 |
| 393 | Cronfa bondiau'r llywodraeth PPC * | 241 |
| 318 | Cronfa gredyd PPC * | 199 |
| 410 | Cronfa credyd aml-ased PPC * | 124 |
| 0 | Cronfa twf byd-eang PPC | 661 |
| 0 | Cronfa cyfleoedd byd-eang PPC | 529 |
| 0 | Cronfa MDA PPC | 139 |
| 1,929 | Cronfa ecwiti gyfun | 944 |
| 113 | Buddsoddiadau eiddo cyfun | 179 |
| 1,123 | Ecwiti preifat ** | 2,354 |
| **6,388** | **Cyfanswm ffioedd rheoli** | **5,955** |
| 182 | Ffioedd gwarchod | 272 |
| **6,570** | **Cyfanswm treuliau rheoli buddsoddi** | **6,227** |
| 105 | Costau goruchwylio a llywodraethu | 265 |
| **8,189** | **Cyfanswm** | **8,295** |

**Mae 2020/21 PPC yn cynnwys ffioedd sylfaenol rheolwyr cronfa sy'n dod i gyfanswm o £1.235 miliwn a ddylai fod wedi'u heithrio o'r tabl hwn a'u cynnwys o fewn addasiadau sy'n bwydo trwy Nodyn 12, Newid yng Ngwerth y Farchnad. Y gwerth cyfatebol wedi'i eithrio'n gywir ar gyfer 2021/22 oedd £2.279 miliwn.*

***Mae ecwiti preifat 2020/21 yn eithrio ffioedd perfformiad sy'n dod i gyfanswm o £0.853 miliwn a ddylai fod wedi'u cynnwys yn tabl hwn ond a gafodd eu cynnwys o fewn addasiadau sy'n bwydo trwy Nodyn 12, Newid yng Ngwerth y Farchnad. Y gwerth cyfatebol wedi'i gynnwys yn gywir ar gyfer 2021/22 oedd £0.757 miliwn.*

| 2020/21 £000 | Treuliau Rheoli PPC | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| 1,246 | Ffioedd rheolwyr cronfeydd * | 163 |
| 672 | Costau trafodion | 1,550 |
| 0 | Costau trosglwyddo | 335 |
| 64 | Ffioedd gwarchod | 231 |
| **1,982** | **Cyfanswm treuliau rheoli buddsoddi PPC** | **2,279** |
| 88 | Costau awdurdod cynnal | 135 |
| **88** | **Cyfanswm costau goruchwylio a llywodraethu PPC** | **135** |
| **2,070** | **Cyfanswm** | **2,414** |

**2020/21 Mae PPC yn cynnwys ffioedd rheolwyr cronfa sylfaenol gwerth £1.235 miliwn a ddylai fod wedi'i eithrio o'r tabl hwn, a'i gynnwys o fewn addasiadau sy'n bwydo trwy Nodyn 12a, Newid yng Ngwerth y Farchnad. Y gwerth cyfatebol wedi'i eithrio ar gyfer 2021/22 oedd £2.279 miliwn.*

Mae cost rhan y Gronfa yng nghyd-drefniant cyfuno buddsoddiadau PPC wedi'i chynnwys mewn Treuliau Rheoli yn nhabl cyntaf y nodyn hwn. Dadansoddir y rhain ymhellach yn y tabl uchod. Y costau Goruchwylio a Llywodraethu yw costau rhedeg blynyddol y gronfa sy'n cynnwys costau'r awdurdod cynnal a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Ariennir y costau hyn yn gyfartal gan bob un o'r wyth cronfa bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Ffioedd Rheoli Cronfa yn daladwy i Link Fund Solutions (gweithredwr PPC ac maent yn cynnwys y ffi gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran canran pob Cronfa o asedau cyfun PPC ac maent yn cael eu didynnu o'r Gwerth Asedau Net (GAN). Nid yw ffioedd sylfaenol rheolwyr wedi'u cynnwys yn y tabl hwn.

## 11. Incwm Buddsoddi

| 2020/21 £000 | | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| (1,901) | Gwarantau llog sefydlog yn y DU | 0 |
| (3,845) | Ecwiti tramor | (2,428) |
| (1,192) | Gwarantau llog sefydlog tramor | 0 |
| (910) | Cronfeydd ecwiti ac ecwiti preifat yn y DU | 0 |
| (1,202) | Buddsoddiadau cyfun | (22,148) |
| (482) | Incwm Ymddiriedolaeth Unedau Eiddo Cyfun | (1,177) |
| (230) | Llog ar arian parod yn y DU | (200) |
| (48) | Benthyg ar warantau | (203) |
| **(9,810)** | **Cyfanswm** | **(26,156)** |

Yn 2021/22 talodd Link Asset Services ddosraniadau mewn perthynas â'r incwm a enillwyd ers iddynt gael eu sefydlu ar bob is-gronfa PPC y mae'r Gronfa'n buddsoddi ynddi. Cafodd hyn ei ail-fuddsoddi'n awtomatig i'r cronfeydd cyfun i gynyddu gwerth marchnad ein daliad. Dim ond pan fydd swm digonol y mae incwm yn cael ei ddosbarthu, ond bydd bob amser yn cael ei ail-fuddsoddi'n awtomatig ar ôl tynnu unrhyw gostau. Mae'r cynnydd mewn incwm buddsoddi yn 2021/22 o ganlyniad i gywiro'r gwerth yr ystyrir ei fod yn incwm buddsoddi yn hytrach na newid yng ngwerth y farchnad. Byddai'r gwerth ychwanegol ar gyfer 2020/21 wedi bod yn (£8.657 miliwn). Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar werth y gronfa gyffredinol.

## 12. Buddsoddiadau ar Werth y Farchnad

| 2020/21 £000 | | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| **238,549** | **Cyfanswm ecwitïau** | **0** |
| 230,285 | Cronfa ecwiti y DU PPC | 232,958 |
| 252,534 | Cronfa bondiau'r llywodraeth PPC | 243,194 |
| 226,063 | Cronfa gredyd PPC | 216,400 |
| 154,266 | Cronfa credyd aml-ased PPC | 150,309 |
| 0 | Twf byd-eang PPC | 211,609 |
| 0 | Cyfleoedd byd-eang PPC | 530,428 |
| 0 | Marchnadoedd datblygol PPC | 115,003 |
| 863,148 | Cyfanswm cronfeydd cyfun PPC | 1,699,901 |
| 1,105,648 | Ecwiti cyfun | 616,030 |
| **1,968,796** | **Cyfanswm y cronfeydd cyfun (gan gynnwys PPC)** | **2,315,931** |
| 166,559 | Buddsoddiadau eiddo cyfun | 201,606 |
| 90,669 | Ecwiti preifat | 103,327 |
| **2,464,573** | **Is-gyfanswm** | **2,620,864** |
| 5,372 | Arian parod y rheolwr cronfa | 2,194 |
| 39,563 | Arian parod mewnol/arian parod ceidwad | 70,059 |
| 567 | Enillion buddsoddiadau net dyledus | 0 |
| **45,502** | **Cyfanswm arian parod** | **72,253** |
| **2,510,075** | **Cyfanswm asedau buddsoddiadau** | **2,693,117** |

Yn 2020/21 trosglwyddwyd y buddsoddiadau yn y gwarantau llog sefydlog i gronfa bondiau'r llywodraeth PPC, cronfa gredyd PPC a chronfa gredyd aml-ased PPC.  Yn 2021/22 gwnaed trosglwyddiadau pellach i gyfleoedd byd-eang PPC, twf byd-eang PPC, marchnadoedd datblygol PPC o ecwitïau ac ecwiti cyfun

## 12a. Unioni o ran symudiad mewn buddsoddiadau

| 2021/22 | Gwerth ar 31/03/21<br>£000 | Prynu ar gost<br>£000 | Eillion gwerthu<br>£000 | Newid yng ngwerth y farchnad<br>£000 | Gwerth ar 31/03/22<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau | 238,549 | 2,242 | (249,929) | 9,138 | 0 |
| Cronfeydd cyfun | 1,968,796 | 1,159,234 | (892,119) | 80,020 | 2,315,931 |
| Ymddiriedolaethau unedau eiddo cyfun | 166,559 | 904 | 0 | 34,143 | 201,606 |
| Ecwiti preifat | 90,669 | 8,971 | (24,436) | 28,122 | 103,327 |
| **Is-gyfanswm** | **2,464,573** | **1,171,351** | **(1,166,484)** | **151,423** | **2,620,864** |
| Arian parod rheolwyr | 5,372 | | | | 2,194 |
| Arian parod mewnol/arian parod ceidwad | 39,563 | | | | 70,059 |
| Enillion buddsoddiadau net dyledus | 567 | | | | 0 |
| **Cyfanswm arian parod** | **45,502** | | | | **72,253** |
| **Is-gyfanswm** | **2,510,075** | | | **151,423** | **2,693,117** |
| Symudiadau arian parod net a wireddwyd | | | | (577) | |
| **Cyfanswm** | **2,510,075** | | | **150,846** | **2,693,117** |

| 2020/21 | Gwerth ar 31/03/20<br>£000 | Prynu ar gost<br>£000 | Eillion gwerthu<br>£000 | Newid yng ngwerth y farchnad<br>£000 | Gwerth ar 31/03/21<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarantau llog sefydlog | 586,078 | 161,316 | (720,282) | (27,112) | 0 |
| Ecwitïau | 164,067 | 32,814 | (28,340) | 70,008 | 238,549 |
| Cronfeydd cyfun | 971,709 | 628,700 | 0 | 368,387 | 1,968,796 |
| Ymddiriedolaethau unedau eiddo cyfun | 165,246 | 730 | 0 | 583 | 166,559 |
| Ecwiti preifat | 88,669 | 8,810 | (14,269) | 7,459 | 90,669 |
| **Is-gyfanswm** | **1,975,769** | **832,370** | **(762,891)** | **419,325** | **2,464,573** |
| Deilliadau | 3,212 | 0 | 0 | (3,212) | 0 |
| **Cyfanswm deilliadau** | **3,212** | **0** | **0** | **(3,212)** | **0** |
| Arian parod rheolwyr | 6,730 | | | | 5,372 |
| Arian parod mewnol/arian parod ceidwad | 26,051 | | | | 39,563 |
| Dyledwyr | 2,464 | | | | 567 |
| **Cyfanswm arian parod** | **35,245** | | | | **45,502** |
| **Is-gyfanswm** | **2,014,226** | | | **416,113** | **2,510,075** |
| Symudiadau arian parod net a wireddwyd | | | | 66,537 | |
| **Cyfanswm** | **2,014,226** | | | **482,650** | **2,510,075** |

### Dadansoddiad o ddeilliadau

***Amcanion a pholisïau o ran dal deilliadau***

Mae'r daliad mewn deilliadau er mwyn cyfyngu ar rwymedigaethau neu ragfantoli amlygiad er mwyn lleihau risg o safbwynt y gronfa. Rheolir y defnydd o ddeilliadau yn unol â'r cytundeb rheoli buddsoddiadau rhwng y gronfa a'r amryw reolwyr buddsoddi. Roedd deilliadau a restrwyd ar 31/03/2020 yn rhan o fuddsoddiad Aberdeen a drosglwyddodd i PPC, a ddaeth â'r gwerth i ddim yng nghyfrifon 2020/2021.  Ni daliwyd unrhyw ddeilliadau yn 2021/22.

## 13. Crynodeb o werthoedd portffolio'r rheolwr

| 2020/21 | | Rheolwr y Gronfa | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| £000 | % o'r Gronfa | | £000 | % o'r Gronfa |
| 126,759 | 5.0 | Aberdeen Emerging Markets | 0 | 0.0 |
| 675,933 | 26.9 | Blackrock Investment Management | 616,030 | 22.9 |
| 81,320 | 3.2 | Invesco Perpetual | 0 | 0.0 |
| 119,533 | 4.8 | Nikko | 0 | 0.0 |
| 124,955 | 5.0 | Schroder Investment Managers | 0 | 0.0 |
| 221,637 | 8.8 | State Street Global Advisers (SSGA) | 0 | 0.0 |
| 863,148 | 34.4 | Partneriaeth Pensiwn Cymru | 1,699,901 | 63.1 |
| 56,154 | 2.2 | CBRE- Eiddo Byd-eang | 65,292 | 2.4 |
| 25,282 | 1.0 | Blackrock- BPF- UK Property | 30,711 | 1.1 |
| 29,357 | 1.2 | Schroder UK Real Estate | 34,922 | 1.3 |
| 30,784 | 1.2 | Standard Life Property | 39,249 | 1.5 |
| 24,982 | 1.0 | UBS Triton Property Fund | 31,433 | 1.2 |
| 21,737 | 0.9 | Capital Dynamics | 21,908 | 0.8 |
| 32,022 | 1.3 | Harbourvest | 34,499 | 1.3 |
| 36,910 | 1.5 | Pantheon | 46,920 | 1.7 |
| 2,678 | 0.1 | Arian parod gyda cheidwad | 5,088 | 0.2 |
| 36,884 | 1.5 | Rheolir yn fewnol (arian parod) | 67,164 | 2.5 |
| **2,510,075** | **100.0** | **Cyfanswm** | **2,693,117** | **100.00** |

### 13a. Buddsoddiadau sy'n fwy na 5% o asedau net

Mae'r buddsoddiadau canlynol yn cynrychioli mwy na 5% o'r asedau net sydd ar gael i dalu buddion (naill ai yn 2020/21, 2021/22 neu'r ddwy flynedd).

| 2020/21 | | Rheolwr y Gronfa | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| £000 | % yr asedau net | | £000 | % yr asedau net |
| 126,759 | 5.0 | Aberdeen Emerging Markets Equity Fund | 0 | 0.0 |
| 265,805 | 10.6 | BlackRock Aquila Life UK Equities Indexed Fund | 0 | 0.0 |
| 141,454 | 5.6 | BlackRock Aquila Life US Equities Indexed Fund | 0 | 0.0 |
| 268,675 | 10.7 | BlackRock Low Carbon Tracker Fund | 616,030 | 22.8 |
| 221,637 | 8.8 | SSGA MPF Europe ex UK Equities Active Fund | 0 | 0.0 |
| 226,063 | 9.0 | Partneriaeth Pensiwn Cymru- Cronfa Gredyd | 216,400 | 8.0 |
| 0 | 0.0 | Partneriaeth Pensiwn Cymru- Twf Byd-eang | 211,609 | 7.8 |
| 0 | 0.0 | Partneriaeth Pensiwn Cymru- Cyfleoedd Byd-eang | 530,428 | 19.7 |
| 252,534 | 10.0 | Partneriaeth Pensiwn Cymru- Cronfa Bondiau'r Llywodraeth | 243,194 | 9.0 |
| 154,266 | 6.1 | Partneriaeth Pensiwn Cymru- Cronfa Gredyd Aml-ased | 150,309 | 5.6 |
| 230,285 | 9.1 | Partneriaeth Pensiwn Cymru- Cyfleoedd yn y DU | 232,958 | 8.6 |

## 14. Offerynnau Ariannol

### 14a. Dosbarthu offerynnau ariannol

| Gwerth ar 31/03/21 | | | | Gwerth ar 31/03/22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg drwy elw a cholledion | Cost wedi'i Hamorteiddio | Rhwymedigaethau ariannol ar gostau wedi'u hamorteiddio | | Gwerth teg drwy elw a cholledion | Cost wedi'i Hamorteiddio | Rhwymedigaethau ariannol ar gostau wedi'u hamorteiddio |
| £000 | £000 | £000 | | £000 | £000 | £000 |
| 238,549 | 0 | 0 | Ecwitïau | 0 | 0 | 0 |
| 1,968,796 | 0 | 0 | Cronfeydd cyfun | 2,315,931 | 0 | 0 |
| 166,559 | 0 | 0 | Ymddiriedolaethau eiddo cyfun | 201,606 | 0 | 0 |
| 90,669 | 0 | 0 | Ecwiti preifat | 103,327 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Deilliadau | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 45,502 | 0 | Arian Parod | 0 | 72,253 | 0 |
| 0 | 11,276 | 0 | Dyledwyr | 0 | 8,427 | 0 |
| **2,464,573** | **56,778** | **0** | **Cyfanswm asedau ariannol** | **2,620,864** | **80,680** | **0** |
| 0 | 0 | 0 | Deilliadau | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | (2,160) | Credydwyr | 0 | 0 | (1,547) |
| **0** | **0** | **(2,160)** | **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **0** | **0** | **(1,547)** |
| **2,464,573** | **56,778** | **(2,160)** | **Asedau ariannol net** | **2,620,864** | **80,680** | **(1,547)** |

## 14b. Enillion a cholledion net ar offerynnau ariannol

| 31/03/21 £000 | | 31/03/22 £000 |
|---|---|---|
| 355,652 | Gwerth teg drwy elw a cholled | 150,233 |
| **355,652** | **Cyfanswm asedau ariannol** | **150,233** |
| 127,781 | Gwerth teg drwy elw a cholled | 0 |
| (783) | Cost wedi'i Hamorteiddio | 613 |
| **126,998** | **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **613** |
| **482,650** | **Asedau ariannol net** | **150,846** |



## 14c. Gwerth teg – Sail y Prisiad

| Buddsoddiad | Dull Prisio | Mewnbynnau gweladwy ac anweladwy | Sensitifedd allweddol sy'n effeithio ar y prisiadau a ddarperir |
|---|---|---|---|
| **Lefel 1**<br>Dyfynbrisiau ar gyfer offerynnau tebyg. | | | |
| **Bondiau a Ddyfynnir (Gwarantau Llog Sefydlog)** | Gwerth ar y farchnad yn seiliedig ar gynnyrch cyfredol | Dim eu hangen | Dim eu hangen |
| **Buddsoddiadau a Ddyfynnir yn y Farchnad** | Pris marchnad cyhoeddedig y cais ar ddiwedd diwrnod gwaith olaf y cyfnod cyfrifyddu | Dim eu hangen | Dim eu hangen |
| **Arian parod a chywerthoedd arian parod** | Ystyrir bod gwerth cario yn werth teg oherwydd natur fyrdymor yr offerynnau ariannol hyn | Dim eu hangen | Dim eu hangen |
| **Lefel 2**<br>Masnachu mewn marchnad nas ystyrir yn actif, neu pan ddefnyddir technegau prisio i benderfynu ar werth teg sy'n defnyddio mewnbynnau sy'n seiliedig yn helaeth ar ddata gweladwy'r farchnad. | | | |
| **Buddsoddiadau Cyfun - Ecwiti a Ddyfynnir** | Pris cau'r cais lle cyhoeddir y prisiau ymgeisio a chynnig. Pris cau sengl lle cyhoeddir y pris sengl | Gosod prisiau GAN ar sail blaen-brisio | Dim eu hangen |
| **Deilliadau - Blaen-gontractau Arian Cyfred** | Blaen-gyfraddau cyfnewid y farchnad ar ddyddiad diwedd y flwyddyn | Risg y gyfradd gyfnewid | Dim eu hangen |
| **Lefel 3**<br>Mewnbynnau nad ydynt yn seiliedig ar ddata gweladwy'r farchnad. | | | |
| **Cronfeydd Ecwiti Preifat** | Prisiadau a ddarparwyd gan y partneriaid cyffredinol i'r cronfeydd ecwiti preifat yn unol â Chanllawiau Prisio Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter Rhyngwladol (2012) | Lluosrif enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio (ECLITDA), lluosrif refeniw, disgownt am ddiffyg marchnadwyedd a phremiwm rheoli | Gall digwyddiadau perthnasol sy'n digwydd rhwng dyddiad y datganiadau ariannol a ddarparwyd a dyddiad adrodd y gronfa bensiwn ei hun effeithio ar brisiadau (er y cânt eu diweddaru i adlewyrchu galwadau/dosbarthiadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn), yn ogystal â newidiadau i lifoedd arian disgwyliedig ac unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon heb eu harchwilio ac wedi'u harchwilio. |
| **Buddsoddiadau Cyfun - Cronfeydd Eiddo** | Pris cau'r cais lle cyhoeddir y prisiau ymgeisio a chynnig. Pris cau sengl lle cyhoeddir y pris sengl | Gosod prisiau GAN ar sail blaen-brisio | Gall digwyddiadau ôl-fantolen, newidiadau i lifoedd arian disgwyliedig ac unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon heb eu harchwilio ac wedi'u harchwilio effeithio ar brisiadau. |

## 14d. Hierarchaeth Gwerth Teg

Fel y manylir uchod cafodd buddsoddiadau eu dosbarthu i dair lefel yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg. Mae'r tabl canlynol yn darparu dadansoddiad o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn yn seiliedig ar y lefel y gellir gweld y gwerth teg.

| Gwerth ar 31/03/22 | Dyfynbris y farchnad<br>Lefel 1<br>£000 | Defnyddio mewnbynnau gweladwy<br>Lefel 2<br>£000 | Gyda mewnbynnau sylweddol anweladwy<br>Lefel 3<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Asedau ariannol ar werth teg | 0 | 2,315,931 | 304,933 | 2,620,864 |
| Cost wedi'i Hamorteiddio | 80,680 | 0 | 0 | 80,680 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **80,680** | **2,315,931** | **304,933** | **2,701,544** |
| Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio | (1,547) | 0 | 0 | (1,547) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **(1,547)** | **0** | **0** | **(1,547)** |
| **Net financial assets** | **79,133** | **2,315,931** | **304,933** | **2,699,997** |

| Gwerth ar 31/03/21 | Dyfynbris y farchnad<br>Lefel 1<br>£000 | Defnyddio mewnbynnau gweladwy<br>Lefel 2<br>£000 | Gyda mewnbynnau sylweddol anweladwy<br>Lefel 3<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Asedau ariannol ar werth teg | 238,549 | 1,968,796 | 257,228 | 2,464,573 |
| Benthyciadau a symiau derbyniadwy | 56,778 | 0 | 0 | 56,778 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **295,327** | **1,968,796** | **257,228** | **2,521,351** |
| Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio | (2,160) | 0 | 0 | (2,160) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **(2,160)** | **0** | **0** | **(2,160)** |
| **Asedau ariannol net** | **293,167** | **1,968,796** | **257,228** | **2,519,191** |

## Unioni mesuriadau gwerth teg yn Lefel 3 3

| 2021/22 | Gwerth ar y Farchnad ar 31/03/21<br>£000 | Trosglwyddiadau i lefel 3<br>£000 | Trosglwyddiadau allan o lefel 3<br>£000 | Pryniadau<br>£000 | Gwerthiannau<br>£000 | Enillion/ (colledion) nas cyflawnwyd<br>£000 | Enillion/ (colledion) a gyflawnwyd<br>£000 | Gwerth ar y Farchnad ar 31/03/22<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ecwiti preifat | 90,669 | 0 | 0 | 8,971 | (24,436) | 28,123 | 0 | 103,327 |
| Ymddiriedolaethau unedau eiddo cyfun | 166,559 | 0 | 0 | 904 | 0 | 34,143 | 0 | 201,606 |
| **Cyfanswm** | **257,228** | **0** | **0** | **9,875** | **(24,436)** | **62,266** | **0** | **304,933** |

## 14e. Sensitifrwydd Asedau wedi'u Prisio ar Lefel 3

Wedi dadansoddi data hanesyddol a thueddiadau cyfredol y farchnad, ac wedi ymgynghori ag ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol (Pensions and Investments Research Consultants Ltd (PIRC)), mae'r gronfa wedi penderfynu bod y dulliau prisio a ddisgrifir uchod ar gyfer buddsoddiadau Lefel 3 yn debygol o fod yn gywir o fewn yr ystodau canlynol, ac mae wedi disgrifio'r effaith ganlyniadol isod:

| | Ystod brisio wedi'i hasesu (%) | Gwerth ar 31/03/22 £000 | Gwerth ar gynnydd £000 | Gwerth ar ostyngiad £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti Preifat | 10.8 | 103,327 | 114,486 | 92,168 |
| Ymddiriedolaethau Eiddo Cyfun | 4.9 | 201,606 | 211,485 | 191,727 |
| **Cyfanswm** | | **304,933** | **325,971** | **283,895** |

## 15. Natur a helaethder risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol

Mae'r Gronfa'n rhan o amryw offerynnau, yn ôl y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (DSF), ac o ganlyniad caiff ei hamlygu i risg credyd a hylifedd, yn ogystal â risg marchnad gan gynnwys risgiau cyfraddau cyfnewid arian tramor a llog.

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n fyr o'i rhwymedigaethau ac na all dalu'r buddion a addawyd i aelodau. Nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o ostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa i wneud y mwyaf o'r cyfle i sicrhau enillion ar draws portffolio'r gronfa gyfan. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy arallgyfeirio asedau i leihau risg y farchnad a risg credyd i lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd i fodloni llifoedd arian parod y Gronfa a ragwelir.

Mae rheoli risg yn un o amcanion allweddol y Gronfa Bensiwn. Mae polisi arallgyfeirio o ddosbarthiadau asedau a rheolwyr buddsoddi'n helpu'r Gronfa Bensiwn i leihau'r risg sy'n deillio o offerynnau ariannol. Mae meincnodau ar gyfer pennu asedau a thargedau yn erbyn perfformiad disgwyliedig rheolwyr buddsoddi'n fesurau pellach a roddir ar waith i reoli risg.

***Risg y farchnad*** yw'r risg y bydd gwerth teg neu lifoedd arian parod y dyfodol mewn sefydliad yn amrywio oherwydd newid ym mhris y farchnad.

Er mwyn rheoli risg, mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn cronfa amrywiol o asedau, a rennir rhwng nifer o reolwyr â thargedau perfformiad a strategaethau buddsoddi gwahanol. Er mwyn lliniaru'r risg, mae'r Gronfa'n adolygu'n rheolaidd strategaeth fuddsoddi'r gronfa bensiwn ynghyd â monitro dyraniad asedau a pherfformiad buddsoddiadau yn rheolaidd.

Y ***risg cyfradd llog*** yw'r risg yr amlygir y Gronfa Bensiwn iddi o ran newidiadau mewn cyfraddau llog ac mae'n ymwneud yn bennaf â newidiadau mewn bondiau.

Er mwyn lliniaru'r risg a chynyddu amrywiaeth, mae gan y Gronfa dair is-gronfa incwm sefydlog a reolir gan PPC.

Gall Cyfraddau Llog amrywio a gallant effeithio ar incwm y gronfa a gwerth asedau net i fuddion tâl.  Mae'r dadansoddiad isod yn dangos effaith symudiad (1%) pwynt sail 100 mewn cyfraddau llog ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion:

| Math yr Ased | Swm Cario Ymlaen ar 31/03/22 | Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | £000 | + 100 pwynt sail | - 100 pwynt sail |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod | 72,253 | 723 | (723) |
| **Cyfanswm** | **72,253** | **723** | **(723)** |

| Math yr Ased | Swm Cario Ymlaen ar 31/03/21 | Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | £000 | + 100 pwynt sail | - 100 pwynt sail |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod | 45,502 | 455 | (455) |
| **Cyfanswm** | **45,502** | **455** | **(455)** |

***Risg arian*** cyfred yw'r risg yr amlygir y Gronfa Bensiwn iddi o du newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian cyfred. Bydd rheolwyr y gronfa hefyd yn ystyried y risg arian cyfred yn eu penderfyniadau buddsoddi.

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol ac ymgynghori gydag ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol Pensions and Investments Research Consultants Ltd (PIRC), cafodd y newid cyfanredol mewn arian ei gyfrifo fel 7.30%. Byddai'r bunt yn cryfhau/gwanhau gan 7.30% yn erbyn yr amryw arian cyfred y mae'r gronfa'n cadw asedau ynddynt yn cynyddu/gostwng yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion fel a ganlyn:

| Amlygiad arian cyfred – math yr ased | Gwerth Asedau ar 31/03/22 | Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | £000 | + 7.30% £000 | - 7.30% £000 |
| Cronfeydd cyfun tramor | 1,473,070 | 107,534 | (107,534) |
| Eiddo cyfun tramor | 65,292 | 4,766 | (4,766) |
| **Cyfanswm newid asedau sydd ar gael** | **1,538,362** | **112,300** | **(112,300)** |

| Amlygiad arian cyfred – math yr ased | Gwerth Asedau ar 31/03/21 | Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | £000 | + 8.36% £000 | - 8.36% £000 |
| Ecwiti tramor a ddyfynnir | 238,648 | 19,951 | (19,951) |
| Cronfeydd cyfun tramor | 758,524 | 63,413 | (63,413) |
| Eiddo cyfun tramor | 56,155 | 4,695 | (4,695) |
| **Cyfanswm newid asedau sydd ar gael** | **1,053,327** | **88,059** | **(88,059)** |

***Risg pris*** yw risg colledion sy'n gysylltiedig â newid prisiau'r asedau sylfaenol. Drwy arallgyfeirio buddsoddiadau ar draws dosbarthiadau a rheolwyr asedau, nod y Gronfa Bensiwn yw lleihau'r risg pris. Mae arallgyfeirio dosbarthiadau ased yn ceisio lleihau'r gyfatebiaeth rhwng symudiadau pris, tra bod cyflogi rheolwyr arbenigol yn galluogi'r Gronfa i fanteisio ar arbenigedd buddsoddi.

Penderfynir ar newidiadau posibl i brisiau'n seiliedig ar ansefydlogrwydd hanesyddol adenillion dosbarth asedau. Mae'r ansefydlogrwydd posibl yn gyson â symudiad yn newid gwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiwethaf, sy'n berthnasol i gymysgedd ased diwedd y cyfnod. Mae cyfanswm yr ansefydlogrwydd a ddangosir isod ar gyfer cyfanswm yr asedau yn cynnwys effaith cyfatebiaeth ar draws yr holl arian cyfred sy'n effeithio ar ansefydlogrwydd ac felly ni fydd y ffigurau gwerth ar gynnydd a gwerth ar ostyngiad yn rhan o'r ffigur cyfan.

| Math yr Ased | Gwerth ar 31/03/22 £000 | Newid canrannol % | Gwerth ar gynnydd £000 | Gwerth ar ostyngiad £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau'r DU | 232,958 | 18.30 | 275,589 | 190,327 |
| Ecwiti Tramor | 2,082,973 | 14.90 | 2,393,336 | 1,772,610 |
| Llog sefydlog (Bondiau) | 0 | 4.90 | 0 | 0 |
| Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod | 72,253 | 1.30 | 73,192 | 71,314 |
| Ecwiti Preifat | 103,327 | 10.80 | 114,486 | 92,168 |
| Eiddo | 201,606 | 4.90 | 211,485 | 191,727 |
| **Cyfanswm Asedau** | **2,693,117** | | **3,068,088** | **2,318,146** |

| Math yr Ased | Gwerth ar 31/03/21 £000 | Newid canrannol % | Gwerth ar gynnydd £000 | Gwerth ar ostyngiad £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau'r DU | 577,410 | 18.86 | 686,310 | 468,510 |
| Ecwiti Tramor | 1,629,935 | 14.05 | 1,858,941 | 1,400,929 |
| Llog sefydlog (Bondiau) | 0 | 4.59 | 0 | 0 |
| Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod | 45,502 | 0.20 | 45,593 | 45,411 |
| Ecwiti Preifat | 90,669 | 9.35 | 99,147 | 82,191 |
| Eiddo | 166,559 | 4.16 | 173,488 | 159,630 |
| **Cyfanswm Asedau** | **2,510,075** | | **2,863,479** | **2,156,671** |

***Risg credyd*** yw'r risg y bydd parti i gontract i offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi'r gronfa i golli gwerth. Mae'r Gronfa'n adolygu ei hamlygiad i risg credyd a pharti i gontract drwy reolwyr buddsoddi allanol. Mae'r Gronfa hefyd yn agored i risg credyd trwy ei rhaglen benthyca ar warantau a redir gan geidwad y Gronfa, Northern Trust, sy'n rheoli ac yn monitro'r risg parti i gontract, y risg gyfochrog a'r rhaglen fenthyca gyffredinol.

Cedwir cyfrif banc y Gronfa Bensiwn gyda NatWest. Ni fuddsoddir arian gwarged gyda'r NatWest, ond fe'i rhoddir gyda detholiad o sefydliadau Marchnad Arian AAA. Mae daliad arian parod y Gronfa a reolir yn fewnol dan ei threfniadau rheoli trysorlys yn cael ei gadw gyda'r sefydliadau canlynol:

| | Sgôr Fitch | 31/03/21 £000 | 31/03/22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd marchnad arian** | | | |
| Aberdeen Standard Liquidity- Sterling Fund | AAA | 18,800 | 20,350 |
| Blackrock ICS Sterling Liquidity Fund | AAA | 18,120 | 22,830 |
| Deutsche Global Liquidity- Sterling Fund | AAA | 0 | 21,840 |
| **Cyfrif cyfredol banc** | | | |
| NatWest | A | (40) | 2,144 |
| **Cyfanswm** | | **36,880** | **67,164** |

Nid yw'r Gronfa Bensiwn wedi profi unrhyw ddiffyg-daliadau gan reolwyr cronfeydd, broceriaid na chyfrifon banc dros y deng mlynedd ddiwethaf, felly nid oes gofyn am unrhyw ddarpariaeth ar gyfer colled credyd ddisgwyliedig.

***Risg hylifedd*** yw'r posibiliad na fydd gan y Gronfa adnoddau i gyflawni ei rhwymedigaethau ariannol. Sefyllfa gyfredol y Gronfa yw gwarged arian parod, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod cyfraniadau at y Gronfa'n fwy na swm y taliadau a wneir. Cedwir arian parod y Gronfa mewn cyfrif banc ar wahân a chaiff y sefyllfa arian parod ei monitro'n ddyddiol. Caiff cronfeydd gwarged eu rhoi mewn cronfeydd marchnad yn y byrdymor. Ar lefel fuddsoddi, gwarantau rhestredig a ystyrir yn wireddadwy yw buddsoddiadau'r Gronfa i raddau helaeth.

## 16. Gwerth Presennol Actiwaraidd Buddion Ymddeol a Addawyd

Mae Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) yn gofyn am ddatgelu gwerth presennol actiwaraidd buddion ymddeol a addawyd wedi'u cyfrifo ar sail IAS 19, fel y rhestrir yn IAS 26.

Felly, yn ogystal â'r prisiad ariannu teirblwydd, mae actiwari'r Gronfa yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r gronfa bensiwn ar sail IAS 19 ar yr un dyddiad. Cynhelir prisiad IAS 19 gan ddefnyddio rhagdybiaethau actiwaraidd cyfredol o'r rheiny a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfraniadau'r gronfa ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried rhwymedigaeth i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol.

Dangosir y prisiad actiwaraidd diweddaraf sy'n seiliedig ar IAS 19 isod:

| 31/03/2016 £m | | 31/03/2019 £m |
|---|---|---|
| 2,274 | Gwerth Presennol Actiwaraidd Buddion Ymddeol a Addawyd | 3,168 |

Bydd rhwymedigaethau disgwyliedig y Gronfa Bensiwn ar gyfer y dyfodol hefyd yn destun ystyriaeth dyfarniad McCloud a chydraddoli GMP. Ystyriodd yr actiwari'r effaith yn y prisiad teirblwydd, a gynhaliwyd yn 2019/20. Cadarnhaodd yr actiwari na fyddai unrhyw addasiadau pellach yn cael eu gwneud i'r prisiad ar yr adeg honno ac y gwneir unrhyw addasiadau pellach yn y prisiad teirblwydd nesaf (gweler Datganiad Actiwaraidd ar dudalennau 24-27 y ddogfen hon).

## 17. Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGYau)

Gall aelodau'r cynllun ddewis gwneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i wella eu buddion pensiwn. Gwneir cyfraniadau yn uniongyrchol o aelodau'r cynllun i'r darparwr CGY ac felly nid ydynt wedi'u cynrychioli yn y cyfrifon hyn yn unol ag adran 4(2)b Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (OS 2009/3093). Fodd bynnag, fel yr awdurdod gweinyddu, rydym yn goruchwylio'r trefniadau CGY canlynol:

| 2020/21 £000 | | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| 303 | CGY a dalwyd i mewn gan aelodau yn ystod y flwyddyn | 643 |
| 4,670 | Gwerth Marchnad y CGYau a fuddsoddir ar wahân | 6,003 |

## 18. Ymrwymiadau Cytundebol

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Gronfa ymrwymiadau ecwiti preifat heb eu talu o hyd at £78.086 miliwn (£38.683 miliwn ar 31 Mawrth 2021). Mae'r cynnydd yn 2021/22 o ganlyniad i fuddsoddiadau ym mhedwar cronfa newydd gydag ymrwymiadau heb eu talu ar 31 Mawrth 2022 o £46,592 miliwn.

## 19. Benthyg ar Warantau

Ar ddiwedd y flwyddyn, gwerth ecwitïau a ddyfynnwyd ar fenthyg oedd £94.992 miliwn (£37.355 miliwn ym mis Mawrth 2021). Mae'r cynnydd o ganlyniad i drosglwyddiadau o fewn 2021/22 i PPC. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, cafodd y Gronfa incwm o £203,000 drwy fenthyca stoc (£65,000 yn 2020/21).

## 20. Darpariaethau a Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Cafodd nifer o grantiau marwolaeth eu nodi lle y methodd y Gronfa olrhain y berthynas agosaf, sy'n golygu na wnaed unrhyw daliad hyd yn hyn. Ym mhob un o'r achosion sy'n weddill, cafwyd anhawster wrth gysylltu, sy'n golygu nad yw'r taliadau'n debygol o gael eu setlo o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch amseriad y taliadau hyn a'r symiau terfynol sy'n daladwy, mae darpariaeth ar gyfer £1.115 miliwn wedi'i chynnwys yn y cyfrifon (£1.054 miliwn yn 2020/21), sy'n cynnwys £217,000 byrdymor (£320,000 yn 2020/21), £742,000 hirdymor a £156,000 o log amcangyfrifedig (£591,000 hirdymor a £143,000 o log amcangyfrifedig yn 2020/21).

Cysoni'r Gwarant Lleiafswm Pensiwn (GLlP) yw'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod cofnodion y cynllun yn cytuno â rhai'r Swyddfa Cyfraniad Yswiriant Gwladol (NICO, rhan o CThEM). Mae hyn yn galluogi cynllun i ystyried bod ei ddata'n lân ac yn hollol ddibynadwy.

Mae cywiro'r GLlP yn cynnwys cyfrifo a chywiro data (ac ar gyfer pensiynwyr, buddion mewn taliadau) i'r aelodau hynny lle arweiniodd y broses o gysoni'r GLlP at newid yn y GLlP a ddelir gan weinyddwr y cynllun. Mae'r GLlP yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg wedi penodi Mercer i wneud yr ymarfer hwn, rydym felly'n methu â rhoi amcangyfrif dibynadwy o'r atebolrwydd ar hyn o bryd.

## 21. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Cyngor Caerdydd yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys aelodau o'r Cyngor. Ar 31 Mawrth 2022, roedd dau aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn. Mae angen i bob aelod o'r Pwyllgor Pensiynau ddatgan ei fuddiannau ym mhob cyfarfod. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau eraill yn ystod y flwyddyn.

Ymhlith y trafodion parti cysylltiedig eraill â'r Cyngor mae:

- Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf o aelodau o'r gronfa bensiwn. Mae'r holl arian sy'n ddyledus i'r gronfa a chanddi yn cael ei dalu'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn gyda'r balansau canlynol yn cael eu talu ar ddiwedd y flwyddyn
    - o Balans arian parod rhyng-gwmni o £1.928 miliwn yn ddyledus i Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg wedi'i gynnwys yn Nodyn 12- Arian Mewnol/Ceidwad (£0.239 miliwn oedd yn ddyledus i Gyngor Caerdydd yn 2020/21)
    - o Elfen bensiwn o £2.331 miliwn wedi'i gynnwys yng Nghyfrif y Gronfa- Incwm Arall (2020/21 £3.521 miliwn)

- Arian parod a fuddsoddwyd yn fewnol gan y Cyngor (at ddibenion cyfalaf gweithio) – gweler Nodyn 13- Crynodeb o werthoedd portffolio'r rheolwr – Rheolwyd yn fewnol (Arian parod) £67.164 miliwn (2020/21 £68.884 miliwn), gan ennill £19,737 mewn llog (2020/21 £47,698)

- Cynhwysir treuliau gweinyddol a godir ar y Gronfa gan y Cyngor yn Nodyn 10- Treuliau Rheoli Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y Cyngor wedi mynd i gostau o £0.95 miliwn (2020/21 £0.61 miliwn) mewn perthynas â gweinyddu a rheoli'r gronfa a chafodd ei ad-dalu gan y gronfa ar gyfer y treuliau hyn.

- Mae Paragraff 3.9.4 y Cod Ymarfer yn eithrio Awdurdodau Lleol rhag y gofynion datgelu personél rheoli allweddol yn IAS24 ar y sail y manylir ar ofynion taliadau cydnabyddiaeth swyddogion a lwfansau aelodau yn adran 3.4 y Cod. Gellir gweld cyfanswm taliad cydnabyddiaeth Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn Nodyn Taliadau Cydnabyddiaeth Datganiad Cyfrifon Cyngor Caerdydd.

- Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg wedi buddsoddi £1,700 miliwn mewn cronfeydd o fewn PPC. Yn 2021/22 cwblhaodd PPC y broses i groesawu Cynrychiolydd Aelod Cynllun nad yw'n pleidleisio i'w Gyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad yn cynrychioli Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau Caerdydd a Bro Morgannwg.

Yn ogystal â'r partïon cysylltiedig, mae'r Bwrdd Pensiynau yn rhoi cymorth cynghori i'r Pwyllgor Pensiynau. Mae tri aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn hefyd yn aelodau o'r Panel Buddsoddi ymgynghorol ochr yn ochr â dau ymgynghorydd annibynnol nad ydynt yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg neu'n derbyn buddion pensiwn ganddi. Mae'r Bwrdd Pensiynau yn cynnwys cynrychiolwyr o gyflogwyr cyfranogol a chyflogeion gan gynnwys dau swyddog Cyngor Caerdydd. Mae pum aelod o Fwrdd y Gronfa Bensiwn yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn. Hefyd roedd un o aelodau gweithredol Bwrdd y Gronfa Bensiwn yn derbyn buddion y gronfa bensiwn gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg.

## 22. Cyflogwyr sy'n Cyfrannu

Rhoddir manylion y cyflogwyr cyfranogol gweithredol ar 31 Mawrth 2022, ynghyd â'r newidiadau ers 31 Mawrth 2021, isod:

| Corff Gweinyddu | |
|---|---|
| Cyngor Caerdydd | |
| **Cyrff Cofrestredig** | |
| **Cynghorau** | **Cynghorau Tref a Chymuned** |
| Cyngor Bro Morgannwg | Cyngor Tref y Barri |
| **Cyrff Addysg** | Cyngor Tref y Bont-faen |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | Cyngor Cymuned Llys-faen |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Cyngor Llanilltud Fawr |
| Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant | Cyngor Tref Penarth |
| Ysgol Gyfun Stanwell | Cyngor Cymuned Pen-llin |
| **Cyrff Cofrestredig Eraill** | Cyngor Cymuned Pentyrch |
| Bws Caerdydd | Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth |
| | Cyngor Cymuned Sain Ffagan** |
| | Cyngor Cymuned Gwenfô |
| **Cyrff Derbyniedig** | |
| A and R Cleaning Greenway* | Eisteddfod Genedlaethol Cymru |
| A and R Cleaning Lansdowne | Glen Cleaning (Ysgol Gyfun y Barri) |
| A and R Cleaning Trowbridge* | Glen Cleaning (Ysgol Uwchradd y Dwyrain) |
| A and R Cleaning yr Eglwys Newydd | Glen Cleaning (Llandochau) |
| Dysgu Oedolion Cymru | Greenwich Leisure Limited (GLL) |
| Big Fresh Cleaning | Gwasanaeth Glanhau Ysgol Gynradd Grangetown (APP) |
| Canolfan Technoleg Busnes Caerdydd | Mirus Cymru |
| Prifysgol Caerdydd | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Dyffryn) |
| Gyrfa Cymru (Caerdydd a'r Fro) | Y Theatr Newydd** |
| Plant yng Nghymru | Un Llais Cymru |
| Circle IT (Ysgol Gyfun y Bont-faen) | Chwarae Cymru |
| Circle IT (Ysgol Uwchradd y Dwyrain) | Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Colegau Cymru- Colleges Wales | St Teilo's Cleaning (APP) |
| Comisiwn Dylunio Cymru | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Ecommercial ** | |

* Cyflogwyr sy'n cyfrannu at y Gronfa yn 2020/21 nad oeddent yn cyfrannu at y Gronfa yn 2021/22.
** Cyflogwyr sy'n cyfrannu at y Gronfa yn 2021/22 nad oeddent yn cyfrannu at y Gronfa yn 2020/21.

## 23. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Nid oes digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i'w hadrodd.


## 24. Dyddiad Awdurdodi'r Cyfrifon i'w Cyhoeddi

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon hwn i'w gyhoeddi ar 24 Tachwedd 2022 gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.  Ystyriwyd digwyddiadau ôl-fantolen hyd at y dyddiad hwn.

# ATODIAD 1

# DATA BUDDSODDI

**GWERTHOEDD Y FARCHNAD BUDDSODDI DROS 20 MLYNEDD**



## DYRANNU ASEDAU BUDDSODDI (YN ÔL DOSBARTH ASEDAU)

| Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth | | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ecwitïau'r DU** | **£m** | 685.8 | 620.2 | 641.6 | 437.1 | 577.4 | 233.0 |
| | *%* | *34.6* | *30.3* | *29.7* | *21.7* | *23.0* | *8.7* |
| **Ecwitïau Tramor** | **£m** | 771.1 | 633.8 | 667.5 | 698.7 | 1003.0 | 1,473.1 |
| | *%* | *38.9* | *30.9* | *30.9* | *34.7* | *40.0* | *54.7* |
| **Bondiau Byd-eang** | **£m** | 279.7 | 555.6 | 565.1 | 586.1 | 632.9 | 609.9 |
| | *%* | *14.1* | *27.1* | *26.1* | *29.1* | *25.2* | *22.6* |
| **Ecwiti Preifat** | **£m** | 88.3 | 79.3 | 82.2 | 88.7 | 90.7 | 103.3 |
| | *%* | *4.5* | *3.9* | *3.8* | *4.4* | *3.6* | *3.8* |
| **Eiddo** | **£m** | 126.1 | 134.2 | 155.9 | 165.2 | 166.6 | 201.6 |
| | *%* | *6.4* | *6.5* | *7.2* | *8.2* | *6.6* | *7.5* |
| **Arian Parod** | **£m** | 30.8 | 26.8 | 51.0 | 38.5 | 39.6 | 72.3 |
| | *%* | *1.6* | *1.3* | *2.4* | *1.9* | *1.6* | *2.7* |
| **Cyfanswm Gwerth** | **£m** | **1981.8** | **2049.9** | **2163.3** | **2014.3** | **2510.2** | **2,693.1** |

## Y DEG DALIAD MWYAF YN ÔL GWERTH Y FARCHNAD AR 31 MAWRTH 2021

Ar 31 Mawrth 2022 nid oedd y Gronfa Bensiwn hon yn dal unrhyw Ecwitïau a Berchnogir yn Uniongyrchol mwyach.

| | Gwlad / Rhanbarth | Dosbarth Ased | AGS £m | Cronfa % |
|---|---|---|---|---|
| **CRONFEYDD CYFUN** | | | | |
| Traciwr Carbon Isel BlackRock wedi'i Fynegeio | Byd-eang | Ecwiti | 616.0 | 22.9 |
| Cyfleoedd Byd-eang PPC | Byd-eang | Ecwiti | 530.4 | 19.7 |
| Bondiau Llywodraeth Byd-eang PPC | Byd-eang | Incwm Sefydlog | 243.2 | 9.0 |
| Cyfleoedd yn y DU PPC | Y DU | Ecwiti | 233.0 | 8.7 |
| Credyd Byd-eang PPC | Byd-eang | Incwm Sefydlog | 216.4 | 8.0 |
| Twf Byd-eang PPC | Byd-eang | Ecwiti | 211.6 | 7.9 |
| Cronfa Credyd Aml-ased PPC | Byd-eang | Incwm Sefydlog | 150.3 | 5.6 |
| Marchnadoedd sy'n Datblygu PPC | Byd-eang | Ecwiti | 115.0 | 4.3 |
| Arian Parod | dd/b | Arian Parod | 72.3 | 2.7 |
| CBRE | Byd-eang | Eiddo | 65.3 | 2.4 |

# ATODIAD 2

# DATGANIAD STRATEGAETH ARIANNU

## TACHWEDD 2021

**Cyflwyniad**
Mae'r datganiad hwn wedi cael ei baratoi yn unol â Rheoliad 58 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (y Rheoliadau). Mae'n disgrifio strategaeth Dinas a Sir Caerdydd, fel Awdurdod Gweinyddu (yr Awdurdod Gweinyddu), ar gyfer ariannu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa).

Fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 58(4)(a), mae'r Datganiad wedi cael ei adolygu (a'i ddiwygio lle bo'n briodol), wrth ystyried arweiniad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ym mis Medi 2016. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi rhoi sylw i'r canllaw statudol atodol a gyhoeddwyd gan GTCLlL: Canllaw ar baratoi a chynnal polisïau ar adolygu cyfraniadau cyflogwyr, taliadau ymadael cyflogwyr a chytundebau dyled ohiriedig, ac mae hefyd wedi ystyried Canllaw Bwrdd Cynghori'r Cynllun ar Hyblygrwydd Cyflogwyr.

## Ymgynghoriad

Yn unol â Rheoliad 58(3), ymgynghorwyd â'r holl unigolion priodol (gan gynnwys cyflogwyr y Gronfa) ynghylch cynnwys y Datganiad hwn ac mae eu sylwadau wedi cael eu hystyried wrth ei lunio. Fodd bynnag, mae'r Datganiad yn disgrifio strategaeth unigol ar gyfer y Gronfa gyfan.

Ymgynghorwyd hefyd ag Actiwari'r Gronfa, Aon Solution UK Limited, ynghylch cynnwys y Datganiad hwn.

Yn ogystal, mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi rhoi ystyriaeth i Ddatganiad Strategaeth Fuddsoddi (DSF) y Gronfa a gyhoeddwyd yn unol â Rheoliad 7 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cyllid) 2016 (y Rheoliadau Buddsoddi).

## Diben y Datganiad hwn

Diben y Datganiad Strategaeth Ariannu hwn yw amlinellu'r prosesau a ddefnyddir gan yr Awdurdod Gweinyddu i wneud y canlynol:

- Llunio strategaeth ariannu glir a thryloyw sy'n benodol i'r Gronfa er mwyn cyflawni rhwymedigaethau pensiwn cyflogwyr yn y dyfodol.
- Y nod yw bodloni'r gofyniad rheoliadol mewn perthynas â dymunoldeb cynnal cyfradd cyfraniadau sylfaenol sydd mor gyson â phosibl.
- Sicrhau'r gofyniad rheoliadol i bennu cyfraniadau er mwyn sicrhau solfedd a chost-effeithiolrwydd hirdymor y Gronfa.
- Mabwysiadu ymagwedd bwyllog tymor hwy at ariannu rhwymedigaethau'r Gronfa

gan nodi bod rhaid i'r strategaeth ariannu sy'n berthnasol i gyflogwyr unigol neu gategorïau o gyflogwyr gael ei hadlewyrchu yn y Datganiad Strategaeth Ariannu ond hefyd y dylai ganolbwyntio bob amser ar y gweithredoedd hynny sydd er budd gorau'r Gronfa yn yr hirdymor.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'n ofyniad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i bob corff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol) yng Nghymru weithredu "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy". Mae hyn yn golygu gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae rhwymedigaethau'r Ddeddf i Gyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a chyflogwyr eraill y cynllun y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt wedi cael eu cydnabod yn y datganiad hwn trwy flaenoriaethu cost-effeithiolrwydd tymor hir y Gronfa.

## Dolen i'r polisi buddsoddi a nodir yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi

Datganiad o'r egwyddorion sy'n llywio penderfyniadau buddsoddi'r Gronfa yw'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (DSF). Ymhlith pethau eraill, mae'n ymwneud â pholisi ar gyfer y mathau o fuddsoddiadau i'w dal, y cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau, risgiau a'r adenilliad disgwyliedig ar fuddsoddiadau.

Yn unol â chynnwys y Datganiad hwn, mae'r DSF yn nodi mai polisi'r Gronfa yw sicrhau bod pob taliad yn cael ei wneud mor rhad â phosib i gyrff cyflogi. Yr amcan buddsoddi yw i greu cymaint o adenillion â phosib a lleihau neu o leiaf sefydlogi cyfraniadau cyflogwyr dros yr hirdymor gyda lefel dderbyniol o risg.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi llunio'r Datganiad hwn ar ôl cynnal trosolwg o lefel y risg a geir yn y polisi buddsoddi a nodir yn y DSF a'r strategaeth ariannu a nodir yn y Datganiad hwn. Yr asedau sy'n cyfateb orau i lifoedd arian y Gronfa yw'r rhai â llog sefydlog a bondiau Llywodraeth sy'n gysylltiedig â mynegai o hyd priodol o ran y rhwymedigaethau. Mae dyraniad asedau'r Gronfa fel y nodir yn y DSF yn buddsoddi canran sylweddol o'r Gronfa mewn

asedau megis ecwitïau y disgwylir iddynt greu mwy o adenillion na bondiau'r Llywodraeth yn yr hirdymor, er na ellir gwarantu hyn. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cytuno ag Actiwari'r Gronfa y caiff y Targed Ariannu ar y sail barhaus ei bennu ar ôl caniatáu ychydig am yr adenilliad uwch disgwyliedig hwn. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod na ellir gwarantu perfformiad gwell na'r disgwyl ac y gall solfedd y Gronfa ddirywio os na cheir yr adenillion uwch disgwyliedig yn absenoldeb unrhyw effeithiau eraill, yn benodol lle caiff y rhwymedigaethau eu mesur trwy gyfeirio at arenillion gilt presennol, fel sy'n wir yn achos rhwymedigaethau amddifad.

Mae'r adenillion buddsoddi sy'n angenrheidiol i fodloni amcanion y strategaeth ariannu'n cydweddu â'r polisi buddsoddi a nodir yn y DSF.

Mae Panel Cynghori ar Fuddsoddi'n adolygu'r risg gyffredinol i'r Gronfa. Rhoddir blaenoriaeth i ddyrannu asedau'n strategol ar ôl ystyried yr ystod lawn o gyfleoedd buddsoddi ynghyd ag arallgyfeirio ac addasrwydd buddsoddiadau. O fewn dosbarthiadau asedau unigol, mae'r Panel wedi mabwysiadu strwythur arbenigol gyda chymysgedd o ddulliau rheoli. Mae gan reolwyr dargedau clir a'r atebolrwydd pennaf o ran perfformiad.

Felly mae amcan solfedd y Gronfa wrth wraidd ei pholisi ar gyfer dyrannu asedau'n strategol ac mae ganddo gysylltiad uniongyrchol â'r DSF, a risgiau strategaethau gwahanol. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi llunio'r Datganiad hwn ar ôl cynnal trosolwg o lefel y risg a geir yn y polisi buddsoddi a nodir yn y DSF a'r strategaeth ariannu a nodir yn y Datganiad hwn.

Mae'r strategaeth ariannu'n cydnabod y targedau buddsoddi a'r anwadalwch cynhenid sy'n deillio o'r strategaeth fuddsoddi, trwy fod yn seiliedig ar ragdybiaethau ariannol sy'n gyson â'r adenillion disgwyliedig o'r buddsoddiadau a ddelir gan y Gronfa, a thrwy gynnwys mesurau y gellir eu defnyddio i liniaru effaith y fath anwadalwch.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n parhau i adolygu'r ddwy ddogfen i sicrhau bod y proffil risg cyffredinol yn parhau'n briodol, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, comisiynu modelu rhwymedigaethau asedau neu dechnegau dadansoddi eraill.

## Adolygu'r Datganiad hwn

Cynhaliodd yr Awdurdod Gweinyddu ei adolygiad sylweddol diweddaraf o'r Datganiad hwn ym mis Tachwedd 2021.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n bwriadu adolygu'r Datganiad hwn yn ffurfiol fel rhan o bob gwerthusiad teirblwydd o'r Gronfa oni bai bod angen cymryd camau gweithredu'n gynharach oherwydd amgylchiadau newidiol.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n monitro sefyllfa ariannu'r Gronfa'n fras ar adegau rheolaidd rhwng gwerthusiadau actiwaraidd a bydd yn trafod ag Actiwari'r Gronfa a oes unrhyw newidiadau sylweddol sy'n gofyn am weithredu pellach.

## Nodau a Diben y Gronfa

**Prif nodau'r Gronfa mewn perthynas â'r strategaeth ariannu yw:**

**1. Rheoli rhwymedigaethau cyflogwyr yn effeithiol**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ceisio sicrhau bod rhwymedigaethau pob cyflogwr yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mewn cyd-destun ariannu, gwneir hyn trwy:

- ofyn am gyngor actiwaraidd rheolaidd
- sicrhau bod cyflogwyr yn cael eu hysbysu ac yr ymgynghorir â nhw yn briodol
- monitro'r sefyllfa ariannu'n rheolaidd ynghyd â'r rhagolwg ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr, a
- gwahanu cyflogwyr i gategorïau priodol at ddibenion ariannu.

**2. Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i fodloni'r holl rwymedigaethau yn ôl eu trefn**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod yr angen i sicrhau bod gan y Gronfa bob amser ddigon o asedau rhydd i allu talu pensiynau, gwerthoedd trosglwyddo, costau, ffioedd a threuliau eraill. Polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw y telir y fath wariant, yn y lle cyntaf, trwy gyfraniadau cyflogwyr a chyflogeion sy'n dod i law er mwyn osgoi'r gost o dynnu buddsoddiad o asedau. Mae'r awdurdod Gweinyddu'n monitro'r sefyllfa bob mis er mwyn sicrhau y gellir bodloni pob gofyniad ariannol.

**3. Galluogi cyfraddau cyfraniadau sylfaenol i gael eu cadw mor gyson â phosib ac (ar yr amod nad yw'r Awdurdod Gweinyddu'n cymryd risgiau) am gost resymol i drethdalwyr a chyrff cofrestredig, dynodi a derbyniedig wrth gyflawni a chynnal solfedd a chost-effeithiolrwydd hirdymor y Gronfa, y dylid eu hasesu gan ystyried proffil risg y Gronfa a chyflogwyr, a throthwy risg yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr fel ei gilydd.**

I osgoi anwadalwch mawr yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr, gallai fod angen buddsoddi mewn asedau sy'n 'cydweddu' â rhwymedigaethau'r cyflogwyr. Yn y cyd-destun hwn, mae 'cydweddu' yn cyfeirio at asedau sy'n ymddwyn mewn modd tebyg i'r rhwymedigaethau wrth i amodau economaidd newid. Yn achos y rhwymedigaethau ar ffurf buddion sy'n daladwy gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, byddai asedau o'r fath yn tueddu i gynnwys buddsoddiadau ymyl-gilt llog sefydlog ac sy'n gysylltiedig â'r mynegai, lle caiff y rhwymedigaethau eu mesur trwy gyfeirio at arenillion gilt presennol, fel sy'n wir yn achos rhwymedigaethau amddifad.

Canfyddir bod dosbarthiadau eraill o asedau, megis cyfranddaliadau ac eiddo, yn creu mwy o elw yn yr hirdymor, ar gyfartaledd, ac maent yn gyson â'r nod o geisio adenillion o fuddsoddiadau o fewn ffiniau risg rhesymol. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n buddsoddi cyfran sylweddol o'r Gronfa mewn asedau o'r fath. Fodd bynnag, mae mwy o risg i'r asedau hyn wrth eu natur, a gall y risg hwnnw arwain at adenillion anwadal dros gyfnodau byr, a methiant i greu'r adenillion disgwyliedig yn yr hirdymor.

Gall yr anwadalwch byrdymor mewn adenillion arwain at anwadalwch yn sefyllfa ariannu fesuredig y Gronfa mewn gwerthusiadau actiwaraidd olynol, gyda goblygiadau ar gyfer cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Gellir lliniaru'r effaith ar gyfraddau cyflogwyr trwy ddefnyddio addasiadau lleddfol ym mhob gwerthusiad.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod bod rhaid creu cydbwysedd rhwng y polisi buddsoddi a fabwysiedir, y dulliau lleddfol a ddefnyddir wrth werthuso, a'r sefydlogrwydd canlynol yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr o'r naill gyfnod gwerthuso i'r llall.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn cydnabod y gallai'r sefyllfa fod yn fwy anwadal i Gyrff Derbyn gyda chontractau byrdymor lle byddai defnyddio dulliau lleddfol yn llai priodol.

4. **Ceisio elw o fuddsoddiadau o fewn ffiniau risg rhesymol**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod mantais ceisio elw o fuddsoddiadau o fewn ffiniau risg rhesymol trwy fuddsoddi mewn buddsoddiadau heb eu cydweddu. Ceisir elw o fuddsoddiadau sy'n uwch na'r rhai sydd ar gael ar stociau'r Llywodraeth trwy fuddsoddi mewn dosbarthiadau eraill o asedau megis ecwitïau ac eiddo. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n sicrhau bod y ffiniau risg yn rhesymol trwy:

- gyfyngu buddsoddiad i'r lefelau a ganiateir gan y Rheoliadau Buddsoddi
- lleihau'r risg o ddiffygdaliad trwy gyfyngu buddsoddi i ddosbarthiadau o asedau a gydnabyddir gan mwyaf yn briodol i gronfeydd pensiynau yn y DU
- dadansoddi anwadalwch a'r risgiau elw absoliwt a grëir gan y dosbarthiadau asedau hynny ar y cyd â'r Ymgynghorydd Buddsoddi a Rheolwyr y Gronfa, a sicrhau eu bod yn cadw'n gyson â'r proffiliau risg ac adenillion a ragwelir yn y strategaeth ariannu.
- cyfyngu ar y risg o grynhoi trwy ddatblygu strategaeth fuddsoddi amrywiol, a
- monitro'r risg o gamgydweddu: hynny yw, nad yw'r buddsoddiadau'n cyd-fynd â rhwymedigaethau'r Gronfa.



## Diben y Gronfa

Diben y Gronfa yw:

- derbyn incwm trwy gyfraniadau, gwerthoedd trosglwyddo a buddsoddiadau, a
- thalu buddion, gwerthoedd trosglwyddo, costau, ffioedd a threuliau'r cynllun fel y diffinnir yn y Rheoliadau ac yn Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

**Cyfrifoldebau'r prif bartïon**

Y tri pharti y mae eu cyfrifoldebau at y Gronfa yn arbennig o berthnasol yw'r Awdurdod Gweinyddu, y cyflogwyr unigol ac Actiwari'r Gronfa.

Dyma'u prif gyfrifoldebau:

**Awdurdod Gweinyddu**

Prif gyfrifoldebau'r Awdurdod Gweinyddu yw:

1. *Gweithredu cronfa bensiwn*

2. *Casglu incwm o fuddsoddiadau a symiau eraill sy'n ddyledus i'r Gronfa fel y nodir yn y Rheoliadau, gan gynnwys cyfraniadau cyflogwyr a chyflogeion a, hyd y gall yr Awdurdod Gweinyddu wneud hynny, sicrhau y caiff y cyfraniadau hyn eu talu erbyn y dyddiad priodol.*

Rhaid i gyflogwyr unigol dalu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau 67 i 71. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n sicrhau bod pob cyflogwr yn ymwybodol o'r gofynion hyn a hefyd o ofynion Deddf Pensiynau 1995.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n monitro'r broses o dderbyn cyfraniadau er mwyn sicrhau y cânt eu derbyn yn unol â'r trefniadau cytunedig. Hefyd, yr Awdurdod Gweinyddu yn unig sy'n gyfrifol am ddewis amserau taliadau yn ymwneud â throsglwyddiadau mewn swmp neu ymddeoliadau cynnar. Lle nad yw cyflogwyr yn cydymffurfio â threfniadau, rhoddir gwybod iddynt am hyn. Yn unol â'r Rheoliadau, gellir codi llog ar Gyfradd Sylfaenol +1% ar gyfraniadau dyledus neu arian arall na dderbynnir erbyn y dyddiad priodol.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n sicrhau, lle y bo'n briodol, fod camau'n cael eu cymryd i adennill asedau o Gyrff Derbyn y mae eu Cytundeb Derbyn wedi dod i ben (a chan gyflogwyr eraill y mae eu cyfranogiad yn y Gronfa wedi dod i ben) trwy

- ofyn i Actiwari'r Gronfa gyfrifo unrhyw ddiffyg neu warged ar ddyddiad gadael y Gronfa
- hysbysu'r corff bod yn rhaid iddo fodloni unrhyw ddiffyg wrth ymadael a phenderfynu ar unrhyw gredyd ymadael sydd i'w dalu i'r cyflogwr sy'n ymadael. Amlinellir polisi'r Awdurdod Gweinyddu'n ddiweddarach yn y datganiad hwn.

3. *Buddsoddi arian dros ben yn unol â'r Rheoliadau*
   Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Buddsoddi.

4. *Talu'r hawliau perthnasol o'r Gronfa fel yr amlinellir gan y Rheoliadau.*

5. *Sicrhau bod arian ar gael i gyflawni rhwymedigaethau yn ôl eu trefn*
   Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cyflawni'r ddyletswydd hon yn unol â nodau'r Gronfa a amlinellir uchod.

6. *Cymryd camau fel y nodir yn y Rheoliadau i ddiogelu'r Gronfa rhag goblygiadau diffygdaliad cyflogwr.*

7. *Rheoli'r broses werthuso mewn ymgynghoriad ag Actiwari'r Gronfa*
   Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n effeithiol ag Actiwari'r Gronfa i:

- gytuno ar amserlenni i ddarparu gwybodaeth a chanlyniadau prisio
- sicrhau y darperir data sy'n briodol gywir
- sicrhau bod Actiwari'r Gronfa'n eglur am

gynnwys y Datganiad Strategaeth Ariannu

- sicrhau y cyfathrebir yn briodol trwy gydol y broses â'r cyflogwyr sy'n cyfranogi
- sicrhau y darperir adroddiadau sy'n ofynnol yn ôl canllawiau a rheoliadau perthnasol.

8. *Paratoi a chynnal DSF a Datganiad Strategaeth Ariannu ar ôl ymgynghori'n briodol â phartïon â budd*
   Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n sicrhau bod y ddwy ddogfen yn cael eu paratoi a'u cynnal yn y modd gofynnol.

9. *Monitro pob agwedd ar berfformiad ac ariannu'r Gronfa, ac addasu'r ddwy ddogfen hyn os bydd angen*
   Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro perfformiad buddsoddi a sefyllfa ariannu'r Gronfa bob tri mis. Caiff y DSF ei adolygu bob blwyddyn, a'r Strategaeth Ariannu bob tair blynedd, fel rhan o'r cylchred gwerthuso, oni bai bod angen addasu'r rhain yn gynt oherwydd amgylchiadau.

10. *Rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau posib sy'n deillio o'r rôl ddeuol fel Awdurdod Gweinyddu a Chyflogwr Cynllun ar yr un pryd.*

11. *Galluogi'r bwrdd pensiwn lleol i adolygu'r broses werthuso fel y nodir yn ei gylch gorchwyl.*

**Cyflogwyr Unigol**

Bydd y cyflogwyr unigol yn:


- Didynnu cyfraniadau o gyflog cyflogeion
- Talu'r holl gyfraniadau parhaus ar gyfer aelodau a chyflogwyr (hynny yw, canran cyflog, cyfraniadau adennill diffygdaliadau dyledus ac unrhyw gyfraniadau y cytunwyd arnynt o dan gytundeb dyled ohiriedig sy'n ddyledus) fel y pennir gan Actiwari'r Gronfa, yn brydlon erbyn 19eg diwrnod y mis.
- Datblygu polisi ynglŷn ag ambell ddisgresiwn penodol ac arfer disgresiwn o fewn y fframwaith rheoliadol, gan sicrhau bod gan yr Awdurdod Gweinyddu gopïau o bolisïau cyfredol sy'n ymdrin â'r disgresiynau hynny.
- Talu am aelodaeth neu bensiwn ychwanegol, ychwanegiad, rhyddhau budd-daliadau'n gynnar neu gostau straen untro eraill yn unol â threfniadau cytunedig
- Hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu'n brydlon am bob newid i aelodaeth, neu newidiadau eraill sy'n effeithio ar ariannu i'r dyfodol, gan gynnwys unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau ariannol
- Hysbysu, ac os dymunir, ymateb i unrhyw ymgynghoriad am y Datganiad Strategaeth Ariannu, y DSF neu bolisïau eraill
- Talu unrhyw ffioedd gadael wrth orffen cyfranogi yn y Gronfa

**Actiwari'r Gronfa**

Bydd Actiwari'r Gronfa yn paratoi cyngor a chyfrifiadau ar y canlynol:

- Y strategaeth ariannu, llunio'r Datganiad Strategaeth Ariannu a pharatoi prisiadau actiwaraidd, gan gynnwys gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar lefel i sicrhau solfedd a chost-effeithiolrwydd hirdymor y gronfa a chyflwyno Tystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau, ar ôl cytuno ar ragdybiaethau gyda'r Awdurdod Gweinyddu a rhoi ystyriaeth i'r Datganiad Strategaeth Ariannu.
- Paratoi cyngor a chyfrifiadau mewn perthynas â throsglwyddiadau swmp a'r agweddau ariannu ar faterion sy'n ymwneud â budd-daliadau unigol megis costau straen pensiynau, costau ymddeol trwy afiechyd a chost blynyddoedd ychwanegol digolledu ac ati.
- Cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu wrth asesu a oes angen adolygu cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisio fel y caniateir neu sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw adolygiad o gyfraniadau rhwng prisiadau teirblwydd o dan Reoliad 64A
- Rhoi cyngor a phrisiadau wrth i gyflogwyr adael y Gronfa
- Rhoi cyngor i'r Awdurdod Gweinyddu ar fondiau a ffurfiau eraill o warant yn erbyn effaith ariannol diffygdaliad cyflogwyr ar y Gronfa.
- Darparu adolygiadau mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad gan yr Awdurdod Gweinyddu i sefydlu cytundeb dyled ohiriedig o dan Reoliad 64(7B) neu ledaenu taliad ymadael o dan Reoliad 64B
- Sicrhau bod yr Awdurdod Gweinyddu'n ymwybodol o unrhyw arweiniad proffesiynol neu ofynion proffesiynol eraill a allai fod yn berthnasol i'w rôl wrth gynghori'r Gronfa.

Bydd cyngor o'r fath yn ystyried y sefyllfa ariannu a'r Datganiad Strategaeth Ariannu yn ogystal â materion perthnasol eraill pan fo cyfarwyddyd i wneud hynny.



## Strategaeth Ariannu

### Dull gweithredu ar sail risg

Mae'r Gronfa'n gweithredu ar sail risg o ran ei strategaeth ariannu.

Mae dull gweithredu ar sail risg yn golygu cynnal y prisiad actiwaraidd ar sail y tebygolrwydd asesedig o gyflawni'r amcanion ariannu. Yn ymarferol, mae angen tri phenderfyniad allweddol ar gyfer y dull gweithredu ar sail risg:

- pa Darged Solfedd i'w bennu (yr amcan ariannu – y pwynt y mae'r Awdurdod Gweinyddu am weld y Gronfa yn ei gyrraedd),
- Cyfnod y Trywydd (pa mor gyflym mae'r Awdurdod Gweinyddu am i'r Gronfa gyrraedd y pwynt hwnnw), a'r
- Tebygolrwydd o Lwyddiant Ariannu (pa mor debygol y mae'r Awdurdod Gweinyddu am iddo fod gan y bydd y Gronfa nawr yn bwrw'r Targed Solfedd erbyn diwedd Cyfnod y Trywydd).

Mae'r tri dewis hyn, wedi'u hategu gan fodelu risg cymhleth a gynhaliwyd gan Actiwari'r Gronfa, yn diffinio'r gyfradd ostyngol (y rhagdybiaeth am yr adenilliad o fuddsoddiad) i'w mabwysiadu a, thrwy hyn, gyfraniadau priodol cyflogwyr a fydd yn daladwy. Gyda'i gilydd maent yn mesur risgiau'r strategaeth ariannu.

Nodir rhagor o fanylion am y tri ymadrodd hyn yn Atodiad 1.

### Cais i wahanol fathau o gyrff

Nodir rhai sylwadau am yr egwyddorion a ddefnyddiwyd i bennu'r Targedau Solfedd ac Ariannu ar gyfer gwahanol gyrff yn y Gronfa isod.

- **Cyrff cofrestredig a rhai cyrff eraill cyfamod cadarn**
  Bydd yr awdurdod gweinyddu yn mabwysiadu dull cyffredinol yn y cyswllt hwn o ragdybio buddsoddiad amhenodol mewn ystod eang o asedau risg uwch nag asedau risg isel ar gyfer cyrff cofrestredig a rhai cyrff eraill sy'n hirdymor eu natur.

- **Cyrff Derbyn a chyrff penodol eraill y mae eu cyfranogiad yn gyfyngedig**
  I Gyrff Derbyn, cyrff sydd ar gau i ymgeiswyr newydd a chyrff eraill y credir bod eu cyfranogiad yn y Gronfa am gyfnod cyfyngedig oherwydd cyfyngiadau hysbys neu gyfamod wedi'i leihau, na fyddai gan y Gronfa gyfle i gael rhagor o arian ar eu cyfer ar ôl iddynt adael, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n rhoi ystyriaeth benodol i'r posibilrwydd y gallai cyfranogiad ddod i ben (neu na fyddai ganddo unrhyw aelodau sy'n cyfranogi), i amseriad posib y fath ymadawiad ac unrhyw newid tebygol mewn strategaeth fuddsoddi dybiannol neu wirioneddol o ran yr asedau a ddelir mewn perthynas â rhwymedigaethau'r corff ar y dyddiad mae'n gadael (h.y. a fydd y rhwymedigaethau'n cael eu 'hamddifadu' neu a oes gwarantwr ar gael i ymgorffori'r asedau a'r rhwymedigaethau tybiannol).

### Cyfnodau Adennill

Lle mae prisiad yn dangos bod gan y Gronfa arian dros ben neu ei bod mewn diffyg yn erbyn y Targed Ariannu, caiff cyfraniadau cyflogwyr eu haddasu er mwyn adfer y cyllid llawn dros gyfnod o flynyddoedd.

Pennir y Cyfnod Adennill sy'n berthnasol i bob cyflogwr gan Actiwari'r Gronfa mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Gweinyddu a'r cyflogwr, gyda'r bwriad o gydbwyso'r gofynion ariannu amrywiol yn erbyn y risgiau dan sylw oherwydd materion megis cryfder ariannol y cyflogwr a natur ei gyfranogiad yn y Gronfa.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod y disgwylir i gyfran helaeth o rwymedigaethau'r Gronfa fod ar ffurf buddion dros amser hir. I gyflogwyr sydd â chyfamod cadarn, mae'r Awdurdod Gweinyddu'n fodlon cytuno ar Gyfnodau Adennill sy'n hirach na chyfartaledd cyfnod gweithio aelodaeth y cyflogwr hwnnw yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod bod y fath ddull gweithredu'n gyson â'r nod o gadw cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosib. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn cydnabod y perygl o

ddibynnu ar gyfnodau adennill hir ac mae wedi cytuno gydag Actiwari'r Gronfa ar gyfyngiad o 30 mlynedd ar gyfer cyflogwyr yr asesir gan yr Awdurdod Gweinyddu fel rhai sy'n ddibynadwy dros y tymor hir.

Polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw cytuno ar Gyfnodau Adennill i adennill unrhyw ddiffyg gyda phob cyflogwr sydd mor fyr â phosib o fewn y fframwaith hwn.  I gyflogwyr sy'n cyfranogi yn y Gronfa am gyfnod penodol, nid yw'n debygol y byddai'r Awdurdod Gweinyddu ac Actiwari'r Gronfa'n cytuno ar Gyfnod Adennill sy'n hirach na'r cyfnod cyfranogiad sy'n weddill.

Ar gyfer unrhyw gyflogwyr sydd wedi ymrwymo i gytundeb dyled ohiriedig, bydd y cyfnod adfer yn gyffredinol yn hafal i weddill cyfnod y cytundeb dyled ohiriedig.

**Camau**

Yn unol â'r gofyniad i gadw cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosib, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried, gyda phob prisiad, a ddylai cyfraddau cyfraniadau newydd fod yn daladwy ar unwaith neu a ddylid cyrraedd y pwynt hwnnw trwy gyfres o gamau dros y blynyddoedd sy'n dod (gallai hyn fod yn gynnydd neu'n ostyngiad mewn cyfraddau cyfraniadau cyflogwr). Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n trafod ag Actiwari'r Gronfa y risgiau sy'n gynhenid mewn dull o'r fath, a bydd yn archwilio gyda phob cyflogwr yr effaith ariannol a'r risgiau cysylltiedig. Polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw na chaniateir mwy na thri cham cyfartal (h.y. y cyfnod prisio) mewn amgylchiadau arferol. Gellid caniatáu rhagor o gamau mewn achosion eithafol, ond nid yw'n debygol y byddai cyfanswm y camau'n fwy na chwe cham.

**Grwpio neu Gyfuno**

Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn ddymunol i grwpio neu gyfuno cyflogwyr sy'n cyfranogi yn y Gronfa at ddibenion ariannu (h.y. i gyfrifo cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr). Gallai'r rhesymau gynnwys:

- lleihau anwadalwch cyfraddau cyfraniadau i gyflogwyr bach, hwyluso sefyllfaoedd lle mae gan gyflogwyr ffynhonnell ariannu gyffredin neu gynorthwyo cyflogwyr sydd am rannu'r risgiau sy'n ymwneud â'u cyfranogiad yn y Gronfa, neu
- gontractau allanol bach sydd wedi cael eu cynnal ar ddull pasio drwodd lle mae'n gwneud synnwyr i'r darparwr/contractwr gwasanaeth naill ai roi'r un gyfradd cyfraniadau â'r corff contract allanol neu'r gyfradd cyfraniadau benodedig y cytunwyd arni drwy gontract, neu
- mae cyflogwyr wedi cael eu grwpio am resymau ymarferol neu fasnachol.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod bod grwpio cyflogwyr yn gallu arwain at drawsgymorthdalu gan un cyflogwr i un arall dros amser. Polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw ystyried y sefyllfa'n ofalus yn ystod pob prisiad a hysbysu pob cyflogwr sydd wedi'i grwpio mai dyma'r drefn a phwy yw'r cyflogwyr eraill yn ei grwp. Os bydd y cyflogwr yn gwrthwynebu, pennir ei gyfradd cyfraniadau ei hun iddo. I gyflogwyr gyda mwy na 50 aelod cyfranogol, byddai'r Awdurdod Gweinyddu'n chwilio am dystiolaeth o gydrywiaeth rhwng cyflogwyr cyn ystyried grwpio. Ar gyfer cyflogwyr y mae eu cyfranogiad am gyfnod penodol (e.e. cyrff derbyn penodol), mae grwpio'n annhebygol o gael ei ganiatáu.

Gellir grwpio'r holl gyflogwyr gyda'i gilydd, fel y rhennir yr holl risgiau cyfranogiad, neu gellir eu grwpio'n rhannol fel y rhennir risgiau penodol yn unig.

O ran grwpio'r holl gyflogwyr gyda'i gilydd at ddibenion ariannu, ni wneir hyn oni dderbynnir caniatâd y cyflogwyr perthnasol.

Caiff pob cyflogwr yn y Gronfa ei grwpio gyda'i gilydd o ran y risgiau sy'n gysylltiedig â thalu cyfandaliad a buddion pensiwn dibynyddion pan fo rhywun yn marw yn ei swydd ac am fuddion sy'n daladwy pan fo rhywun yn ymddeol oherwydd afiechyd – mewn geiriau eraill, rhennir cost y fath fuddion rhwng pob cyflogwr yn y Gronfa. Gall y fath fuddion achosi pwysau ariannu a allai fod yn sylweddol i rai o'r

cyflogwyr llai os nad ydynt wedi'u hyswirio neu os na rennir risgiau. Oherwydd ei maint, nid yw'r Gronfa'n ystyried ei bod yn gost-effeithiol neu'n angenrheidiol i yswirio'r buddion hyn yn allanol ac mae hyn yn cael ei ystyried yn ddull ymarferol a rhad o ledaenu'r risg.

Ceir dau brif grŵp o gyflogwyr bach yn y Gronfa sy'n cael eu cyfuno at ddibenion ariannu a chyfraniadau.

1. Grŵp Cynghorau Tref a Chymuned

   Ar hyn o bryd, mae'r holl gyflogwyr sy'n cyfrannu yn y grŵp yn talu'r un ganran o gyfradd cyfraniad tâl.

2. Grŵp Colegau

   Ar hyn o bryd mae cyflogwyr sy'n cyfrannu yn y grŵp yn talu cyfradd gyfraniadau gynradd (gwasanaethau'r dyfodol) gyffredin a chyfraniad diffyg sy'n hafal i gyfran o gyfanswm cyfraniadau diffyg ariannol y grwp.

Yn ogystal, mae nifer o ddarparwyr gwasanaeth neu gyflogwyr eraill yn cael eu cyfuno naill ai gyda Chyngor Caerdydd neu Gyngor Bro Morgannwg am resymau cytundebol neu fasnachol.

Mae manylion llawn y grwpiau / cronfeydd, y cyfranogwyr ar ddyddiad ysgrifennu'r datganiad hwn a'r ffordd y maent yn gweithredu wedi'u nodi yn Atodiad 3.

**Cyfrifiadau ariannu rhwng prisiadau**
Er mwyn monitro datblygiadau, gall yr Awdurdod Gweinyddu, o dro i dro, ofyn am brisiadau anffurfiol neu gyfrifiadau eraill. Yn gyffredinol, yn y fath achosion bydd y cyfrifiadau'n seiliedig ar estyniad bras o werthoedd asedau a rhwymedigaethau, a chaiff rhwymedigaethau eu cyfrifo trwy gyfeirio at ragdybiaethau sy'n gyson â'r prisiad diweddaraf cyn hynny. Yn benodol, nid yw'n debygol y byddai'r rhwymedigaethau'n cael eu cyfrifo trwy ddefnyddio data am aelodau unigol ac ni fyddai'r rhagdybiaethau'n cael eu hadolygu fel sy'n digwydd mewn prisiadau teirblwydd ffurfiol.

**Is-gronfeydd tybiannol ar gyfer cyflogwyr unigol**
Er mwyn pennu cyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr unigol neu grwpiau o gyflogwyr, mae'n gyfleus isrannu'r Gronfa gyfan yn dybiannol rhwng y cyflogwyr, fel petai gan bob cyflogwr ei is-gronfa dybiannol ei hun o fewn y Gronfa.

Mae'r isrannu hwn at ddibenion ariannu yn unig. Mae'n gwbl dybiannol ei natur ac nid yw'n awgrymu unrhyw fath o isrannu asedau'n ffurfiol na pherchenogaeth ar unrhyw asedau neu grwpiau o asedau penodol gan unrhyw gyflogwr unigol neu grŵp o gyflogwyr.

Nodir manylion am sut caiff yr is-gronfeydd eu hymestyn yn Atodiad 2.

**Aeddfedrwydd y Gronfa**
I ddiogelu'r Gronfa, a chyflogwyr unigol, rhag y risg bod aeddfedrwydd cynyddol a chyflogresi llai yn creu addasiadau cyfraniadau annerbyniol o anwadal fel canran tâl, bydd yr Awdurdod Gweinyddu fel arfer yn gofyn am lifoedd cyfalaf diffiniedig gan gyflogwyr mewn perthynas ag unrhyw ddiffyg cyllid y rhoddir gwybod amdano.

Mewn rhai amgylchiadau, i gyflogwyr sicr y mae'r Awdurdod Gweinyddu'n eu hystyried yn hirdymor eu natur, gellir gosod addasiadau cyfrannu i unioni unrhyw ddiffyg cyllid y rhoddir gwybod amdano fel canran o'r gyflogres ond gellir rhagdybio cyflogres ragamcanol gan y cyflogwr. Ynghlwm wrth ddull gweithredu o'r fath y mae'r rhagdybiaeth awgrymedig y bydd cyflogres y cyflogwr yn cynyddu ar gyfradd ragdybiedig. Os na fydd y gyflogres yn cynyddu ar y gyfradd hon, neu os bydd yn gostwng, bydd hynny oherwydd nad oedd y camau unioni'n ddigonol. I ddiogelu'r Gronfa yn erbyn y risg hwn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n monitro cyflogresi a lle bo tystiolaeth nad yw cyflogresi'n cynyddu ar y gyfradd ddisgwyliedig, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried gofyn am gyfraniadau ariannol yn hytrach na chanrannau cyflogres.

Pan asesir bod cyflogwr mewn gwarged a bod cyfraniadau i'w pennu islaw cost cronni yn y dyfodol, bydd hyn yn cael ei weithredu drwy ostyngiad yng nghanran y gyfradd cyflogau pensiynadwy yn hytrach na thrwy swm ariannol negyddol (yn amodol ar gyfradd cyfraniadau gyffredinol isaf o sero).

## Amgylchiadau arbennig yn ymwneud â chyflogwyr penodol

**Adolygiadau interim**

Fel rhan o bob prisiad actiwaraidd, asesir cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar wahân gan Actiwari'r Gronfa ar gyfer pob cyflogwr neu grŵp o gyflogwyr sy'n cymryd rhan. Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn monitro'r sefyllfa a chaiff ddiwygio cyfraniadau rhwng prisiadau fel y caniateir gan Reoliadau 64(4) a 64A. Ceir rhagor o fanylion am bolisi'r Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas ag adolygu cyfraniadau yn Atodiad 4.

**Gwarantwyr**

Gall rhai cyflogwyr gyfranogi yn y Gronfa trwy rinwedd presenoldeb Gwarantwr. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cadw rhestr o gyflogwyr a'u gwarantwyr cysylltiedig. Oni nodir yn wahanol, mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried bod dyletswydd Gwarantwr yn cynnwys y canlynol:

- Os yw cyflogwr yn gadael y Gronfa ac yn methu talu unrhyw un o'i rwymedigaethau ariannol i'r Gronfa, disgwylir i'r Gwarantwr roi arian i'r Gronfa fel bod y Gronfa'n derbyn y swm sy'n ddyledus fel yr ardystir gan Actiwari'r Gronfa, gan gynnwys unrhyw log taladwy sydd wedi cronni arno.
- Os yw'r Gwarantwr yn gyflogwr yn y Gronfa a bod yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried bod ganddo gyfamod addas, gall y Gwarantwr glirio peth o'r rhwymedigaeth ariannol trwy ymgorffori'r rhwymedigaethau sy'n weddill yn ei gronfa ei hun o rwymedigaethau Cronfa. Mewn geiriau eraill, mae'n cytuno i fod yn ffynhonnell cyllid yn y dyfodol o ran y rhwymedigaethau hynny petai diffygion yn y dyfodol.
- Yn ystod cyfnod cyfranogiad y cyflogwr, gall Gwarantwr gytuno ar unrhyw adeg i ymgorffori unrhyw rwymedigaethau cyflogwr sy'n weddill yn y dyfodol. Effaith y cam hwnnw fyddai lleihau'r Targedau Ariannu a Solfedd ar gyfer y cyflogwr, a fyddai'n debygol o arwain at leihau gofynion cyfraniadau.

**Bondiau a dulliau sicrwydd eraill**

Mae Atodlen 2 Rhan 3 Paragraff 6 o'r Rheoliadau yn creu gofyniad i gorff derbyn newydd gyflawni i foddhad yr awdurdod gweinyddu (a chyflogwr y cynllun yn achos corff a dderbynnir o dan Atodlen 2 Rhan 3 Paragraff 1(d)(i) o'r Rheoliadau) asesiad gan ystyried cyngor actiwaraidd o lefel y perygl ar derfyniad cynamserol oherwydd ansolfedd, dirwyn i ben neu ddiddymu.

Os bydd lefel y risg a nodir gan yr asesiad o'r fath raddau nes bod angen gwneud hyn, bydd y corff derbyniedig yn ymrwymo i indemniad neu fond gyda pharti priodol. Os nad yw'n ffafriol i gorff derbyn ymrwymo i indemniad neu fond, mae angen i'r corff sicrhau gwarant ar ffurf sy'n foddhaol i'r Awdurdod Gweinyddu gan sefydliad sydd naill ai'n ariannu neu'n rheoli swyddogaethau'r corff derbyn, neu sy'n berchen arnynt.

Mae ymagwedd yr Awdurdod Gweinyddu yn y maes hwn fel a ganlyn:

- Yn achos cyrff derbyn a dderbynnir dan Atodlen 2 Rhan 3 Paragraff 1(d) y Rheoliadau a chyrff derbyn eraill sydd â Gwarantwr, ac ar yr amod bod yr Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod gan y Cyflogwr neu Warantwr Cynllun perthnasol gyfamod digon cadarn, diben unrhyw fond yw diogelu cyflogwr y cynllun perthnasol petai'r corff derbyn yn diffygdalu. O ganlyniad, y Cyflogwr neu Warantwr Cynllun perthnasol yn unig sy'n gyfrifol am drefnu unrhyw asesiadau risg a phennu lefel y bond angenrheidiol. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cynnig rhai cyfrifiadau safonol a roddir gan Actiwari'r Gronfa i gynorthwyo'r Cyflogwr Cynllun perthnasol, ond ni ddylid dehongli hyn fel

cyngor i'r Cyflogwr Cynllun perthnasol ynglŷn â'r mater hwn.

- O ran cyrff derbyn a dderbynnir o dan Atodlen 2, Rhan 3, Paragraff 1(e) y Rheoliadau, neu o dan Baragraff 1(d) lle nad yw'r Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod gan y Cyflogwr Cynllun perthnasol gyfamod digon cryf, ac o ran Cyrff Derbyn eraill nad oes ganddynt Warantwr neu nad yw'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried bod gan y Gwarantwr gyfamod digon cryf, mae'n rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu fod yn rhan o'r gwaith o asesu lefel ofynnol y bond i ddiogelu'r Gronfa. Ni ellir bwrw ymlaen â'r broses dderbyn nes bod yr Awdurdod Gweinyddu wedi cytuno ar lefel yswiriant y bond. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cynnig rhai cyfrifiadau safonol a roddir gan Actiwari'r Gronfa i gynorthwyo'r Cyflogwr Cynllun perthnasol i benderfynu pa lefel o fond fyddai'n foddhaol. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu hefyd, ar gais, yn cynnig hwn i'r Corff Derbyn neu'r Gwarantwr. Ni ddylid dehongli hyn fel cyngor i'r Cyflogwr Cynllun, y Gwarantwr neu'r Corff Derbyn.

- Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n nodi y gall lefelau yr yswiriant bond sy'n angenrheidiol amrywio a bydd yn adolygu, neu'n argymell i gyflogwr y cynllun adolygu, yr yswiriant angenrheidiol o leiaf unwaith y flwyddyn.

**Rhwymedigaethau wedi'u hamsugno**
Os bydd cyflogwr yn gadael y Gronfa, mae'n bosib y bydd cyflogwr arall yn cytuno i ddarparu ffynhonnell ariannu yn y dyfodol ar gyfer unrhyw ddiffygion o ran y rhwymedigaethau hyn sy'n dod i'r amlwg.

Mewn amgylchiadau o'r fath, gelwir y rhwymedigaethau'n rhwymedigaethau wedi'u hamsugno (hynny yw bod y cyfrifoldeb amdanynt wedi cael ei amsugno gan y cyflogwr sy'n eu derbyn). Yn achos y fath rwymedigaethau, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n rhagdybio y bydd y buddsoddiadau a ddelir mewn perthynas â'r rhwymedigaethau hynny yr un fath â'r rheiny a ddelir am weddill rhwymedigaethau'r cyflogwr sy'n eu derbyn. Fel arfer bydd hyn yn golygu rhagdybio buddsoddiad parhaus mewn buddsoddiadau lle mae mwy o risg na bondiau'r Llywodraeth.

**Rhwymedigaethau amddifad**
Pan fo cyflogwr yn gadael y Gronfa, oni bai y daw unrhyw rwymedigaethau gweddilliol yn rhwymedigaethau wedi'u hamsugno, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n gweithredu ar y sail na fydd yn gallu derbyn mwy o arian gan y cyflogwr hwnnw ar ôl cwblhau unrhyw brisiad gadael a gynhelir yn unol â Rheoliad 64 a thalu unrhyw symiau dyledus. Yr enw am rwymedigaethau gweddilliol cyflogwyr na ellir cael rhagor o arian ganddynt yw rhwymedigaethau amddifad.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ceisio lleihau'r risg i gyflogwyr eraill yn y Gronfa fod unrhyw ddiffyg o ran y rhwymedigaethau amddifad yn arwain at gost i'r cyflogwyr eraill hynny sy'n unioni'r diffyg. I wireddu hyn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ceisio arian o'r cyflogwr sy'n gadael a fydd yn ddigonol iddo neilltuo'r rhwymedigaethau â buddsoddiadau risg isel, yn gyffredinol bondiau'r Llywodraeth.

I'r graddau bod yr Awdurdod Gweinyddu'n penderfynu peidio â darparu bondiau Llywodraeth o hyd priodol sy'n gyfwerth â'r rhwymedigaethau hyn, caiff unrhyw arian dros ben neu ddiffyg arian ei ychwanegu neu'i ddidynnu o adenilliad y buddsoddiad a gaiff ei briodoli i asedau tybiannol y cyflogwr.

**Pan fo cyflogwr yn gadael y Gronfa**
Os yw cyflogwr yn gadael y Gronfa, bydd prisiad ymadael yn cael ei gynnal yn unol â Rheoliad 64. Bydd y prisiad hwnnw yn ystyried unrhyw weithgaredd sy'n ganlyniad i unrhyw aelodau cyfranogol presennol (er enghraifft, unrhyw daliadau trosglwyddo swmp sy'n ddyledus) a statws unrhyw rwymedigaethau a fydd yn aros yn y Gronfa.

Yn benodol, bydd y prisiad gadael yn gwahaniaethu rhwng rhwymedigaethau

gweddilliol a fydd yn newid i rwymedigaethau amddifad a rhwymedigaethau a gaiff eu hamsugno gan gyflogwyr eraill. Yn achos rhwymedigaethau amddifad, bydd y Targed Ariannu yn y prisiad gadael yn rhagdybio buddsoddi arian mewn asedau risg isel megis bondiau'r Llywodraeth. Yn achos rhwymedigaethau wedi'u hamsugno, bydd y prisiad gadael yn rhagdybio buddsoddi mewn asedau tebyg i'r rhai a ddelir ar gyfer rhwymedigaethau'r cyflogwr sy'n eu hymgorffori.

Ni waeth a yw'r rhwymedigaethau gweddilliol yn rhwymedigaethau amddifad neu'n rhwymedigaethau wedi'u hamsugno, bydd disgwyl i'r cyflogwr sy'n gadael unioni'r sefyllfa ariannu a ddaw i'r amlwg yn y prisiad gadael. Mewn geiriau eraill, nid yw'r ffaith y gall rhwymedigaethau newid i rwymedigaethau wedi'u hamsugno yn golygu nad oes posibilrwydd y bydd angen codi tâl gadael.

Dan amgylchiadau arferol, polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw y bydd unrhyw ddiffyg a geir wrth i gorff derbyn adael yn daladwy ar unwaith mewn un taliad. Mewn rhai achosion, gall yr Awdurdod Gweinyddu fod yn barod i gytuno ar daliad dros gyfnod o amser fel y caniateir o dan Reoliad 64B. Nodir polisi'r Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â lledaenu dyled ymadael yn Atodiad 5. Ar gyfer cyflogwyr sy'n ymadael â'r Gronfa ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cynnwys lwfans bras yn rhwymedigaethau'r cyflogwr sy'n ymadael am rwymedigaethau ychwanegol posibl sy'n deillio o farn McCloud a'r broses rheoli costau ac ar gyfer costau posibl cydraddoli / mynegeio GMP. Wrth benderfynu ar y lwfans hwn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a baratowyd gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun a chyngor Actiwari'r Gronfa. Bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd wrth i ragor o wybodaeth am ddyfarniad McCloud / y broses Rheoli Costau a chydraddoli / mynegeio GMP ddod ar gael.

**Credydau Ymadael**

Pan fo prisiad ymadael yn datgelu bod gwarged yn y Gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr sy'n ymadael, a bod credyd ymadael i fod i gael ei dalu i'r cyflogwr presennol, bydd yr Awdurdod Gweinyddu, oni chytunir fel arall â'r cyflogwr, yn talu'r credyd ymadael i'r cyflogwr o fewn 6 mis i'r dyddiad ymadael. Os nad yw'r cyflogwr wedi darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Gweinyddu i alluogi Actiwari'r Gronfa i gyfrifo'r rhwymedigaethau terfynol wrth ymadael o fewn 2 fis i'r dyddiad ymadael, bernir bod y cyflogwr wedi cytuno y dylai'r cyfnod o 6 mis redeg o'r dyddiad y darparwyd yr holl ddata angenrheidiol.

Wrth benderfynu faint o unrhyw gredyd ymadael sy'n daladwy, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried y ffactorau canlynol:

(a) i ba raddau y mae gormodedd o asedau yn y Gronfa sy'n ymwneud â'r cyflogwr hwnnw dros y rhwymedigaethau (h.y. gwarged);
(b) cyfran y warged sydd wedi codi oherwydd gwerth cyfraniadau'r cyflogwr;
(c) unrhyw sylwadau a wneir gan y cyflogwr sy'n ymadael ac, os yw'r cyflogwr hwnnw'n cymryd rhan yn y cynllun yn rhinwedd cytundeb derbyn, unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau (8)(a) i (d)(iii) o Ran 3 i Atodlen 2 o'r Rheoliadau; a
(ch) unrhyw ffactorau perthnasol eraill, sy'n cynnwys unrhyw gostau cyfreithiol, actiwaraidd neu gostau eraill a ysgwyddir gan yr Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â'r ymadawiad, o dan ba amgylchiadau y rhoddwyd unrhyw ymrwymiad cynnwys, ac unrhyw drefniadau rhannu risg sydd ar waith. Dylid nodi nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Yn benodol, ni fydd yr Awdurdod Gweinyddu'n talu credyd ymadael yn fwy na chyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr sy'n ymadael a delir i'r Gronfa, llai unrhyw gostau a ysgwyddir gan yr Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â'r ymadawiad.

## Nodi risgiau a gwrthfesurau

**Dull**
Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ceisio nodi pob risg i'r Gronfa ac ystyried y sefyllfa ar y lefel risg gronnol ac unigol. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n monitro'r risgiau i'r Gronfa ac yn cymryd camau gweithredu priodol i gyfyngu ar effaith y rhain lle bynnag y bo modd. Y prif risgiau i'r Gronfa yw:

***Risg buddsoddi***
Mae hyn yn cynnwys y risg na fydd buddsoddiadau'n creu incwm nac yn cynyddu o ran gwerth, yn ôl y rhagolygon, oherwydd pethau megis perfformiad y marchnadoedd ariannol a rheolwyr buddsoddi'r Gronfa, ac ailddyrannu asedau mewn marchnadoedd anwadal. Enghreifftiau o risgiau penodol:

- asedau nad ydynt yn creu'r adenillon angenrheidiol (am ba reswm bynnag, gan gynnwys tanberfformiad gan reolwyr)
- risg systemig gyda'r posibilrwydd o anwadalwch cydgysylltiedig ar yr un pryd yn y marchnadoedd ariannol
- dim digon o arian i gyflawni rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus
- buddsoddiad annigonol, amhriodol neu anghyflawn, a chymryd cyngor actiwaraidd a'i roi ar waith
- methiant gwrth-bartïon

Y risgiau penodol ynglŷn ag asedau a dosbarthiadau asedau:
- ecwitïau – risgiau diwydiant, gwlad, maint a stoc
- incwm sefydlog – cromlin arenillion, risgiau credyd, risgiau amser a risgiau marchnad
- asedau amgen – risgiau hylifedd, risgiau eiddo, risgiau alffa
- marchnad arian – risgiau credyd a risgiau hylifedd
- risgiau arian cyfred
- risgiau macro-economaidd

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n adolygu perfformiad pob rheolwr buddsoddi bob tri mis ac mae'n ystyried dyraniad asedau'r Gronfa bob blwyddyn trwy gynnal adolygiad blynyddol pan fydd yn cwrdd â'i Ymgynghorwyr Buddsoddi, Rheolwyr y Gronfa ac Actiwari'r Gronfa. Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn adolygu effaith symudiadau'r farchnad ar sefyllfa ariannu gyffredinol y Gronfa yn flynyddol.

***Risg Hinsawdd***
Bydd y risgiau systemig a achosir gan newid yn yr hinsawdd a'r polisïau a weithredir i fynd i'r afael â hyn yn newid systemau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol a'r system ariannol fyd-eang yn sylfaenol. Byddant yn effeithio ar bob dosbarth ased, sector, diwydiant a marchnad mewn ffyrdd amrywiol ac ar wahanol adegau, gan greu risgiau a chyfleoedd i fuddsoddwyr. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n parhau i adolygu effaith newid yn yr hinsawdd ar adenillion buddsoddi yn y dyfodol a bydd yn comisiynu cyngor gan Actiwari'r Gronfa ar yr effaith bosibl ar gyllid yn ôl y gofyn.

***Y risg o ran cyflogwyr***
Mae'r risgiau hyn yn deillio o'r cymysgedd o gyflogwyr sy'n newid trwy'r amser, o gyflogwyr tymor byr i'r rhai sy'n gorffen, ynghyd â'r diffyg posib mewn taliadau a/neu rwymedigaethau amddifad lle na all cyflogwyr gyflawni eu rhwymedigaethau i'r Gronfa.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n paratoi Datganiad Strategaeth Ariannu a fydd yn cynnwys digon o fanylder ar sut caiff risgiau ariannu eu rheoli o ran y prif gategorïau cyflogwyr (e.e. cyrff cofrestredig a derbyn) a rhanddeiliaid cronfeydd pensiwn eraill.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro taliadau cyflogwyr ac yn disgwyl i gyflogwyr ymgysylltu â'r Gronfa lle mae eu hamgylchiadau wedi newid, gan nodi y gellir adolygu cyfraniadau rhwng prisiadau ffurfiol os bodlonir yr amodau yn Rheoliadau 64A a thelerau polisi'r Awdurdod Gweinyddu fel y nodir yn Atodiad 4.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cynnal cronfa wybodaeth am gyflogwyr, eu rhesymau dros gyfranogi a'u statws cyfreithiol (e.e. elusennau, cwmnïau cyfyngedig drwy warant, trefniadau grwpiau/is-gwmnïau) a bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio'r Datganiad Strategaeth Ariannu.

***Y risg o ran rhwymedigaethau***

Mae'r prif risgiau'n cynnwys cyfraddau llog, chwyddiant mewn cyflogau a phrisiau, disgwyliad oes, patrymau ymddeol newidiol a risgiau demograffig eraill. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n sicrhau bod Actiwari'r Gronfa'n ymchwilio i'r materion hyn yn ystod pob prisiad neu, os yw'n briodol, yn amlach, a'i fod yn adrodd am ddatblygiadau. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cytuno ag Actiwari'r Gronfa ar unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol i'r rhagdybiaethau sydd wrth wraidd y mesur solfedd er mwyn caniatáu am newidiadau a arsylwir neu a ragwelir.

Os daw newidiadau sylweddol o ran rhwymedigaethau i'r amlwg rhwng prisiadau, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n hysbysu pob cyflogwr cyfranogol o'r effaith ragamcanol ar gostau a fydd yn dod i'r amlwg yn y prisiad nesaf ac yn ystyried a oes angen adolygu unrhyw fondiau sydd yn eu lle ar gyfer cyrff derbyn.

Os yw'n ymddangos yn debygol i'r Awdurdod Gweinyddu fod swm y rhwymedigaethau sy'n codi neu sy'n debygol o godi wedi newid yn sylweddol ers y prisiad diwethaf, gall yr Awdurdod Gweinyddu ystyried diwygio cyfraniadau cyflogwr fel y caniateir gan Reoliad 64A yn unol â pholisi'r Awdurdod Gweinyddu fel y nodir yn Atodiad 4.

***Risg reoliadol***

Mae'r risgiau hyn yn ymwneud â newidiadau i reoliadau cyffredinol a'r rhai sy'n ymdrin yn benodol â'r CPLlL, gofynion pensiwn cenedlaethol neu reolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ymwybodol o'r holl newidiadau arfaethedig diweddaraf. Os gallai unrhyw newid effeithio ar gostau'r Gronfa, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n gofyn i Actiwari'r Gronfa asesu'r effaith bosib ar gostau'r newid. Lle mae'n sylweddol, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n hysbysu cyflogwyr am effaith ac amseriad posib unrhyw newid.

Mae nifer o agweddau ansicr yn gysylltiedig â'r strwythur buddion ar hyn o bryd gan gynnwys:

- Sut y bydd y Llywodraeth yn mynd i'r afael â materion mynegeio a chydraddoli GMP ar gyfer y CPLlL ar ôl i'r datrysiad interim presennol ddod i ben o 6 Ebrill 2021
- Amseriad unrhyw reoliadau mewn perthynas â'r ateb i ddigolledu aelodau am wahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran yn dilyn canlyniad achosion McCloud/Sargeant
- Canlyniad y broses rheoli costau ar 31 Mawrth 2016 a 31 Mawrth 2020, gan nodi bod y Llywodraeth wrthi'n ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r mecanwaith rheoli costau (na ddisgwylir iddynt gael eu gweithredu cyn proses 2020) a bod dyraniad y Llywodraeth o gostau McCloud i aelodau'r cynllun o dan broses 2016 yn agored i gael ei herio.
- Achos Goodwin lle dyfarnodd Tribiwnlys Cyflogaeth (mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Athrawon) fod y darpariaethau llai ffafriol ar gyfer buddion goroeswr aelod benywaidd mewn priodas o'r naill ryw o gymharu â menyw mewn priodas neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Yn dilyn datganiad gweinidogol ysgrifenedig gan brif ysgrifennydd y Trysorlys ar 20 Gorffennaf 2020, disgwylir y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r Rheoliadau CPLlL i adlewyrchu'r dyfarniad, ond nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig eto.

Wrth benderfynu sut y dylid caniatáu ar gyfer yr ansicrwydd hwn yng nghyfraniadau'r cyflogwr, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau a gyhoeddir gan y BCC, gan ystyried cyngor Actiwari'r Gronfa. Ym mhrisiad 2019, cynhwyswyd llwyth sy'n hafal i 0.9% o gyflog o

fewn cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer pob cyflogwr a ardystiwyd gan Actiwari'r Gronfa sy'n adlewyrchu'r costau ychwanegol cyffredinol posibl i'r Gronfa ar gyfer McCloud / Cap Costau fel y cynghorir gan Actiwari'r Gronfa. Ar gyfer cyflogwyr newydd sy'n dechrau cymryd rhan yn y Gronfa ar ôl 1 Ebrill 2019, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cymhwyso'r un llwyth i gyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ag a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2019 o'r Gronfa. Mae'n bosibl y gellir ailedrych ar y lwfans o fewn cyfraddau cyfraniadau gan yr Awdurdod Gweinyddu ac Actiwari'r Gronfa mewn prisiadau yn y dyfodol (neu, os bydd deddfwriaeth yn caniatáu hynny, cyn prisiadau yn y dyfodol) unwaith y bydd y goblygiadau ar gyfer buddion y cynllun a chyfraniadau'r gweithwyr yn gliriach.

Yn ogystal, cyhoeddwyd dogfen ymgynghori gan GTCLlL o'r enw "Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: Newidiadau i'r Cylch Prisio Lleol a Rheoli Risg Cyflogwyr" dyddiedig Mai 2019. Roedd hon yn cynnwys cynnig i newid prisiadau cronfa leol CPLlL i gylchoedd pedeirblynyddol. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n rhoi sylw i unrhyw newidiadau yn y Rheoliadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ac yn ystyried unrhyw gamau sydd eu hangen ym mhrisiadau actiwaraidd y dyfodol, gan ystyried cyngor Actiwari'r Gronfa.

***Y risg o ran hylifedd ac aeddfedrwydd***

Mae'r CPLlL yn destun sawl newid ar hyn o bryd, a bydd pob un o'r rhain yn effeithio ar broffil aeddfedrwydd y CPLlL ac yn arwain at oblygiadau llif arian posib. Mae'r pwyslais cynyddol ar gontractau allanol a dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau yn gallu arwain at y canlynol:

- aelodau gweithredol yn gadael y CPLlL
- trosglwyddo cyfrifoldeb rhwng cyrff gwahanol yn y sector cyhoeddus
- newidiadau i'r cynllun a allai arwain at fwy o bobl yn dewis eithrio eu hunain
- toriadau gwariant a'u goblygiadau

Gallai'r rhain i gyd arwain at ostyngiadau yn y gweithlu a fyddai'n lleihau aelodaeth, lleihau cyfraniadau a chynyddu nifer y bobl sy'n ymddeol cyn amser mewn ffyrdd nad ydynt wedi'u hystyried mewn rhagolygon blaenorol.

Polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw gofyn am gyfathrebu rheolaidd rhyngddo'i hun a chyflogwyr a sicrhau adolygiadau aeddfedrwydd ar lefel y Gronfa a chyflogwr lle nodir materion o bwys.

**Y risg o ran llywodraethu**

Mae hwn yn ymwneud â'r risg o newidiadau strwythurol annisgwyl i aelodaeth y Gronfa (er enghraifft, cyflogwr yn gwrthod ymgeiswyr newydd neu grwpiau o staff yn cael eu tynnu yn ôl neu'n ymddeol ar raddfa fawr), a'r risg gysylltiedig nad yw'r Awdurdod Gweinyddu'n cael ei hysbysu o'r fath newidiadau mewn modd amserol.

Y polisi yw mynnu cyfathrebu rheolaidd rhwng yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr a sicrhau bod eitemau megis trefniadau bondiau, sefyllfa ariannol cyflogwyr nad ydynt yn codi trethi a lefelau ariannu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**Christopher Lee**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau**
**Tachwedd 2021**

## Atodiad 1: Dull a rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r Targed Ariannu

**Targed Solfedd**
Prif nod yr Awdurdod Gweinyddu yw solfedd hirdymor y Gronfa. Yn unol â hyn, caiff cyfraniadau cyflogwyr eu pennu i sicrhau y gellir cyflawni 100% o'r rhwymedigaethau dros y tymor hir trwy ddefnyddio rhagdybiaethau actiwaraidd priodol.

Ystyrir bod y Gronfa'n solfent pan fo'r asedau a ddelir yn gyfartal â neu'n fwy na gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa a asesir trwy ddefnyddio dulliau a rhagdybiaethau actiwaraidd priodol. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n credu y bydd ei strategaeth ariannu'n sicrhau solfedd y Gronfa oherwydd bod gan gyflogwyr ar y cyd y gallu ariannol i gynyddu cyfraniadau cyflogwyr petai angen hyn oherwydd amgylchiadau yn y dyfodol, er mwyn parhau i dargedu lefel ariannu o 100%.

Ar gyfer Cyrff Cofrestredig, a chyrff eraill lle mae Cyflogwr Cynllun o gyfamod cadarn wedi cytuno i roi ei asedau a'i rwymedigaethau ar ôl i'r cyflogwr adael y Gronfa, mae'r Targed Solfedd wedi'i bennu ar lefel a gynghorir gan Actiwari'r Gronfa fel amcan ariannu hirdymor darbodus i'r gronfa ei gyflawni ar ddiwedd y Cyfnod Trywydd, yn seiliedig ar fuddsoddiad parhaus mewn cymysgedd o dwf asedau cyfatebol a fwriadwyd i ddarparu adenillion uwchlaw'r gyfradd cynnydd i bensiynau a chyfrifon pensiwn (MPD).

Yn achos Cyrff Derbyn, cyrff sy'n gwrthod ymgeiswyr eraill a chyrff eraill y credir bod eu cyfranogiad yn y Gronfa am gyfnod cyfyngedig trwy gyfyngiadau hysbys neu gyfamod wedi'i leihau, ac na fyddai modd cael rhagor o arian i'r Gronfa ar ôl iddynt adael y Gronfa, caiff y Targed Solfedd ei bennu trwy ystyried y sail brisio a fyddai'n cael ei mabwysiadu petai'r cyflogwr yn gadael y Gronfa. I'r rhan fwyaf o'r fath gyrff, caiff y Targed Solfedd ei bennu i fod yn gymesur â'r buddsoddiad rhagdybiedig mewn portffolio priodol o fondiau'r Llywodraeth ar ôl i'r cyflogwr adael y Gronfa.

Ar gyfer unrhyw gyflogwyr sydd wedi ymrwymo i gytundeb dyled ohiriedig, disgwylir y bydd y Targed Solfedd yn cael ei bennu drwy ystyried y sail brisio a fyddai'n cael ei mabwysiadu unwaith y daw'r cytundeb dyled ohiriedig i ben. I'r rhan fwyaf o gyrff o'r fath, er mwyn lleihau'r risg i gyflogwyr eraill yn y Gronfa, gellir tybio bod yr asedau tybiannol sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaethau hyn yn cael eu buddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel, megis bondiau'r Llywodraeth.

**Tebygolrwydd o Lwyddiant Ariannu**
Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried bod llwyddiant ariannu wedi'i gyflawni os bydd y Gronfa, ar ddiwedd y Cyfnod Trywydd, wedi bwrw'r Targed Solfedd. Y Tebygolrwydd o Lwyddiant Ariannu yw'r posibilrwydd asesedig o hyn yn digwydd ar sail modelu ased-rhwymedigaeth a gynhelir gan Actiwari'r Gronfa.

Ni fydd yr Awdurdod Gweinyddu'n caniatáu pennu cyfraniadau yn dilyn prisiad os oes ganddynt bosibilrwydd annerbyniol o isel o fwrw'r Targed Solfedd ar ddiwedd y Cyfnod Trywydd perthnasol.

**Targed Ariannu**
Y Targed Ariannu yw swm yr asedau y mae eu hangen ar y Gronfa ar y dyddiad prisio er mwyn talu'r rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw fel y nodir gan y dull a'r rhagdybiaethau prisio a ddewisir a'r data prisio. Mae'r cyfrifiadau prisio, gan gynnwys cyfraniadau gwasanaethau yn y dyfodol ac unrhyw addasiad ar gyfer arian dros ben neu ddiffyg arian, yn pennu lefel y cyfraniadau sy'n daladwy ac yn penderfynu'r posibilrwydd o fwrw'r Targed Solfedd ar ddiwedd y Cyfnod Trywydd (a ddiffinnir isod).

Yn gyson â'r nod o gadw cyfradd sylfaenol cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl:

- Pennir cyfraddau cyfraniadau trwy ddefnyddio'r dull prisio Unedau Rhagamcanol ar gyfer y rhan fwyaf o gyflogwyr. Defnyddir y dull

Unedau Rhagamcanol yn y prisiad actiwaraidd i bennu cost buddion sy'n cronni i'r Gronfa yn gyffredinol ac i gyflogwyr sy'n parhau i dderbyn aelodau newydd. Mae hyn yn golygu bod cyfradd cyfraniadau gwasanaethau'r dyfodol yn cael ei chyfrifo fel cost buddion sy'n cronni i aelodau sy'n gyflogeion dros y flwyddyn ar ôl dyddiad y prisiad ar ffurf canran cyflog pensiynadwy'r aelodau dros y cyfnod hwnnw.

- I gyflogwyr nad ydynt yn derbyn aelodau newydd mwyach, mae'r dull prisio Cyrhaeddiad Oedran yn cael ei ddefnyddio fel arfer. Mae hyn yn golygu bod y gyfradd cyfraniadau'n cael ei chyfrifo fel cost gyfartalog buddion sy'n cronni i aelodau dros y cyfnod nes iddynt farw, gadael y Gronfa neu ymddeol.

**Ariannu Llawn a Solfedd**

Ystyrir bod y Gronfa wedi'i hariannu'n llawn pan fo'r asedau a ddelir yn gyfwerth â 100% o'r Targed Ariannu. Pan fo'r asedau a ddelir yn fwy na'r swm hwn, ystyrir bod gan y Gronfa arian dros ben, a phan fo'r asedau a ddelir yn llai na'r swm hwn, ystyrir bod y Gronfa mewn diffyg.

Ystyrir bod y Gronfa'n solfent pan fo'r asedau a ddelir yn gyfwerth â neu'n fwy na 100% o'r Targed Solfedd.

**Cyfnodau Trywydd**

Ystyr y Cyfnod Trywydd mewn perthynas â chyflogwr yw'r cyfnod rhwng dyddiad y prisiad a'r dyddiad pan fwriedir cyflawni solfedd.

## Atodiad 2: Is-gronfeydd tybiannol ar gyfer cyflogwyr unigol

**Ymestyn is-gronfeydd**

Caiff yr is-gronfa dybiannol a ddyrennir i bob cyflogwr ei hymestyn i ganiatáu am lifoedd arian sy'n gysylltiedig ag aelodaeth y cyflogwr, gan gynnwys incwm cyfraniadau, treuliau budd-daliadau, trosglwyddiadau i mewn ac allan ac incwm buddsoddi a ddyrennir fel y nodir isod. Yn gyffredinol, ni chaniateir am amseriad cyfraniadau a rhagdybir y caiff llifoedd arian ar gyfer pob blwyddyn eu gwneud hanner ffordd drwy'r flwyddyn gan ragdybio y bydd adenillion o fuddsoddiadau'n cael eu hennill yn gyson dros y flwyddyn honno.

Gwneir rhagor o addasiadau ar gyfer:

- Didyniad tybiannol ar gyfer y treuliau a dalwyd o'r Gronfa yn unol â'r rhagdybiaeth a ddefnyddiwyd yn y prisiad blaenorol.
- Caniatáu am unrhyw drosglwyddiadau mewnol sylweddol hysbys yn y Gronfa (ni fydd llifoedd arian yn bodoli ar gyfer y trosglwyddiadau hyn). Bydd Actiwari'r Gronfa yn rhagdybio llif arian amcangyfrifedig sy'n hafal i werth y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod yn seiliedig ar ffactorau priodol a bennwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.
- Caniatáu am gyfandaliad marwolaeth yn y swydd a buddion eraill a rennir rhwng pob cyflogwr yn y Gronfa (gweler uchod).
- Addasiad cyffredinol i sicrhau bod yr asedau tybiannol a briodolir i bob cyflogwr yn gyfwerth â chyfanswm asedau'r Gronfa a fydd yn ystyried unrhyw enillion neu golledion yn ymwneud â rhwymedigaethau amddifad.

Mewn rhai achosion, ni fydd y wybodaeth sydd ar gael yn caniatáu am gyfrifiadau llifoedd arian o'r fath. Yn y fath amgylchiadau:

- Os bydd Actiwari'r Gronfa o'r farn nad oes perthnasedd mawr i'r diffyg data am lifoedd arian, caiff amcangyfrifon o lifoedd arian eu defnyddio.
- Os bydd Actiwari'r Gronfa o'r farn bod y data llifoedd arian nad yw ar gael yn berthnasol, bydd Actiwari'r Gronfa yn defnyddio dadansoddiad o'r enillion a'r colledion i estyn

yr is-gronfa dybiannol. Mae dadansoddiadau o ddulliau enillion a cholledion yn llai manwl gywir na defnyddio llifoedd arian ac maent yn ymwneud â chyfrifo enillion a cholledion sy'n gysylltiedig â'r arian dros ben neu'r diffyg arian a nodir yn y prisiad blaenorol. Wedi nodi arian dros ben neu ddiffyg arian disgwyliedig yn y prisiad hwn, bydd cymharu hyn â'r rhwymedigaethau a werthuswyd yn y prisiad hwn yn awgrymu bod asedau tybiannol yn cael eu dal.
- Caiff dadansoddiadau o ddulliau enillion a cholledion eu defnyddio hefyd lle ymddengys fod canlyniadau'r dull llif arian yn annibynadwy oherwydd trosglwyddiadau mewnol anhysbys.

**Priodoli incwm buddsoddi**

Os bydd yr Awdurdod Gweinyddu wedi cytuno â chyflogwr y dyrennir portffolio asedau pwrpasol i'r cyflogwr yn dybiannol, rhoddir cyfradd adenillion i'r asedau sydd wedi'u dyrannu'n dybiannol i'r cyflogwr hwnnw sy'n gyson â'r portffolio asedau tybiannol cytunedig.

Os na ddyrennir portffolio asedau tybiannol pwrpasol i'r cyflogwr, rhoddir y gyfradd adenillion a enillir gan asedau'r Gronfa yn gyffredinol i'r asedau sydd wedi'u dyrannu'n dybiannol i'r cyflogwr hwnnw, wedi'u haddasu ar gyfer unrhyw adenilliad a roddir i'r cyflogwyr hynny sydd â phortffolio asedau tybiannol pwrpasol.

## Atodiad 3: Grwpiau / Cyfuno

**Grŵp Cynghorau Tref a Chymuned**

Cyfranogwyr gweithgar y Grŵp, ar ddyddiad ysgrifennu'r Datganiad hwn, yw:

- Cyngor Tref y Bont-faen
- Cyngor Tref Llanilltud Fawr
- Cyngor Tref Penarth
- Cyngor Tref y Barri
- Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth
- Cyngor Cymuned Llys-faen
- Cyngor Cymuned Gwenfô
- Cyngor Cymuned Pen-llin
- Cyngor Cymuned Pentyrch

Yn ogystal, mae rhwymedigaethau'n gysylltiedig â'r cyrff canlynol nad oes ganddynt unrhyw aelodau gweithredol ar hyn o bryd. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn parhau i fod yn rhan o rwymedigaethau'r grŵp:

- Neuadd Goffa'r Barri
- Cyngor Cymuned Dinas Powys
- Cyngor Cymuned Sili

Ar hyn o bryd, mae cyfranogwyr gweithredol y grŵp yn talu'r un ganran o'r gyfradd cyfraniadau cyflog sy'n cynnwys cyfraniad tuag at ddiffyg y grŵp.

Os nad oes gan Gyngor Tref neu Gymuned aelodau cyfrannog, daw'n gyflogwr sy'n ymadael dan Reoliad 64 (1) oni bai bod hysbysiad atal dros dro wedi'i ddyroddi (gellir dyroddi hysbysiad atal am gyfnod o hyd at dair blynedd os oes tebygolrwydd rhesymol y bydd aelod gweithredol yn ymuno â'r Gronfa o fewn y cyfnod atal dros dro (Rheoliadau 64 (2A) i 64 (2C)).

O ystyried bod y rhwymedigaethau fel arfer yn fach, ni fydd yr Awdurdod Gweinyddu'n disgwyl i gyflogwr sy'n ymadael wneud taliad ymadael na chael unrhyw gredyd gadael oni bai bod y cyflogwr sy'n gadael yn cael effaith berthnasol ar gyflogwyr eraill yn y Grŵp. Bydd yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cyflogwr presennol yn parhau'n rhan o'r Grŵp.

Yn yr un modd, ni fydd disgwyliad y bydd cyflogwr

â hysbysiad atal yn gwneud unrhyw gyfraniadau yn ystod y cyfnod atal oni bai ei fod yn cael effaith berthnasol ar gyflogwyr eraill yn y Grŵp.

**Grŵp Colegau**
Y cyfranogwyr gweithredol, ar ddyddiad ysgrifennu'r Datganiad hwn, yw:

- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Caerdydd a'r Fro (gan gynnwys hen rwymedigaethau o ran Coleg Glan Hafren a Choleg y Barri)
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd (gan gynnwys hen rwymedigaethau o ran Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd)

Mae'r gyfradd cyfraniadau yn gyfradd cyfraniadau sylfaenol (gwasanaeth yn y dyfodol) gyffredin a chyfraniad at ddiffyg y grŵp wedi'i mynegi fel swm ariannol (wedi'i gyfrifo'n gyffredinol yn gymesur â chyflogres y cyflogwr ar y dyddiad prisio, ond gellid defnyddio dull arall yn y dyfodol pe bai'r Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod hynny'n briodol).

Os nad oes gan Goleg neu Brifysgol unrhyw aelodau sy'n cyfrannu, daw yn gyflogwr sy'n ymadael o dan Reoliad 6 (1) oni bai bod hysbysiad atal dros dro wedi'i ddyroddi (gellir dyroddi hysbysiad atal am gyfnod o hyd at dair blynedd os oes tebygolrwydd rhesymol y bydd aelod gweithredol yn ymuno â'r gronfa o fewn y cyfnod atal dros (Rheoliadau 64(2A) i 64(2C)).

Cyfrifir prisiad ymadael ar gyfer cyflogwr sy'n ymadael yn seiliedig ar ei gyfran o asedau'r grŵp (fel y'u pennwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu yn seiliedig ar gyngor a roddwyd gan Actiwari'r Gronfa).

**Grŵp Cyfuno Cyngor Caerdydd**
Mae Grŵp Cyngor Caerdydd, ar ddyddiad ysgrifennu'r Datganiad hwn, yn cynnwys rhwymedigaethau mewn perthynas â:

- Chyflogeion a chyn-gyflogeion Cyngor Caerdydd
- Cyn-gyflogeion:
  - Corfforaeth Caerdydd
  - Cyngor Dinas Caerdydd a
  - Chyngor Sir De Morgannwg (72.37% yn unig)
- Cyflogwyr a gyfunwyd o ganlyniad i, neu a amsugnwyd yn dilyn rhoi'r gorau i, roi gwasanaethau neu ymarferion ailstrwythuro ar gontract allanol:
  - Bws Caerdydd (rhwymedigaethau y gellir eu priodoli i wasanaeth cyn 26 Hydref 1986) (yr holl rwymedigaethau o bosibl – yn cael ei ystyried ar hyn o bryd)
  - Race Equality First
  - Caerdydd ar y Cyd
  - App Cleaning Limited (Ysgol Teilo Sant)
  - GLL
  - A&R Cleaning (Ysgol Lansdowne)
  - Gwasanaeth Glanhau Ysgol Gynradd Grangetown (App)
  - Circle IT (Ysgol Uwchradd y Dwyrain)
  - Glen Cleaning (Ysgol Uwchradd y Dwyrain)
  - A&R Cleaning (Ysgol Gynradd Gabalfa)
  - A&R Cleaning (Ysgol Gynradd Greenway)
  - A&R Cleaning (Ysgol Gynradd Trowbridge)

**Grŵp Cyfuno Cyngor Bro Morgannwg**
Mae Grŵp Cyngor Bro Morgannwg, ar ddyddiad ysgrifennu'r Datganiad hwn, yn cynnwys rhwymedigaethau mewn perthynas â:

- Chyflogeion hen a newydd Cyngor Bro Morgannwg
- Cyn-gyflogeion Cyngor Sir De Morgannwg (27.63% yn unig)
- Cyflogwyr a gyfunwyd o ganlyniad i, neu a amsugnwyd yn dilyn rhoi'r gorau i, roi gwasanaethau neu ymarferion ailstrwythuro ar gontract allanol:
  - Ysgol Gyfun Sant Cyres
  - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (cyflogwr fel rhan o drefniant cyfuno wedi cael cyfradd cyfraniadau sefydlog o 20.7% o dâl pensiynadwy)
  - Glen Cleaning (Ysgol Gyfun y Barri)
  - Glen Cleaning (Ysgol Gynradd Llandochau)
  - Circle IT (Y Bont-faen)
  - Glen Cleaning (Ysgol Gynradd Gladstone)
  - A&R Cleaning (Ysgol Heol Fawr y Barri)

## Atodiad 4: Polisi ar adolygu cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau actiwaraidd teirblwydd

Mae'r Rheoliadau yn gofyn am brisiad actiwaraidd teirblwydd o'r Gronfa. Fel rhan o bob prisiad actiwaraidd, asesir cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar wahân gan yr actiwari ar gyfer pob cyflogwr neu grŵp o gyflogwyr sy'n cymryd rhan. Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn monitro'r sefyllfa a chaiff ddiwygio cyfraniadau rhwng prisiadau fel y caniateir gan Reoliadau 64(4) a 64A.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried adolygu cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau ffurfiol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae'n ymddangos yn debygol i'r Awdurdod Gweinyddu fod swm y rhwymedigaethau sy'n codi neu'n debygol o godi wedi newid yn sylweddol ers y prisiad diwethaf;
- os yw'n ymddangos yn debygol i'r Awdurdod Gweinyddu y bu newid sylweddol yng ngallu cyflogwr neu gyflogwyr y Cynllun i gyflawni rhwymedigaethau cyflogwyr yn y Cynllun;
- os yw'n ymddangos yn debygol i'r Awdurdod Gweinyddu y bydd cyflogwr y Cynllun yn dod yn gyflogwr sy'n ymadael; neu
- mae cyflogwr neu gyflogwyr y Cynllun wedi gofyn am adolygiad o gyfraniadau cyflogwr y Cynllun ac wedi ymrwymo i dalu costau'r adolygiad hwnnw.

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried adolygiad o gyfraniadau o dan Reoliad 64A ar sail newid yn amodau'r farchnad sy'n effeithio ar werth asedau a/neu rwymedigaethau yn unig.

Wrth benderfynu a ddylid cynnal adolygiad o dan Reoliad 64A ai peidio, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried y ffactorau canlynol (gan nodi nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- yr amgylchiadau sy'n arwain at y newid mewn rhwymedigaethau sy'n codi neu'n debygol o godi, er enghraifft oherwydd ailstrwythuro cyflogwr, proses sylweddol o roi staff ar gontract allanol neu drosglwyddo staff, colli contract sylweddol, cau ar gyfer newydd-ddyfodiaid, diswyddiadau perthnasol, dyfarniadau cyflog sylweddol, neu newidiadau sylweddol eraill i'r aelodaeth oherwydd ymddeoliadau oherwydd salwch neu alldyniadau gwirfoddol;
- pa mor berthnasol yw unrhyw newid yn aelodaeth neu rwymedigaethau'r cyflogwr, gan ystyried barn Actiwari'r Gronfa ynghylch sut y gallai hyn effeithio ar ei sefyllfa ariannu, ei gyfradd cyfraniadau sylfaenol neu eilaidd;
- a yw'r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cael cyngor gan Actiwari'r Gronfa, yn credu y byddai cyfiawnhad dros newid y targed ariannu neu'r cyfnod adennill diffyg, e.e. ar ddarparu neu ddileu unrhyw ddiogelwch, ymrwymiad cynnwys, bond, gwarant, trefniant rhannu risg, neu fath arall o indemniad mewn perthynas â rhwymedigaethau'r cyflogwr yn y Gronfa;
- pa mor berthnasol yw unrhyw newid yng nghryfder ariannol y cyflogwr neu'r rhagolygon ariannol tymor hwy, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y cyflogwr ac a gefnogir gan asesiad risg ariannol neu adolygiad cyfamod manylach a gynhaliwyd gan Actiwari'r Gronfa neu gynghorydd cyfamod arall i'r Gronfa;
- lefel gyffredinol yr ymgysylltu gan y cyflogwr a'i gydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau cyfreithiol fel y nodir yn y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau ac mewn mannau eraill, gan gynnwys natur ac amlder unrhyw achosion o dorri amodau megis methu â thalu cyfraniadau'n brydlon.

Ar gyfer cyflogwr lle gellir adolygu cyfraniadau o dan Reoliad 64(4), gall yr amgylchiadau canlynol sbarduno adolygiad, a all fod yn anffurfiol yn ogystal â phrisiad interim llawn (ni fwriedir i hyn fod yn rhestr gynhwysfawr):

- gofynnwyd am adolygiad gan y gwarantwr neu'r cyflogwr cynnwys perthnasol, neu ar gyfer y trosglwyddai a chyrff derbyn Atodlen 2 Rhan 3 (1)(d), cyflogwr perthnasol y cynllun;
- newid sylweddol mewn amgylchiadau, megis y dyddiad ymadael yn dod i'r amlwg, y cyflogwr yn cau'r cynllun i newydd-

ddyfodiaid, symudiadau aelodaeth perthnasol neu wybodaeth ariannol berthnasol yn dod i'r amlwg;

Ar gyfer cyflogwr y disgwylir i'w gyfranogiad ddod i ben o fewn y 3 blynedd nesaf, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n monitro datblygiadau a gall ofyn am brisiad interim ar unrhyw adeg.

Heb ystyried y canllawiau uchod, mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cadw'r hawl i ofyn am brisiad interim o unrhyw gyflogwr ar unrhyw adeg os yw Rheoliad 64(4) neu 64A yn berthnasol, a all arwain at amserlen gyfrannu ddiwygiedig ar gyfer y cyflogwr.

Pan fo cyfraniadau'n cael eu hadolygu ar gyfer cyflogwr sydd â chysylltiadau â chyflogwr arall yn y Gronfa, yn enwedig os yw hwn yn gyswllt sefydliadol neu gytundebol ffurfiol, e.e. mae gwarant ffurfiol, ymrwymiad cynnwys neu drefniant rhannu risg ar waith, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried risg ac effaith bosibl yr adolygiad cyfraniadau ar y cyflogwr/cyflogwyr eraill hynny, gan gymryd cyngor gan actiwari'r Gronfa yn ôl y gofyn.

Pan fo'r Awdurdod Gweinyddu, yn dilyn sylwadau gan y cyflogwr, yn ystyried peidio â chynyddu cyfraniadau'r cyflogwr yn dilyn adolygiad, er bod rheswm da dros wneud hynny o safbwynt ariannu ac actiwaraidd, e.e. pe bai'n achosi methiant y cyflogwr neu fel arall yn amharu'n ddifrifol ar allu'r cyflogwr i gyflawni ei amcanion sefydliadol neu y disgwylir y bydd sefyllfa ariannol y cyflogwr yn gwella'n sylweddol yn y tymor agos, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ymgynghori ag unrhyw gyflogwyr cysylltiedig gyda'r bwriad o geisio eu cytundeb â'r dull hwn.

Mewn llawer o achosion, bydd angen gwybodaeth gan y cyflogwr, e.e. mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol a'i gynlluniau busnes a allai fod yn gatalydd ar gyfer hysbysu'r cyflogwr bod adolygiad yn cael ei gynnig. Disgwylir y bydd y cyflogwr, yn y rhan fwyaf o achosion, yn ymwybodol o'r adolygiad arfaethedig o'i gyfraniadau gan y bydd hyn yn cael ei sbarduno gan weithred cyflogwr a dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol o'r angen i ymgysylltu â'r Gronfa mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd a allai effeithio'n sylweddol ar eu rhwymedigaethau neu eu gallu i fodloni'r rhwymedigaethau hynny.

Beth bynnag, ym mhob achos bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cynghori'r cyflogwr bod adolygiad yn cael ei gynnal ac yn rhannu canlyniadau'r adolygiad ac unrhyw asesiad risg neu gyfamod fel y bo'n briodol.  Dylid nodi nad yw'r ffaith bod adolygiad yn cael ei gynnal yn golygu'n awtomatig y bydd cyfraniadau'n cael eu diwygio (i fyny neu i lawr) gan y bydd hynny'n dibynnu ar ba mor berthnasol yw'r newidiadau a ffactorau eraill megis canlyniad trafodaethau gyda'r cyflogwr ac unrhyw gyflogwr cysylltiedig yn y Gronfa ac agosrwydd at y prisiad ffurfiol nesaf.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ymgynghori â'r cyflogwr ynghylch amseriad unrhyw newidiadau i'r cyfraniadau a bydd o leiaf 4 wythnos o rybudd yn cael ei roi o unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau. Wrth benderfynu a fydd unrhyw newidiadau i gyfraniadau'n dod i rym, a phryd y byddant yn dod i rym, bydd yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yn ystyried amseriad newidiadau i gyfraniadau yn dilyn y prisiad ffurfiol nesaf. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd adolygiadau cyfraniadau'n cael eu cynnal yn ystod y cyfnod o 12 mis o'r dyddiad prisio, er pe bai unrhyw newidiadau perthnasol i'r swm disgwyliedig o rwymedigaethau sy'n codi neu allu'r cyflogwr i fodloni'r rhwymedigaethau hynny yn ystod y cyfnod hwnnw, dylid ystyried hyn wrth gwblhau'r Dystysgrif Ardrethi ac Addasiadau fel rhan o'r prisiad.

Pan ddaw’r cais am adolygiad gan y cyflogwr, cyn cyflwyno ei gais, dylai’r cyflogwr ystyried y gofynion rheoliadol a pholisi’r Gronfa fel y nodir uchod a bodloni ei hun y bu newid perthnasol yn y swm disgwyliedig o rwymedigaethau neu ei allu i fodloni’r rhwymedigaethau hynny. Dylai’r cyflogwr gysylltu â’r Awdurdod Gweinyddu a chwblhau’r gofynion gwybodaeth angenrheidiol i’w cyflwyno i’r Awdurdod Gweinyddu i gefnogi ei gais.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu’n ystyried cais y cyflogwr a gall ofyn am ragor o wybodaeth neu ddogfennaeth/tystiolaeth ategol yn ôl y gofyn. Os yw’r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cymryd cyngor actiwaraidd yn ôl y gofyn, o’r farn bod cyfiawnhad dros adolygiad, bydd yn cynghori’r cyflogwr ac yn darparu cost ddangosol. Yn ogystal, dylai cyflogwyr gadw at y fframwaith digwyddiadau hysbysadwy fel y nodir yn y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau. Dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol y bydd yr holl ffioedd cynghori, gan gynnwys costau actiwaraidd, cyfreithiol ac unrhyw gostau eraill a ysgwyddir gan y Gronfa sy’n gysylltiedig â chais am adolygiad o gyfraniadau, p’un a yw hyn yn arwain at ddiwygio cyfraniadau ai peidio, yn cael eu hailgodi i’r cyflogwr.

---

## Atodiad 5: Polisi ar ledaenu taliadau ymadael a chytundebau dyled ohiriedig

### Lledaenu taliadau ymadael

Man cychwyn yr Awdurdod Gweinyddu yw y bydd yn ofynnol i gyflogwr sy’n ymadael dalu unrhyw atebolrwydd ymadael sy’n ddyledus fel un cyfandaliad. Fodd bynnag, caiff yr Awdurdod Gweinyddu ganiatáu taliadau ymadael fesul cam fel y caniateir o dan Reoliad 64B.

Rhagwelir mai dim ond ar gais cyflogwr y bydd y taliadau ymadael yn cael eu hystyried. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu wedyn yn ymgysylltu â’r cyflogwr i ystyried ei gais ac i benderfynu a yw lledaenu’r taliad ymadael yn briodol a’r telerau a ddylai fod yn berthnasol.

Wrth benderfynu a ddylid caniatáu i daliad ymadael gael ei ledaenu, bydd yr Awdurdod Gweinyddu’n ystyried ffactorau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- allu’r cyflogwr i wneud un taliad cyfalaf;
- a oes unrhyw ddiogelwch ar waith, gan gynnwys tâl dros asedau, bond, gwarant neu indemniad arall;
- a yw’r adferiad cyffredinol i’r Gronfa yn debygol o fod yn uwch os caniateir lledaenu’r taliad ymadael.

Wrth benderfynu ar allu’r cyflogwr i wneud un taliad, bydd yr Awdurdod Gweinyddu’n ceisio cyngor actiwaraidd, cyfamod neu gyfreithiol yn ôl y gofyn. Os yw’r Awdurdod Gweinyddu o’r farn bod y cyflogwr yn gallu gwneud un taliad cyfalaf yn ariannol, ni fydd fel arfer yn briodol i’r taliad ymadael gael ei ledaenu.

Bydd yn ofynnol i’r cyflogwr ddarparu manylion ei sefyllfa ariannol, ei gynlluniau busnes a’i ragolygon ariannol ac unrhyw wybodaeth arall sy’n ofynnol gan yr Awdurdod Gweinyddu er mwyn iddo benderfynu a ddylid caniatáu i’r taliad ymadael gael ei ledaenu ai peidio. Rhaid darparu’r wybodaeth hon o fewn 2 fis i’r cais.

Wrth bennu’r amser priodol ar gyfer lledaenu taliad ymadael, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried fforddiadwyedd y rhandaliadau gan

ddefnyddio cyfnodau lledaenu gwahanol i'r cyflogwr. Bydd y cyfnod lledaenu diofyn hyd at 3 blynedd ond gellir ystyried cyfnodau hirach pan fo'r Awdurdod Gweinyddu'n fodlon nad yw hyn yn peri risg ddiangen i'r Gronfa mewn perthynas â gallu'r cyflogwr i barhau i wneud taliadau dros y cyfnod.

Er mai dewis yr Awdurdod Gweinyddu fyddai i gyflogwr ofyn am ledaeniad ar gyfer unrhyw daliad ymadael cyn y dyddiad ymadael, cydnabyddir efallai na fydd hyn yn bosibl tan ar ôl i'r cyflogwr adael y Gronfa. Lle mae gwarantwr neu gyflogwr cynnwys, ymgynghorir hefyd â'r gwarantwr/cyflogwr cynnwys a gall unrhyw gytundeb i ledaenu'r diffyg ymadael fod yn amodol ar y warant yn parhau mewn grym yn ystod y cyfnod lledaenu.

Yn gyffredinol, cyfrifir swm y rhandaliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb lledaenu diffyg ymadael fel symiau blynyddol fflat sy'n caniatáu ar gyfer llog dros y cyfnod lledaenu yn unol â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaethau ymadael. Fel arall, efallai y bydd angen taliadau misol, neu efallai y bydd angen taliad cychwynnol uwch ar yr Awdurdod Gweinyddu gyda thaliadau blynyddol is wedi hynny i leihau'r risg i'r Gronfa.  Gellir gwneud trefniadau talu amgen mewn amgylchiadau eithriadol cyn belled â bod yr Awdurdod Gweinyddu'n fodlon nad ydynt yn cynyddu'r risg i'r Gronfa yn sylweddol.

Lle cytunwyd i ledaenu taliad ymadael, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cynghori'r cyflogwr yn ysgrifenedig o'r trefniant, gan gynnwys y cyfnod lledaenu, y taliadau blynyddol sy'n ddyledus, unrhyw gostau eraill sy'n daladwy gan gynnwys costau actiwaraidd a chyfreithiol a chyfrifoldebau'r cyflogwr yn ystod y cyfnod lledaenu. Os gwrthodwyd cais i ledaenu taliad ymadael, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cynghori'r cyflogwr yn ysgrifenedig ac yn rhoi esboniad byr o'r rhesymeg dros y penderfyniad.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cymryd cyngor actiwaraidd, cyfamod, cyfreithiol a chyngor arall fel yr ystyrir yn angenrheidiol. Yn ogystal, bydd disgwyl i gyflogwyr ymgysylltu â'r Awdurdod Gweinyddu yn ystod y cyfnod lledaenu a chadw at y fframwaith digwyddiadau hysbysadwy fel y nodir yn y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau. Os oes gan yr Awdurdod Gweinyddu reswm i gredu bod amgylchiadau'r cyflogwr wedi newid fel bod adolygiad o'r cyfnod lledaenu (ac felly'r symiau talu) yn briodol, bydd yn ymgynghori â'r cyflogwr a gellir gweithredu amserlen dalu ddiwygiedig. Er y gallai'r adolygiad hwn hefyd ystyried amlder y taliadau, dylid nodi na ragwelir y bydd unrhyw adolygiad yn ystyried newidiadau i'r swm ymadael gwreiddiol na'r gyfradd llog sy'n gymwys.  Bydd cyflogwr yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau o dan y trefniant lledaenu drwy dalu pob rhandaliad yn y dyfodol yn ôl ei ddisgresiwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ceisio cyngor actiwaraidd mewn perthynas ag a ddylai fod gostyngiad ar gyfer taliad cynnar o ystyried y bydd llog wedi'i ychwanegu yn unol â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir ar gyfer y prisiad ymadael.

**Cytundebau dyled ohiriedig (CDOau)**
O dan Reoliad 64(7A) o'r Rheoliadau, caiff awdurdod gweinyddu ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig gyda chyflogwr sy'n ymadael i'r cyflogwr hwnnw ohirio ei rwymedigaeth i wneud taliad ymadael a pharhau i wneud cyfraniadau ar y gyfradd eilradd.

Mae polisi'r Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â lledaenu taliadau ymadael o dan Reoliad 64(7A) wedi'i nodi isod.

Wrth benderfynu a ddylid ymrwymo i CDO gyda chyflogwr ai peidio, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried y ffactorau canlynol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Berthnasedd y cyflogwr ac unrhyw ddiffyg ymadael o ran y Gronfa gyfan;
- Y risg i'r Gronfa o ymrwymo i CDO, o ran y tebygolrwydd y bydd y cyflogwr yn methu cyn i'r CDO ddod i ben, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y cyflogwr ac a gefnogir yn gyffredinol gan asesiad risg ariannol neu adolygiad cyfamod manylach a gynhaliwyd gan Actiwari'r Gronfa neu gynghorydd cyfamod arall;
- Y rhesymeg dros y cyflogwr yn gofyn am CDO, yn enwedig os yw'r Awdurdod Gweinyddu'n credu y byddai'n gallu gwneud taliad ar unwaith i dalu am y diffyg ymadael;
- A fydd taliad ymlaen llaw yn cael ei wneud tuag at y diffyg, a/neu a oes unrhyw ddiogelwch ar waith, neu y gellir ei roi ar waith, gan gynnwys tâl dros asedau, bond, gwarant neu indemniad arall, i leihau'r risg i gyflogwyr eraill.

Os disgwylir y gall cyfamod y cyflogwr wanhau'n sylweddol dros amser, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn annhebygol iawn o ystyried ymrwymo i CDO gyda'r cyflogwr hwnnw. At hynny, lle mae'n amlwg y gall cyflogwr dalu'r taliad ymadael mewn un rhandaliad, byddai'r Awdurdod Gweinyddu'n annhebygol o ymrwymo i CDO oni bai ei bod yn amlwg na fyddai hyn yn cynyddu'r risg i'r Gronfa, e.e. pe bai'r cyflogwr yn cael ei gefnogi'n llawn gan y trethdalwr a bod digon o sicrwydd ar gael y caiff yr holl gyfraniadau sy'n ddyledus, gan gynnwys unrhyw ddiffyg gweddilliol ar ddiwedd y CDO, yn cael eu bodloni'n llawn.

Rhagwelir mai dim ond ar gais cyflogwr yr eir i CDOau. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ymgysylltu/ymgynghori â'r cyflogwr i ystyried y cais a phenderfynu a yw CDO yn briodol ai peidio a'r telerau a ddylai fod yn berthnasol. Fel rhan o'i gais am CDO, bydd angen gwybodaeth ar yr Awdurdod Gweinyddu gan y cyflogwr i alluogi'r Awdurdod Gweinyddu i lunio barn ar gryfder cyfamod y cyflogwr. Bydd angen gwybodaeth yn barhaus hefyd er mwyn gallu monitro cryfder/cyfamod ariannol y cyflogwr. Disgwylir y bydd y CDOau yn cael eu monitro'n flynyddol oni bai bod amgylchiadau'n pennu fel arall. Gall monitro fod yn amlach wrth i ddiwedd cyfnod y CDO agosáu.

Mae'r materion y bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n eu hadlewyrchu yn y CDO yn cynnwys:

- Ymrwymiad gan y cyflogwr i fodloni'r holl ofynion ar gyflogwyr y Cynllun, gan gynnwys talu cyfradd cyfraniadau eilradd, ond heb gynnwys y gofyniad i dalu cyfradd cyfraniadau gynradd;
- Darpariaeth i'r CDO aros mewn grym am gyfnod penodedig, y gellir ei amrywio drwy gytundeb yr Awdurdod Gweinyddu a'r cyflogwr gohiriedig;
- Darpariaeth y bydd y CDO yn dirwyn i ben ar y dyddiad cyntaf y bydd un o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd-
    - o bod y cyflogwr gohiriedig yn cofrestru aelodau gweithredol newydd;
    - o bod y cyfnod a bennir, neu fel y'i hamrywiwyd, yn mynd heibio;
    - o cymryd drosodd, cyfuno, ansolfedd, dirwyn-i-ben neu ddiddymu'r cyflogwr gohiriedig;
    - o bod yr Awdurdod Gweinyddu yn

cyflwyno hysbysiad i'r cyflogwr gohiriedig ei fod yn rhesymol fodlon bod gallu'r cyflogwr gohiriedig i dalu'r cyfraniadau sy'n daladwy o dan y trefniant dyled ohiriedig wedi gwanhau'n sylweddol neu'n debygol o wanhau'n sylweddol yn ystod y 12 mis nesaf; neu

  - o mae Actiwari'r Gronfa yn asesu bod y cyflogwr gohiriedig wedi talu digon o gyfraniadau eilradd i dalu'r taliad ymadael a fyddai wedi bod yn ddyledus pe bai'r cyflogwr wedi dod yn gyflogwr sy'n ymadael ar y dyddiad cyfrifo.
- Cyfrifoldebau'r cyflogwr gohiriedig;
- Yr amgylchiadau sy'n arwain at ddileu'r trefniant gan arwain at daliad (neu gredyd) ymadael yn dod yn daladwy, yn ogystal â'r rhai a nodir yn Rheoliad 64 (7E) ac fel uchod.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n monitro'r sefyllfa ariannu a'r risg/cyfamod sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gohiriedig yn rheolaidd. Bydd hyn o leiaf bob teirblwydd ac yn fwyaf tebygol bob blwyddyn, ond bydd yr amlder yn dibynnu ar ffactorau fel maint y cyflogwr ac unrhyw ddiffyg a pha mor berthnasol yw symudiadau yn amodau'r farchnad neu aelodaeth y cyflogwr.

Mae'r amgylchiadau lle y caiff yr Awdurdod Gweinyddu ystyried ceisio cytuno ar amrywiad i hyd y cytundeb o dan reoliad 64(7D) yn cynnwys:

- Pan fo'r diffyg ymadael wedi lleihau (cynyddu) fel ei bod yn rhesymol lleihau (ymestyn) hyd y cyfnod adfer a chyfnod cysylltiedig y CDO gan dybio, yn achos yr olaf, nad yw hyn yn cynyddu'r risg i'r cyflogwyr/Cronfa arall yn sylweddol;
- Pan fo cynlluniau busnes, lefelau staffio, cyllid neu gyllid rhagamcanol y cyflogwr gohiriedig wedi newid yn sylweddol, ond, yn achos dirywiad, nid yw'r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cymryd cyngor cyfreithiol, actiwaraidd, cyfamod neu gyngor arall fel y bo'n briodol, o'r farn bod digon o dystiolaeth bod gallu cyflogwr gohiriedig i dalu'r cyfraniadau sy'n daladwy o dan y CDO wedi gwanhau'n sylweddol, neu'n debygol o wanhau'n sylweddol yn ystod y 12 mis nesaf; a
- Phan fo lefel y sicrwydd sydd ar gael i'r Gronfa wedi newid mewn perthynas â'r CDO, fel y'i pennwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu, gan gymryd cyngor cyfreithiol, actiwaraidd neu gyngor arall fel y bo'n briodol.

Ym mhob prisiad teirblwydd, neu'n amlach yn ôl yr angen, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cynnal dadansoddiad o risg ariannol neu gyfamod y cyflogwr gohiriedig, gan ystyried cyngor actiwaraidd, cyfamod, cyfreithiol a chyngor arall yn ôl yr angen. Lle caiff ei gefnogi gan y dadansoddiad a'i ystyried yn angenrheidiol i ddiogelu buddiannau pob cyflogwr, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cyflwyno hysbysiad i'r cyflogwr gohiriedig y bydd y CDO yn dod i ben ar y sail ei fod yn rhesymol fodlon bod gallu'r cyflogwr gohiriedig i dalu'r cyfraniadau sy'n daladwy o dan y trefniant dyledion gohiriedig wedi gwanhau'n sylweddol, neu'n debygol o wanhau'n sylweddol yn ystod y 12 mis nesaf, fel y nodir o dan reoliad 64(7E)(d).

Dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol y bydd yr holl ffioedd cynghori a ysgwyddir gan y Gronfa sy'n gysylltiedig ag ystyried CDO ar gyfer cyflogwr sy'n ymadael, p'un a yw hyn yn arwain at ymrwymo i CDO ai peidio, yn cael eu hailgodi i'r cyflogwr. Bydd hyn yn cynnwys cyngor actiwaraidd, cyfreithiol, cyfamod a chyngor arall a chostau monitro'r trefniant yn ogystal â'r gwaith trefnu cychwynnol. Rhaid talu'r holl ffioedd ymlaen llaw ac ni ellir eu hychwanegu at unrhyw gyfraniadau eilradd sy'n daladwy o dan y CDO.

Disgwylir y bydd cyflogwyr yn gwneud cais i ystyried CDO cyn y byddent fel arall wedi gadael y Gronfa o dan Reoliad 64(1) ac y dylid ymrwymo i CDO o fewn 3 mis i'r dyddiad hwnnw. Dylai'r cyflogwr barhau i wneud cyfraniadau eilradd ar y gyfradd bresennol tra bo'r CDO yn cael ei ystyried oni bai bod yr Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cymryd cyngor actiwaraidd a chyngor arall fel y bo'n briodol, yn penderfynu y dylai mwy o gyfraniadau fod yn daladwy. Mewn amgylchiadau eithriadol, e.e. lle bu oedi y gellir ei gyfiawnhau oherwydd amgylchiadau y tu allan i reolaeth y cyflogwr, ac yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddu yn unig, gellir ymrwymo i CDO fwy na 3 mis ar ôl y dyddiad ymadael.

Bydd disgwyl i gyflogwyr gohiriedig ymgysylltu â'r Awdurdod Gweinyddu yn ystod cyfnod y CDO a glynu wrth y fframwaith digwyddiadau hysbysadwy fel y nodir yn y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau yn ogystal â darparu gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn rheolaidd. Bydd hyn yn angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o fonitro'r trefniant yn effeithiol a bydd yn un o ofynion y CDO.



# ATODIAD 3

# DATGANIAD STRATEGAETH FUDDSODDI

## IONAWR 2020

**Cyflwyniad**

Cyngor Caerdydd ('y Cyngor') yw'r awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ('y Gronfa').

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ("y Rheoliadau Buddsoddi") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu lunio a chyhoeddi strategaeth fuddsoddi.

Rhaid i'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (DSF) sy'n ofynnol gan Reoliad 7 o'r Rheoliadau gynnwys:

(a) Gofyniad i fuddsoddi arian mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau;
(b) Asesiad yr awdurdod o addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau;
(c) Dull yr awdurdod o ran risg, gan gynnwys y ffyrdd y bydd risgiau'n cael eu hasesu a'u rheoli;
(d) Dull yr awdurdod o ran cyfuno buddsoddiadau, gan ddefnyddio cerbydau buddsoddi ar y cyd a gwasanaethau a rennir;
(e) Polisi'r awdurdod ar sut bydd ystyriaethau llywodraethu cymdeithasol, amgylcheddol a chorfforaethol yn cael eu hystyried wrth ddethol, peidio â dethol, cadw a gwireddu buddsoddiadau; a
(f) Pholisi'r awdurdod ar ymarfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sy'n ymwneud â buddsoddiadau.

Rhaid i'r DSF hefyd nodi'r ganran uchaf o gyfanswm gwerth yr holl fuddsoddiadau arian cronfa y bydd yn eu buddsoddi mewn buddsoddiadau neu ddosbarthiadau buddsoddi penodol.

Rhaid i'r DSF gydymffurfio â chanllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sef y canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017 ar hyn o bryd.
Mae Cylch Gorchwyl Pwyllgor Pensiynau Cyngor Caerdydd ('y Pwyllgor') yn cynnwys pennu strategaeth fuddsoddi'r awdurdod. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r strategaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 ac fe'i paratowyd mewn ymgynghoriad â Phanel Cynghori ar Fuddsoddi'r Gronfa ('y Panel').

**A) Buddsoddi arian mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau**

Dylai portffolio o asedau sydd wedi'u harallgyfeirio'n briodol gynnwys amrywiaeth o ddosbarthiadau asedau i helpu i leihau'r risg portffolio cyffredinol. Os nad yw un dosbarth buddsoddi yn perfformio'n dda, dylai perfformiad gael ei gydbwyso gan fuddsoddiadau eraill sy'n gwneud yn well ar y pryd. Mae portffolio amrywiol hefyd yn helpu i leihau anwadalrwydd.

Nod y Pwyllgor yw bodloni'r gofyniad am bortffolio amrywiol drwy adolygu ei Ddyraniad Asedau Strategol yn flynyddol. Cymeradwyir y Dyraniad Asedau gan y Pwyllgor ar gyngor y Panel. Mae'r Panel yn ystyried ystod eang o gyfleoedd buddsoddi cyn gwneud ei argymhellion.

Y dosbarthiadau asedau cyfredol sydd wedi'u cynnwys yn y dyraniad yw:
- Llog Sefydlog Confensiynol ac sy'n Gysylltiedig â Mynegai- Byd-eang
- Ecwitïau – Byd-eang, y DU a Marchnadoedd Datblygol
- Ecwiti Preifat (trwy gronfeydd cyfun o arian)
- Cronfeydd eiddo- y DU a Byd-eang

Caniateir y gweithgareddau canlynol sy'n gysylltiedig â buddsoddi hefyd:
- Deilliadau ac offerynnau ariannol eraill o fewn cyfyngiadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol at ddibenion rheoli portffolio'n effeithlon neu ar gyfer dibenion penodol megis gwarchod arian cyfred.
- Gwarantu, ar yr amod bod y stoc yn addas ar seiliau buddsoddi, ac yn cydymffurfio â'r meini prawf cyfredol ar gyfer buddsoddi.

Ceir crynodeb o'r targedau Dyrannu Asedau a'r terfynau amrywiant sydd mewn grym ar hyn o bryd ynghyd â meincnodau a thargedau'r portffolio yn Atodiad 1.

**Terfynau Buddsoddi**
Mae'r Rheoliadau Buddsoddi sydd mewn grym rhwng 2009 a 2016 yn gosod terfynau statudol ar gyfer gwahanol fathau o fuddsoddiadau. Dilëwyd y terfynau hyn gan Reoliadau Buddsoddi 2016 ond bydd y Gronfa yn parhau i weithredu o fewn y terfynau yng ngholofn 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2009 mewn perthynas ag unrhyw asedau nad ydynt wedi'u trosglwyddo eto i Bartneriaeth Pensiynau Cymru.

**B) Addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau**
Bwriedir i bolisi buddsoddi'r Gronfa sicrhau bod yr holl daliadau statudol a wneir o'r Gronfa yn costio cyn lleied â phosibl i'r cyrff cyflogi.

Yr amcan buddsoddi cyffredinol yw cael yr adenillion mwyaf o fuddsoddi a chadw cyfraniadau'r cyflogwyr yn y dyfodol cyn ised â phosibl, neu o leiaf yn gyson yn yr hirdymor a chyda lefel dderbyniol o risg. Adenillion y buddsoddiadau yw'r cyfraddau adenillion cyffredinol (twf cyfalaf ac incwm gyda'i gilydd). Cydnabyddir hefyd mai bwriad buddsoddiadau yw cadw a gwella gwerth y Gronfa.

Y gofyniad statudol yw symud tuag at ariannu 100% o ymrwymiadau cronnol y Gronfa dros gyfnod o amser. Cyfrifir y cyfnod hwn, ynghyd â lefel yr ariannu, bob tair blynedd, a chytunir arno gyda'r Actiwari yn dilyn adolygiad yn asesu addasrwydd asedau'r Gronfa i fodloni ei hymrwymiadau. Mae'r Panel yn ystyried barn yr Actiwari a lefel yr ariannu wrth benderfynu ar ei gyngor.

Mae'r Pwyllgor yn gosod ei feincnod pwrpasol ei hun i sicrhau y cynrychiolir ei nodweddion ei hun o ran ymrwymiadau ac nid cyfartaledd grŵp cyfoedion. Gosodwyd y meincnod yn wreiddiol yn 2004 yn unol ag Amcan Cronfa hirdymor o raniad dyrannu asedau Ecwitïau/Bondiau 75/25. Cynyddodd y dyraniad i Fondiau yn 2017 i adlewyrchu gwelliant yn lefel ariannu arfaethedig y Gronfa. Bydd y Panel yn adolygu'r dyraniad asedau cyffredinol yn rheolaidd ac yn ystyried cyfleoedd priodol ar gyfer astudiaeth ased-rhwymedigaeth bellach.

**C) Risg**
Nodir rhestr fanwl o'r prif risgiau i'r Gronfa yn y Datganiad Strategaeth Ariannu. Caiff risgiau sy'n deillio o fuddsoddiadau eu monitro gan y Panel Cynghori ar Fuddsoddi. Mae'r Gronfa'n cydnabod y risgiau sy'n deillio o ddal cyfran uwch o ecwitïau ac asedau eraill sy'n ceisio adenillion nag a fyddai'n cael eu dal o dan strategaeth a yrrir gan atebolrwydd ond mae o'r farn bod y risgiau hyn yn cael eu lliniaru gan gyfamod cryf prif gyflogwyr y Gronfa a phroffil aeddfedrwydd sefydlog ei haelodaeth.

**Risg Buddsoddi** yw'r risg bod rheolwyr y Gronfa yn methu â chyrraedd cyfradd yr adenillion buddsoddi a ragdybir wrth bennu eu mandadau. Y prif reolaeth dros risg buddsoddi yw arallgyfeirio asedau ar draws marchnadoedd a dosbarthiadau asedau. Bydd cydberthyniadau ymhlith y rhain yn amrywio dros amser, ond mae'r risg sylfaenol o ddod i gysylltiad â marchnad gyfalaf benodol yn cael ei lliniaru i ryw raddau gan strategaeth arallgyfeirio fel yr un a ddilynir gan y Gronfa.

Mae'r rheolwyr cronfa arbenigol unigol yn rheoli risg amrywio o'r meincnodau, yn unol â'r targedau a roddwyd iddynt. Adroddir ar lefelau risg cymharol ar gyfer rheolwyr gweithredol bob chwarter a'u trafod yn flynyddol gan y Panel. Mae'r Panel yn cydnabod y gall gwall olrhain ei hun fod yn fesur cyfnewidiol o'r risgiau sy'n cael eu cymryd gan reolwr ac y gall cyn-ôl-ystadegau amrywio'n sylweddol o gyn-amcangyfrifon. O'r herwydd, mae angen trin ei werth rhagweladwy yn ofalus. Felly defnyddir y gwall olrhain fel canllaw wrth ystyried perfformiad cyffredinol y rheolwr.

**Risg Hylifedd** yw'r risg na all y Gronfa fodloni ei rhwymedigaethau uniongyrchol gan nad oes ganddi ddigon o asedau. Mae'r Gronfa'n monitro ei sefyllfa o ran hylifedd yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw'n werthwr asedau hirdymor i wneud taliadau buddion. Cedwir o leiaf 80% o asedau'r Gronfa mewn ecwitïau a bondiau a restrir yn gyhoeddus y gellir eu gwireddu'n hawdd. Mae buddsoddiadau mewn eiddo ac ecwiti preifat yn fuddsoddiadau hirdymor y mae'r Gronfa'n llai tebygol o allu eu gwireddu mewn cyfnod byr.

Mae **risgiau gweithredol** yn codi drwy weithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa. Nodir y risgiau hyn isod:

- Risg pontio – gall y Gronfa arwain at gostau annisgwyl mewn perthynas â throsglwyddo asedau rhwng rheolwyr a/neu ddosbarthiadau asedau. Wrth gynnal trosglwyddiadau sylweddol, mae'r gronfa'n cymryd cyngor proffesiynol ac yn ystyried defnyddio rheolwyr pontio arbenigol er mwyn lliniaru'r risg hon pan fydd yn gost-effeithiol gwneud hynny.
- Risg gwarchod – rhaid i'r Gronfa sicrhau ei bod yn cadw'r hawliau economaidd i holl asedau'r Gronfa, pan maent yn cael eu cadw gan geidwad neu'n cael eu masnachu. Mae'n gwneud hyn drwy ddefnyddio ceidwad byd-eang (Northern Trust) ar gyfer cadw asedau, defnyddio trefniadau cytundebol ffurfiol ar gyfer pob buddsoddiad a chynnal cofnodion cyfrifyddu buddsoddiadau annibynnol.
- Risg diffygdalu credyd – gallai gwrth-barti sy'n gysylltiedig â buddsoddiad Cronfa fethu â chyflawni ei rwymedigaethau. Mae'n ofynnol i reolwyr buddsoddi'r Gronfa o dan eu contractau rheoli asedau reoli risg gwrth-barti ar ran y Gronfa.

**D) Cyfuno Buddsoddiadau**

Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yw un o'r wyth cronfa sy'n cymryd rhan ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Pennwyd y strwythur arfaethedig a'r sail y byddai PPC yn gweithredu arni ym mis Gorffennaf 2016, mewn cyflwyniad i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Cymeradwywyd y cynigion gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol ym mis Tachwedd 2016.

**Asedau i'w buddsoddi yn PPC**

Bwriad y Pwyllgor yw buddsoddi asedau'r Gronfa drwy PPC pan a phryd y bydd datrysiadau buddsoddi cyfun addas ar gael. Erbyn 1 Mehefin 2020 disgwylir y bydd y dyraniadau i Ecwitïau Byd-eang gweithredol, Ecwitïau DU gweithredol a Bondiau Byd-eang wedi'u buddsoddi drwy is-gronfeydd PPC. Mae datrysiadau cyfuno ar gyfer Ecwitïau Marchnadoedd Datblygol ac Asedau Amgen yn cael eu datblygu.

Buddsoddwyd dyraniadau'r Gronfa i Ecwitïau goddefol drwy gronfeydd cyfun a reolir gan BlackRock yn dilyn proses gaffael gydweithredol a gynhaliwyd yn 2016 gyda'r saith cronfa arall yng Nghymru.

Rhagwelir na fydd buddsoddiadau ecwiti preifat presennol y Gronfa yn cael eu trosglwyddo i Gronfa Cymru ond y byddant yn cael eu disodli gan fuddsoddiadau cyfun neu gydweithredol addas wrth iddynt aeddfedu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**Strwythur a llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru**

Mae PPC wedi penodi Link Fund Solutions i sefydlu a gweithredu cyfrwng buddsoddi ar y cyd at ddefnydd y cronfeydd CPLlL yng Nghymru yn unig. Mae Link wedi sefydlu Cynllun Cytundebol Awdurdodedig (CCA) ar

ran PPC ac yn datblygu ystod o is-gronfeydd lle gellir buddsoddi asedau'r wyth cronfa bensiwn sy'n cymryd rhan. Cefnogir Link gan Russell Investments sy'n cynghori ar ddylunio is-gronfa a dewis rheolwyr. Penodwyd Northern Trust yn Geidwad CCA.

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn 2017 i oruchwylio'r Gweithredwr. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cynnwys un aelod etholedig o bob awdurdod gweinyddu cyfansoddol a bydd yn cael ei gefnogi gan Weithgor Swyddogion. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu fel Awdurdod Cynnal i ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i PPC.

Mae Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a rolau'r Gweithgor Swyddogion a'r Awdurdod Cynnal wedi'u nodi mewn Cytundeb Rhyng-Awdurdod sy'n gyfreithiol rwymol sydd wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi gan yr wyth awdurdod gweinyddu. Mae cyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cynnwys:

- Monitro perfformiad Gweithredwr Cronfa Cymru
- Gwneud penderfyniadau ar is-gronfeydd dosbarth asedau i'w rhoi ar gael gan y Gweithredwr i weithredu strategaethau buddsoddi unigol yr wyth cronfa
- Darparu atebolrwydd i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan ar reoli PPC
- Bod yn gyfrifol am adrodd ar PPC i Lywodraeth y DU a rhanddeiliaid eraill
- Goruchwylio'r Gweithgor Swyddogion

Bydd yr wyth awdurdod gweinyddu yn cadw rheolaeth dros bennu eu strategaeth fuddsoddi a dyrannu asedau.

**E) Sut mae ystyriaethau llywodraethu cymdeithasol, amgylcheddol neu gorfforaethol yn cael eu hystyried**

Mae'r Pwyllgor yn ceisio canfod cyfleoedd buddsoddi nad ydynt yn gwrthdaro â'i dyletswyddau fel ymddiriedolwr i geisio'r adenilliad gorau a hefyd ystyried materion a phryderon cymdeithasol, amgylcheddol a moesol. Mae'n cydnabod pryderon y Cyngor a rhanddeiliaid eraill ynghylch newid yn yr hinsawdd a bydd yn datblygu ei strategaeth fuddsoddi mewn ymateb i'r pryderon hynny. Yn amodol ar fod yn gyson â'i ddyletswyddau ymddiriedol ac asesiadau rheolaidd gan y Panel o effaith penderfyniadau buddsoddi, bydd y Pwyllgor yn ystyried:

- Cynyddu ei ddyraniad i'r gronfa Traciwr Carbon Isel
- Ymgysylltu â rheolwyr a chwmnïau buddsoddi drwy PPC a FfCBALl
- Dadfuddsoddi o gwmnïau sy'n cynrychioli risg barhaus nad ydynt yn ymateb yn gadarnhaol i ymgysylltiad
- Buddsoddiad cadarnhaol mewn cwmnïau sy'n datblygu technoleg lân

Bydd y Pwyllgor yn disgwyl i'r rheolwyr buddsoddi a benodir drwy PPC i fabwysiadu'r egwyddorion stiwardiaeth perthnasol (naill ai Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol neu God Stiwardiaeth y DU) ac adrodd ar eu cydymffurfiaeth.

Mae'r Gronfa'n aelod o'r Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (FfCBALl) er mwyn rhoi'r gallu iddi weithredu ar y cyd â chronfeydd CPLlL eraill ar faterion llywodraethu corfforaethol.

**F) Ymarfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau**

Mae buddiannau buddsoddi hirdymor cronfeydd CPLlL yn cael eu gwella gan y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol a chyfrifoldeb corfforaethol ymhlith y cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt. Gall llywodraethu gwael effeithio'n negyddol ar werth cyfranddalwyr.

Bydd y Gronfa'n cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisïau pleidleisio ac ymgysylltu ar gyfer PPC sy'n hyrwyddo safonau uchel o lywodraethu corfforaethol, gan gynnwys tryloywder ac atebolrwydd gan gwmnïau am effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol eu gweithgareddau busnes.

# APPENDIX 4

# DATGANIAD POLISI CYFATHREBU

Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol posibl, mewn amgylchedd pensiwn sy'n newid yn barhaus.

Paratowyd a chyhoeddwyd y Ddogfen Bolisi hon gan Gyngor Caerdydd fel Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Ysgrifennwyd y ddogfen Bolisi hon yn unol â rheoliad 61 Rheoliadau Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (Rheoliadau CPLlL).

**Amcanion Strategaeth Gyfathrebu'r Gronfa yw:**

- gwella ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r buddion a ddarperir gan y cynllun pensiwn
- annog cyflogeion newydd a chyflogeion presennol i fanteisio ar y cynllun
- ateb holl gwestiynau hawliadau pensiwn aelodau CPLlL yn brydlon
- datblygu'r bartneriaeth rhwng tîm gweinyddu'r Gronfa Bensiwn a'r cyrff sy'n cyflogi
- cysylltu ag ystod o grwpiau eraill sydd â diddordeb yn y cynllun

O fewn y gronfa bensiwn mae pum grŵp o aelodau y mae angen i'r Gronfa gyfathrebu â nhw:

1. Aelodau'r Cynllun
2. Darpar Aelodau'r Cynllun
3. Cyflogwyr y Cynllun
4. Cynrychiolwyr Aelodau
5. Cyrff eraill

Mae'r ddogfen Bolisi hon yn nodi sut rydym yn bwriadu cyfathrebu â'r pum grŵp.

Nod Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro yw defnyddio'r sianel gyfathrebu fwyaf priodol ar gyfer y gynulleidfa sy'n derbyn y wybodaeth. Mewn rhai amgylchiadau gall hyn olygu defnyddio mwy nag un sianel.

## Aelodau'r Cynllun

Mae aelodau'r cynllun yn cynnwys:

- **Aelodau gweithredol -** sy'n cyfrannu at y Gronfa ar hyn o bryd
- **Aelodau gohiriedig -** buddiannau yn y cynllun ond ddim yn cyfrannu
- **Pensiynwyr -** yn derbyn pensiwn

**Gwefan y Gronfa**

Mae'r Gronfa wedi datblygu gwefan helaeth sy'n nodi rheolau a rheoliadau'r Cynllun mewn fformat syml a hawdd-ei-ddarllen. Ychwanegir diweddariadau gwybodaeth ac eitemau newyddion yn gyflym i roi gwybod i'r aelodau am unrhyw newidiadau i'r Cynllun. Mae copïau electronig o daflenni, ffurflenni, llyfrynnau, dogfennau polisi ac adroddiadau'r Gronfa hefyd ar gael yn rhwydd. Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ar gael, ynghyd â'r holl ddogfennau llywodraethu allweddol.

**Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**

Mae copi electronig o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ar gael i holl aelodau'r Cynllun ar y wefan. Mae copïau caled hefyd ar gael ar gais.

**Newsletter**

Bydd y Gronfa'n cyhoeddi cylchlythyr i aelodau gweithredol y Gronfa ar sail ad hoc, a fydd yn ymdrin â phynciau pensiwn cyfredol o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r diwydiant pensiynau ehangach.

Rydym yn anfon cylchlythyr blynyddol at bob pensiynwr bob mis Ebrill, gan roi manylion iddynt am eu cynnydd pensiwn blynyddol, y dyddiadau talu ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall am bensiwn.

**Datganiad Budd-daliadau Blynyddol**

Bydd Datganiadau Buddion Blynyddol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer yr holl aelodau gweithredol fydd yn dangos gwerth cyfredol eu pensiwn ar 31 Mawrth. Hefyd, nodir bras ffigur i'r Oedran Pensiwn Arferol (OPA) a gwerth cyfredol y budd-dal marwolaeth.

Rydym hefyd yn anfon Datganiadau Budd-daliadau Blynyddol at ein haelodau gohiriedig sy'n nodi gwerth cyfredol eu pensiwn bob mis Ebrill

(y dyddiad y cynyddwyd y pensiwn ddiwethaf yn unol â'r mynegai costau byw priodol).

Darperir nodiadau atodol gyda Datganiadau Budd-daliadau Blynyddol a chyhoeddir Nodiadau Canllaw ar ein gwefan i gynnig cymorth ychwanegol.

**Llenyddiaeth y Cynllun**
Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynhyrchu ystod eang o lenyddiaeth ar gyfer y Cynllun, sydd ar gael i bob Cyflogwr ac Aelod o'r Cynllun yn Gymraeg ac yn Saesneg. Caiff yr holl lenyddiaeth ei diweddaru'n rheolaidd, i sicrhau ei bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r rheoliadau. Mae ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn.

**Datganiadau Cynnydd Pensiwn**
Mae datganiadau Cynnydd Pensiwn Blynyddol ar gael i bob pensiynwr sy'n nodi cyfradd ganrannol y cynnydd yn eu pensiwn, a hefyd y taliad pensiwn newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

**Ffigurau Ymddeol**
Mae aelodau gohiriedig yn cysylltu â ni 6 wythnos cyn eu dyddiad ymddeol ac anfonir ffigurau ymddeol i'w cyfeiriad cartref.

**Hysbysiadau Statudol**
Yn unol â Rheoliadau'r Cynllun, hysbysir aelodau pan fydd unrhyw newid yn digwydd i'w cofnod pensiwn a fydd yn effeithio ar eu buddion pensiwn.

**Gohebiaeth**
Mae'r Gronfa'n defnyddio post, e-bost a phorthol hunanwasanaeth i aelodau i dderbyn ac anfon gohebiaeth. Anfonir ymateb yn newis iaith yr unigolyn.

**Cyngor ar Dalu/P60**
Rhoddir slipiau cyflog cyngor talu i bob Pensiynwr bob mis Ebrill (ynghyd â'r cylchlythyr Cynnydd Pensiwn). Dim ond os bydd pensiwn net yn newid gan £10 neu fwy yr anfonir slipiau talu drwy gydol y flwyddyn.

Anfonir hysbysiadau P60 yn flynyddol (fel arfer ym mis Ebrill neu fis Mai), ac maent yn rhoi dadansoddiad i aelodau o'r taliadau a gawsant dros y flwyddyn ariannol gyflawn ddiwethaf.

## Darpar aelodau'r cynllun

**Taflen y Cynllun**
Darperir llyfryn Cynllun i holl ddarpar aelodau'r Cynllun, sy'n esbonio manteision ymuno â'r CPLlL. Anfonir y llyfryn hwn gan y Tîm Adnoddau Dynol pan anfonir contract cyflogaeth at weithwyr newydd.

**Gwefan Pensiynau**
Mae gan wefan y Gronfa adran benodol ar gyfer pobl nad ydynt yn aelodau, lle tynnir sylw at fanteision y Cynllun a phwysigrwydd cynllunio ar gyfer ymddeoliad. Mae'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar bawb nad ydynt yn aelodau i wneud penderfyniad gwybodus.

## Cyflogwyr y Cynllun

Mae'r Gronfa'n cyfathrebu â'i chyflogwyr mewn sawl ffordd i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau fel Cyflogwyr y Cynllun.

**Fforwm Cyflogwyr Blynyddol**
Rydym yn cynnal cyfarfod Fforwm Cyflogwyr bob blwyddyn ar gyfer holl Gyflogwyr y Cynllun, lle mae Rheolwyr y Gronfa yn trafod:

- Diweddariad buddsoddi manwl
- Adroddiadau ariannol a gweinyddol
- Unrhyw newidiadau gweithdrefnol/ deddfwriaethol perthnasol
- Prisiad teirblwydd
- Siaradwyr gwadd a fydd yn gallu uwchsgilio ein Cyflogwyr

Bydd y Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddi yn ymweld â lleoliadau'r Cyflogwyr o bryd i'w gilydd i drafod materion pan fyddant yn codi.

Mae angen i bob Cyflogwr gyflenwi data cyflog a chyfraniadau i'r cynllun pensiwn, o fewn terfynau amser ac yn y fformat a bennir gan y Tîm Pensiynau.

Bydd pob cyflogwr o fewn y Cynllun, a'i swyddogaethau Adnoddau Dynol, yn chwarae rôl allweddol o ran rhoi gwybod i'r tîm Pensiynau am ddechreuwyr newydd ac ymadawyr, ymddeoliadau ac ati. Hefyd mae cyflogwyr yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am y cynllun pensiwn i'w cyflogeion.

**Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**
Paratoir cyfrifon archwiliedig Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar 31 Mawrth bob blwyddyn a rhoddir copi ar wefan y Gronfa.

**Strategaeth Gweinyddu Pensiynau**
Mae'r Strategaeth Weinyddu'n diffinio cyfrifoldebau'r Gronfa a holl gyflogwyr y Cynllun wrth weinyddu'r Cynllun.

Mae'r Strategaeth yn nodi lefel y perfformiad a ddisgwylir gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro a'r holl gyflogwyr, yn ogystal â'r goblygiadau o beidio â bodloni'r terfyn amser statudol.

**Gwefan**
Mae gwefan y Gronfa yn cynnwys ardal benodol i roi'r canllawiau sydd eu hangen ar gyflogwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau gweinyddol yn effeithiol, a bydd yn cynnwys diweddariadau a ffurflenni y gellir eu lawrlwytho.

**Diweddariadau**
Caiff diweddariadau rheoleiddio a gweinyddol eu rhoi'n rheolaidd i bob cyflogwr drwy e-bost.

**Hyfforddi**
Gellir cyflwyno sesiynau hyfforddi pwrpasol, ar gais y Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddi dynodedig, i ddatrys unrhyw faterion gweinyddol a nodwyd gan y cyflogwr.

## Cynrychiolwyr Aelodau

**Undebau Llafur**
Mae Undebau Llafur yn Ne Cymru yn llysgenhadon gwerthfawr i'r Cynllun Pensiwn. Maent yn rhoi manylion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'w haelodau drwy gynrychiolydd lleol. Maent hefyd yn helpu i negodi dan drosglwyddiadau TUPE er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, fynediad parhaus i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cynhelir Fforwm Undebau Llafur yn flynyddol. Bydd cynrychiolwyr canghennau undebau llafur lleol yn derbyn cyflwyniadau ar adroddiad blynyddol y Gronfa, perfformiad eu buddsoddiadau a materion cyfredol eraill.

**Bwrdd Pensiynau**
Sefydlwyd Bwrdd Pensiynau Lleol y Gronfa ar y 1af Ebrill 2015. Mae'r Bwrdd yn cynnwys tri chynrychiolydd sy'n aelodau o'r cynllun sy'n cyfranogi yn rôl y Bwrdd yn cynorthwyo Rheolwr y Cynllun. Mae holl aelodau'r Bwrdd wedi derbyn sesiwn sefydlu a hyfforddiant priodol a byddant yn cael y newyddion ddiweddaraf am ddatblygiadau cenedlaethol a lleol yn y CPLlL. Mae enwau a manylion cyswllt cynrychiolwyr aelodau'r cynllun ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro.

## Cyrff eraill

Mae'r Tîm Gweinyddu Pensiynau hefyd yn ymwneud yn weithredol â grwpiau amrywiol eraill sydd â diddordeb yn y CPLlL.

**Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (GTCLlL)**
Mae'r Adran hon o'r Llywodraeth yn gyfrifol am ddiwygio rheoliadau'r Cynllun ar ôl ymgynghori â phob awdurdod lleol, a rhai cyflogwyr. Mae'r Gronfa yn cymryd rhan yn yr ymarferion hyn yn ôl yr angen.

Rydym hefyd yn ymwneud â'r **Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL)** a'r **Gymdeithas Cronfeydd Pensiwn Genedlaethol (CCPG).** Mae'r Gronfa hefyd yn aelod o'r **Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (FfCBALl).**

**Grŵp Swyddogion Pensiwn Cymru Gyfan**
Mae Swyddogion Pensiwn o bob awdurdod gweinyddu yng Nghymru yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a rhannu gwybodaeth. Mae hyn yn sicrhau dehongliad unffurf o'r CPLlL a'r rheoliadau eraill sy'n bodoli.

**Grŵp Partneriaeth Pensiwn Cymru**
Mae'r Gronfa'n gweithio'n agos gyda Chronfeydd Pensiwn eraill Cymru i werthuso trefniadau partneriaeth penodol, yn enwedig o fewn Gweithgor Cyfathrebu Cronfeydd Pensiwn Cymru Gyfan. Y nod lle y bo'n bosibl yw darparu'r un cyfathrebiadau ar draws pob un o'r 8 Cronfa Bensiwn yng Nghymru.

**Seminarau**
Mae Swyddogion y Gronfa yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn seminarau a chynadleddau a gynhelir gan gyrff sy'n gysylltiedig â'r CPLlL.

## Gwybodaeth Gyffredinol

**Diogelu Data**
Er mwyn diogelu unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir ar gyfrifiadur, mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae hyn yn caniatáu i aelodau wirio bod eu manylion yn gywir. Cyhoeddir Hysbysiadau Preifatrwydd y Gronfa ar wefan y Gronfa Bensiwn.

**Menter Twyll Genedlaethol**
Mae dyletswydd ar yr Awdurdod i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, a gall ddefnyddio gwybodaeth ar gyfer atal a chanfod twyll.

**Cyffredinol**
Er bod y Datganiad Polisi hwn yn amlinellu'r dulliau cyfathrebu a fabwysiadwyd gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, mae rolau a chyfrifoldebau sy'n cael eu hysgwyddo gan aelodau'r Cynllun, darpar aelodau'r cynllun a chyflogwyr cyfranogol y Cynllun i sicrhau bod gwybodaeth sy'n angenrheidiol i gynnal sylfaen aelodaeth gywir yn cael ei darparu mewn modd amserol.

**Adolygiad Polisi**
Caiff y datganiad hwn ei ddiwygio os oes unrhyw newidiadau perthnasol ym Mholisi Cyfathrebu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ond bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

**Sut i gysylltu â ni**
Os oes gennych gwestiwn neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, cysylltwch â ni.

Drwy e-bostio: pensiynau@caerdydd.gov.uk

Drwy ffonio: 029 2087 2334
ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener
8.30am tan 4.30pm

Drwy'r Post: Tîm Pensiynau
Ystafell 252
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

# ATODIAD 5

# DATGANIAD CYDYMFFURFIAETH LLYWODRAETHU

Cafodd y Datganiad hwn ei baratoi a'i gyhoeddi gan Gyngor Dinas Caerdydd fel Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, gan gydymffurfio â Rheoliad 55 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) (y "Rheoliadau CPLlL").

**Dirprwyo Swyddogaethau**

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi sefydlu Pwyllgor Pensiynau er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau CPLlL ac mae wedi dirprwyo rheolaeth weithredol y Gronfa Bensiwn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau. Yr adrannau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor yw:

**Cylch Gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau:**

**Pwyllgor Pensiynau**

Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod fel Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ('y Gronfa') fel y'i disgrifiwyd yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-dal 1972 (adrannau 7,12 neu 24) ac Adran 18(3A) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; a

Chyflawni'r swyddogaethau strategol penodol canlynol parthed y Gronfa, gan gymryd i ystyriaeth gyngor gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa:-

a) Pennu nodau ac amcanion, strategaethau, datganiadau cydymffurfio statudol, polisïau a gweithdrefnau'r Gronfa, gan gynnwys mewn perthynas â'r meysydd canlynol:
   - i) Llywodraethu – cymeradwyo Datganiad Polisi a Chydymffurfiaeth Llywodraethu ar gyfer y Gronfa;
   - ii) Strategaeth Cyllid – cymeradwyo Datganiad Strategaeth Ariannu'r Gronfa gan gynnwys monitro parhaus a rheoli'r rhwymedigaethau, gan roi ystyriaeth deilwng i ganlyniadau ac effaith y prisiad actiwaraidd teirblwydd ac adroddiadau dros dro;
   - iii) Strategaeth fuddsoddi – cymeradwyo Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa (y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi (DEB) ynghynt) a Datganiad Cydymffurfiaeth Myners gan gynnwys pennu targedau a sicrhau bod y rhain wedi'u halinio â phroffil rhwymedigaethau penodol a chwant risg y Gronfa;
   - iv) Strategaeth Gyfathrebu- cymeradwyo Strategaeth Gyfathrebu'r Gronfa;
   - v) Disgresiwn – pennu sut y caiff amryw ddisgresiynau awdurdodau gweinyddu eu gweithredu ar gyfer y Gronfa; a
   - vi) Gweithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfod – pennu sut y caiff anghydfodau Aelodau'r Cynllun eu gweinyddu.

b) Monitro gweithrediad y polisïau a'r strategaethau hyn fel yr amlinellir yn a) uchod yn barhaus.

c) Ystyried datganiadau ariannol y Gronfa fel rhan o'r broses gymeradwyo a chytuno i Adroddiad Blynyddol y Gronfa. Derbyn adroddiadau archwilio mewnol ac allanol ar y rhain.

ch) Derbyn adroddiadau parhaus gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau mewn perthynas â'r swyddogaethau gweithredol a ddirprwyir.

d) Darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Gronfa ar ddigonolrwydd rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cysylltiedig, sy'n gyfrifol am berfformiad ariannol ac anariannol y Gronfa.

dd) Glynu wrth yr egwyddorion a restrir yng Nghod Ymarfer y Rheolydd Pensiynau ac ymgymryd â'i ddyletswyddau gan gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a orfodir arno.

e) Derbyn hyfforddiant rheolaidd er mwyn galluogi Aelodau'r Pwyllgor i wneud penderfyniadau effeithiol a bod yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol ac ymddiriedol a'u rôl stiwardio.

f) Ystyried unrhyw faterion cydymffurfio o ran pensiynau a godir gan Fwrdd Pensiynau Lleol y Gronfa.

ff) Bydd angen i bob Aelod o'r Pwyllgor gyflawni hyfforddiant perthnasol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n gywir.

**Bwrdd Pensiynau Lleol**
Mae cylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol bellach wedi'i ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor ac mae fel a ganlyn :-
Cynorthwyo Cyngor Caerdydd fel Rheolwr Cynllun ac Awdurdod Gweinyddu i:
(i) gydymffurfio â rheoliadau'r CPLlL ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun;
(ii) cydymffurfio ag unrhyw anghenion a bennir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r CPLlL; a
(iii) sicrhau bod y cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon (yn unol ag adrannau 5(1) a (2) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a rheoliad 106(1) y Rheoliadau CPLlL.

**Dirprwyaethau Penodol i Swyddogion Statudol: Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau**

**FS28**
In accordance with any policy or strategy decided by the Pensions Committee to approve decisions relating to the operational management of the pension fund and the administration of pension benefits.

Yn unol ag unrhyw bolisi neu strategaeth a benderfynwyd gan y Pwyllgor Pensiynau, i gymeradwyo penderfyniadau yn ymwneud a rheolaeth weithredol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ("y Gronfa") a gweinyddu buddion y pensiwn.

Ymgymerir â gweinyddu'r Gronfa Bensiwn gan yr Adran Bensiynau, sydd yn Neuadd y Sir. Gwneir a chofnodir yr holl benderfyniadau arwyddocaol, e.e. ymarfer disgresiynau a roddir i'r awdurdod gweinyddu o dan reoliadau CPLlL, yn unol â chynllun y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau a ddirprwyir. Fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, mae'r Adran yn ddarostyngedig i bolisïau, gweithdrefnau a rheolau mewnol y Cyngor.

Cynghorir y Pwyllgor Pensiynau a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ar faterion buddsoddi gan Banel Cynghori ar Fuddsoddi. Mae manylion rôl y panel yn Natganiad Strategaeth Fuddsoddi (DSF) y Gronfa.

Mae'r panel yn cynnwys:
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Tri aelod etholedig o Gyngor Dinas Caerdydd
- Un aelod etholedig o Gyngor Bro Morgannwg (statws arsylwi)
- Dau ymgynghorydd annibynnol

Fel arfer bydd y panel yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn er mwyn adolygu perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa ac ymgynghori ar strategaeth fuddsoddi. Hefyd, mae'r panel yn ystyried agweddau eraill ar weinyddu'r CPLlL a allai o bosibl ddod â goblygiadau ar gyfer buddsoddiadau e.e. prisiadau actiwaraidd teirblwydd. Mae'r panel yn derbyn cyflwyniadau gan bob rheolwr buddsoddi gweithredol yn flynyddol a hefyd yn cyfweld â rheolwyr sydd ar y rhestr fer pan gaiff mandadau newydd eu dyfarnu.

Cynhelir Fforwm Cyflogwyr yn flynyddol a gwahoddir yr holl gyflogwyr sy'n cyfrannu at y Gronfa.
Mae'r Fforwm yn ystyried Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Gronfa ac yn derbyn cyflwyniadau ar faterion megis newidiadau o ran rheoliadau a phrisiadau actiwaraidd.
Hefyd cynhelir Fforwm Undebau Llafur yn flynyddol sy'n ystyried materion tebyg gyda chynrychiolwyr undebau llafur y prif gyflogwyr.

**Cydymffurfio â Chanllaw Statudol**

| Safon Cydymffurfio | Trefniadau ar Waith/Camau Gweithredu a Gymerwyd | Cam gweithredu yn cydymffurfio ag Egwyddor? Ydy/Nac ydy/ Yn rhannol | Rheswm dros beidio â |
|---|---|---|---|
| **Egwyddor A - Strwythur** | | | |
| *Mae'n amlwg bod rheolaeth gweinyddu buddion a rheolaeth strategol asedau'r gronfa yn rhywbeth i'r prif bwyllgor a sefydlwyd gan y cyngor sy'n penodi.* | Rhestrir Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a Dirprwyaethau Swyddogion yn glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor | Ydy | |
| *Bod cynrychiolwyr cyflogwyr CPLlL cyfranogol, cyrff a dderbyniwyd ac aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau, naill ai o'r prif bwyllgor neu'r un eilaidd a sefydlwyd i danategu gwaith y prif bwyllgor.* | Caiff y ddau brif gyflogwr eu cynrychioli ar y Panel Cynghori ar Fuddsoddi.<br><br>Mae cyflogwyr eraill yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Pensiynau Lleol ac maent yn mynychu'r Fforwm Cyflogwyr blynyddol<br><br>Ni chaiff aelodau'r Cynllun eu cynrychioli ar y Cynllun neu'r Panel ond cânt eu cynrychioli ar y Bwrdd Pensiynau Lleol ac maent yn mynychu'r Fforwm Undebau Llafur. | Ymateb | |
| *Pan fydd pwyllgor neu banel eilaidd wedi'i sefydlu, bydd y strwythur yn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws y ddwy lefel.* | Ydyn | Ydy | |
| *Lle mae pwyllgor neu banel eilaidd wedi'i sefydlu, caiff o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor ei dyrannu i aelod o'r ail bwyllgor neu banel.* | Nac ydy – mae'r Pwyllgor yn bwyllgor i'r awdurdod gweinyddu. | | |

| Egwyddor B - Cynrychiolaeth | | | |
|---|---|---|---|
| *Y caiff pob rhanddeiliad y cyfle i gael ei gynrychioli o fewn strwythur y prif bwyllgor neu'r pwyllgor eilaidd.*<br><br>*Mae'r rhain yn cynnwys:-*<br><br>*i) awdurdodau cyflogi (gan gynnwys cyflogwyr nad ydynt yn rhan o'r cynllun, e.e. cyrff a dderbyniwyd);*<br><br>*ii) aelodau'r cynllun (gan gynnwys aelodau'r cynllun gohiriedig a phensiynwyr);*<br><br>*iii) arsyllwyr proffesiynol annibynnol; a*<br><br>*iv) ymgynghorwyr arbenigol (ar sail ad-hoc).* | Mae'r Pwyllgor yn bwyllgor i'r awdurdod gweinyddu.<br><br>Mae'r ddau awdurdod unedol yn cyflogi dros 85% o aelodau gweithredol a chânt eu cynrychioli ar y Panel. Nid yw cyflogwyr eraill wedi'u cynrychioli ar hyn o bryd<br><br>Ni chynrychiolir aelodau'r cynllun ar hyn o bryd<br><br>Bydd dau ymgynghorydd annibynnol yn mynychu pob cyfarfod Panel | Ymateb | |
| *Pan fydd aelodau lleyg yn eistedd ar brif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd, cânt eu trin yn gyfartal yn nhermau mynediad at bapurau a chyfarfodydd a hyfforddiant a rhoddir cyfle llawn iddynt gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau, gyda neu heb hawliau pleidleisio.* | Mae gan bob aelod Pwyllgor a Phanel yr un mynediad at bapurau a chyfleoedd hyfforddi. | Ydw | |
| **Egwyddor C – Dethol a Rôl Aelodau Lleyg** | | | |
| *Y sicrheir bod aelodau pwyllgor neu banel yn hollol ymwybodol o'r statws, rôl a swyddogaeth y mae'n ofynnol iddynt eu perfformio ar brif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd.* | Mae swyddogaethau'r Pwyllgor wedi'u rhestru yng Nghyfansoddiad y Cyngor.<br><br>Rhestrir rôl y Panel Cynghori ar Fuddsoddi yn glir yn y DEB ac mewn dogfennau allweddol eraill | Ydw | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Egwyddor D - Pleidleisio** | | | |
| *Mae polisi awdurdodau gweinyddu unigol ar hawliau pleidleisio yn glir ac yn dryloyw, gan gynnwys y cyfiawnhad dros beidio ag ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grŵp a gynrychiolir ar brif bwyllgorau CPLIL* | | | |
| **Egwyddor E – Hyfforddiant/Amser Cyfleuster/Treuliau** | | | |
| *Mewn perthynas â'r ffordd y gwneir penderfyniadau statudol a pherthynol gan yr awdurdod gweinyddu, mae polisi clir ar hyfforddiant, amser cyfleuster ac ad-dalu treuliau parthed aelodau sy'n cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau.* | Rhoddir gwybod i aelodau'r Pwyllgor a'r Panel am gyfleoedd hyfforddi. | Ydw | |
| *Lle mae polisi o'r fath yn bodoli, mae'n gymwys yn gyfartal i bob aelod pwyllgor, is-bwyllgor, paneli ymgynghori neu unrhyw ffurf ar fforwm eilaidd.* | Ydw | Ydw | |
| **Egwyddor F – Cyfarfodydd (amlder/cworwm)** | | | |
| *Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau awdurdod gweinyddu yn cyfarfod yn chwarterol o leiaf.* | Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn chwarterol o leiaf. | Ydw | |
| *Bod pwyllgor neu banel eilaidd awdurdod gweinyddu yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn o leiaf, wedi'i gydamseru â'r dyddiadau pan fydd y prif bwyllgor yn eistedd.* | Mae'r Panel Cynghori ar Fuddsoddi yn cyfarfod yn chwarterol. | Ydw | |
| *Bod awdurdodau gweinyddu nad ydynt yn cynnwys aelodau lleyg yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol yn darparu fforwm y tu allan i'r trefniadau hynny y gellir cynrychioli buddiannau'r rhanddeiliaid allweddol trwyddynt.* | Cynhelir y Fforwm Cyflogwyr a'r Fforwm Undebau Llafur yn flynyddol | Ydw | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Egwyddor G – Mynediad** | | | |
| *Yn amodol ar unrhyw reolau yng nghyfansoddiad y cyngor, caiff pob aelod o brif bwyllgor a phanel neu rai eilaidd fynediad cyfartal at bapurau pwyllgor, dogfennau a chyngor a ddaw i'w hystyried mewn cyfarfodydd prif bwyllgor.* | Caiff papurau eu dosbarthu i bob aelod Pwyllgor a Phanel cyn cyfarfodydd. | Ydw | |
| **Egwyddor H - Cwmpas** | | | |
| *Bod awdurdodau gweinyddu wedi cymryd camau i ddod â materion y cynllun ehangach o fewn cwmpas eu trefniadau llywodraethu..* | Rôl y Pwyllgor yw ystyried yr holl faterion strategol.<br><br>Bydd y Panel Cynghori ar Fuddsoddi yn ystyried pob mater sy'n berthnasol i faterion buddsoddi.<br><br>Caiff materion ehangach eu trafod hefyd yn Fforymau'r Cyflogwyr ac Undebau Llafur. | Ydw | |
| **Egwyddor I - Cyhoeddusrwydd** | | | |
| *Bod awdurdodau gweinyddu wedi cyhoeddi manylion eu trefniadau llywodraethu mewn ffordd fel y gall rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y ffordd y caiff y cynllun ei lywodraethu fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r trefniadau hynny.* | Caiff yr holl ddogfennau llywodraethu eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor | Ydw | |

**Bwrdd Pensiynau Lleol**

Mae rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Pensiynau Lleol, gan gynnwys Cylch Gorchwyl y Bwrdd, wedi ei chyhoeddi ar wefan y Gronfa: Y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd- Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro

**Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)**

Mae manylion y trefniadau llywodraethu ar gyfer PPC i'w gweld ar wefan PPC Cronfa Bensiwn Cymru | Llywodraethu (partneriaethpensiwncymru.org)

**CHRISTOPHER LEE**
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU**
**Chwefror 2022**

# RHESTR TERMAU

**Rhagdybir gwybodaeth am derminoleg cyfrifeg sylfaenol. Fodd bynnag, mae termau arbenigol penodol sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol, pensiynau a buddsoddiadau, a disgrifir y rhain isod:**

**Sail Gronnol**
Yr egwyddor gronnol yw bod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill yn hytrach na phan gaiff ei dderbyn, a bod treuliau'n cael eu cofnodi pan fo nwyddau neu wasanaethau'n dod i law yn hytrach na phan delir amdanynt.

**Rheolaeth Weithredol / Oddefol**
Rheoli gweithredol yw'r ffordd draddodiadol o reoli buddsoddi, yn cynnwys cyfres o benderfyniadau buddsoddi unigol sy'n ceisio'r adenillion gorau trwy fanteisio ar aneffeithlonrwydd pris, h.y. 'curo'r farchnad'.

Mae rheolaeth oddefol yn ddewis cost isel arall lle bydd rheolwyr fel arfer yn cadw stoc yn unol â mynegai a gyhoeddir, megis y FTSE Pob Cyfranddaliad, heb geisio perfformio'n well na ond yn hytrach gadw i fyny â'r mynegai sy'n cael ei dracio.

**Actiwari**
Ymgynghorydd annibynnol sy'n rhoi cyngor ar hyfywedd hirdymor y Gronfa. Bob tair blynedd mae actiwarïaid y Gronfa yn adolygu asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa ac yn adrodd i'r Cyngor ar y sefyllfa ariannol a'r cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr a argymhellir. Gelwir hyn yn brisiad actiwaraidd.

**Enillion a Cholledion Actwaraidd**
Mewn cynllun pensiwn budd diffiniedig, dyma'r newidiadau yn y diffygion neu wargedion actiwaraidd sy'n codi oherwydd nad oedd digwyddiadau'n cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad diweddaraf, neu os na newidiodd y rhagdybiaethau actiwaraidd.

**Aelod Gweithredol**
Cyflogai presennol sy'n cyfrannu at gynllun pensiwn.

**Corff Derbyniedig**
Sefydliad, y gall ei staff ddod yn aelodau o'r Gronfa drwy rinwedd cytundeb derbyn a wnaed rhwng y Cyngor a'r sefydliad. Mae'n galluogi contractwyr sy'n ymgymryd â gwasanaethau'r Cyngor sydd â chyflogeion yn trosglwyddo i gynnig aelodaeth barhaus o'r Gronfa i'r staff hynny.

**Dyrannu Asedau**
Dosrannu cronfeydd buddsoddi ymysg categorïau asedau, megis Bondiau, Ecwitïau, Arian Parod, Eiddo, Deilliadau ac Ecwiti Preifat. Mae dyrannu asedau yn effeithio ar risgiau ac ar adenillion.

**Meincnod**
Mesuriad y gall y polisi buddsoddi neu berfformiad rheolwr buddsoddi gael ei fesur yn ei erbyn. pared.

**Bondiau**
Buddsoddiadau, yn bennaf mewn stociau llywodraeth, sy'n gwarantu cyfradd llog sefydlog. Mae'r gwarantau'n cynrychioli benthyciadau y gellir eu had-dalu yn y dyfodol ond y gellir eu masnachu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig yn y cyfamser.

**Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod**
Symiau o arian sydd ar gael i'w defnyddio ar unwaith a blaendaliadau â sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd hyd at 24 awr.

**Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA)**
CIPFA yw'r prif gorff cyfrifyddu proffesiynol sy'n penderfynu ar safonau cyfrifyddu a safonau adrodd i'w dilyn gan Lywodraeth Leol.

**Rhwymedigaethau neu Asedau Wrth Gefn**
Symiau a allai fod yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau neu ganddynt, a allai godi yn y dyfodol ond na ellir eu pennu'n gywir ar hyn o bryd, ac na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yng nghyfrifon y Cyngor.

**Credydwyr**
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a gafwyd neu wasanaethau a roddwyd, nas talwyd amdanynt ar ddyddiad y fantolen.

**Ceidwad**
Banc neu sefydliad ariannol arall sy'n cadw tystysgrifau stoc ac asedau eraill cleient, yn casglu difidendau ac ad-daliadau treth sy'n daladwy, ac yn setlo unrhyw bwrcasiadau a gwerthiannau.

**Dyledwyr**
Symiau o arian sy'n ddyledus i'r Cyngor nas talwyd ar ddyddiad y Fantolen.

**Pensiynwr Gohiriedig**
Aelod sydd wedi rhoi'r gorau i dalu i mewn i'r cynllun ond nad yw wedi ymddeol eto.

**Cynllun Budd Diffiniedig (Pensiynau)**
Mae hwn yn gynllun pensiwn neu'n gynllun budd ymddeol arall ac nad yw'n gynllun cyfraniad diffiniedig. Fel arfer mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau taladwy ac nid yw'r buddion yn ymwneud yn uniongyrchol â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynllun gael ei ariannu neu fod heb ei ariannu (gan gynnwys ariannu amodol).

**Cynllun Cyfraniad Diffiniedig (Pensiynau)**
Mae Cynllun Cyfraniad Diffiniedig yn bensiwn neu gynllun budd ymddeol arall y mae'r cyflogwr yn talu cyfraniadau rheolaidd i mewn iddo fel swm neu fel canran o dâl ac ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu cyfraniadau eraill i'r cynllun os nad oes gan y cynllun ddigon o asedau i dalu'r holl fuddion cyflogeion o ran gwasanaeth cyflogeion yn y cyfnod presennol neu flaenorol.

**Deilliad**
Offeryn deilliadol yw contract y mae ei werth yn seiliedig ar berfformiad ased ariannol gwaelodol, mynegai neu fuddsoddiad arall.

**Marchnadoedd sy'n Dod i'r Amlwg**
Marchnadoedd stoc cymharol newydd ac anaeddfed ar gyfer ecwitïau neu fondiau. Gall setliad a hylifedd fod yn llai dibynadwy nag yn y marchnadoedd 'datblygedig' mwy sefydledig, ac maent yn dueddol o fod yn fwy anwadal.

**Cyfraddau Cyfraniadau Cyflogwyr**
Canran cyflog cyflogeion y mae cyflogwyr yn ei thalu fel cyfraniad tuag at bensiwn cyflogeion.

**Ecwitïau**
Cyfranddaliadau arferol mewn cwmnïau yn y DU a thramor a fasnechir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Mae gan randdeiliaid ddiddordeb yn elw'r cwmni ac efallai y byddant fel arfer yn pleidleisio mewn cyfarfodydd cyfranddalwyr.

**Gwerth Teg**
Gwerth Teg yw'r pris a gaed i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr yn y farchnad ar y dyddiad mesur.

**Asedau Ariannol**
Mae asedau ariannol yn arian parod, offerynnau ecwiti o fewn endid arall (e.e. cyfranddaliadau) neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu endid arall (e.e. dyledwyr) neu gyfenwid asedau ariannol neu rwymedigaethau ariannol o dan amodau a fydd o bosibl yn ffafriol (e.e. eitemau deilliadau).

**Offerynnau Ariannol**
Mae offeryn ariannol yn unrhyw gontract sy'n peri ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term 'offeryn ariannol' yn cwmpasu asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol ac mae'n cynnwys yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol symlaf fel symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau taladwy drwy fasnach a'r rhai cymhlethaf fel deilliadau a deilliadau sefydledig.

**Rhwymedigaethau Ariannol**
Mae asedau ariannol yn rwymedigaethau cytundebol i ddarparu arian parod neu ased ariannol arall (e.e. credydwyr) neu gyfnewid asedau ariannol neu rwymedigaethau ariannol o dan amodau a allai fod yn anffafriol o bosibl (e.e. deilliadau).

**Gwarantau Llog Sefydlog/Bondiau**
Buddsoddiadau, y rhan fwyaf ohonynt mewn stociau llywodraeth, sy'n gwarantu cyfradd llog. Mae gan fondiau confensiynol gyfraddau sefydlog, tra bod rhai sy'n Gysylltiedig â Mynegai yn amrywio gyda chwyddiant. Maent yn cynrychioli benthyciadau i'w had-dalu ar ddyddiad yn y dyfodol, ac y gellir eu masnachu ar gyfnewidfa stoc yn y cyfamser.

**Rheolwr y Gronfa**
Cronfa sy'n ymdrin â buddsoddiadau ar ran y gronfa bensiwn yn unol â mandad buddsoddi y cytunwyd arno.

**Cronfa Cronfeydd**
Cronfa gyfun sy'n buddsoddi mewn cronfeydd cyfun eraill. Gall symud arian rhwng y cronfeydd gorau yn y diwydiant, ac felly anelu at leihau risg i randdeiliaid gyda mwy o amrywiaeth nag sy'n cael ei chynnig gan gronfa sengl.

**Amhariad**
Gostyngiad yng ngwerth ased islaw ei werth a ddygwyd ymlaen yn y Fantolen. Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau allai achosi gostyngiad mewn gwerth mae gostyngiadau cyffredinol mewn prisiau, a gostyngiad sylweddol ym mhris marchnad ased.

**Mynegai**
Cyfrifiad o bris cyfartalog cyfranddaliadau, bondiau neu asedau eraill mewn marchnad a benodir i ddarparu syniad o'r perfformiad cyfartalog a thueddiadau cyffredinol yn y farchnad.

**DSF**
Y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi y mae gofyn i bob cronfa CPLlL ei baratoi a pharhau i'w adolygu.

**Rhwymedigaethau**
Symiau sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu yn y dyfodol. Mae rhwymedigaethau cyfredol fel arfer yn daladwy ymhen blwyddyn o ddyddiad y Fantolen.

**CPLlL**
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a lywodraethir gan reoliadau a gyhoeddir gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol.

**Perthnasedd**
Mae gwybodaeth yn berthnasol os yw ei hepgor neu ei cham-ddatgan yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau a wna defnyddwyr ar sail y wybodaeth ariannol am awdurdod adrodd penodol.

**Cronfa Bensiwn**
Cronfa a gronnir o ddidyniadau o dâl cyflogai, cyfraniadau gan gyflogwyr ac incwm buddsoddi y telir buddion pensiwn ohono.

**Pensiynwr**
Aelod o'r cynllun a dderbyniodd bensiwn gan y Gronfa.

**Cronfeydd Cyfun**
Mae cerbydau buddsoddi cyfun yn dosbarthu unedau i ystod o fuddsoddwyr. Mae prisiau unedau'n symud mewn ymateb i newidiadau yng ngwerth y portffolio gwaelodol, ac nid yw buddsoddwyr yn berchen yn uniongyrchol ar asedau yn y gronfa. Y prif fathau yw: ymddiriedolaethau unedau, cwmnïau buddsoddi penagored (CBPAau), cerbydau sy'n gysylltiedig ag yswiriant ac ymddiriedolaethau buddsoddi.

**Portffolio**
Term cyfunol am yr holl fuddsoddiadau a ddelir mewn cronfa, marchnad neu sector. Mae portffolio ar wahân yn bortffolio o fuddsoddiadau o fath penodol a ddelir yn uniongyrchol yn enw'r buddsoddwr e.e. Bondiau Rhyngwladol neu farchnad benodol e.e. Ecwitïau'r DU, Ecwitïau'r Dwyrain Pell.

**Addasiadau Cyfnod Blaenorol**
Mae'r rhain yn addasiadau perthnasol a gymhwysir i gyfnod blaenorol sy'n codi o newidiadau'n unol â pholisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau sylfaenol.

**Ecwiti Preifat**
Buddsoddiadau a wneir gan reolwyr arbenigol ym mhob math o gwmnïoedd anghofrestredig, yn hytrach na thrwy gyfranddaliadau y gellir eu masnachu'n gyhoeddus.

**Darpariaethau**
Symiau a neilltuwyd o ran rhwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o ddigwydd, ond nad yw'r union swm na'r dyddiad setlo'n sicr.

**Partïon Cysylltiedig**
Partïon cysylltiedig yw'r Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol eraill, cyrff sy'n codi praesept ac ardollau, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, Aelodau Etholedig, yr holl uwch swyddogion o'r Cyfarwyddwr ac uwch. O ran unigolion a nodwyd fel partïon cysylltiedig, rhagdybir bod y canlynol hefyd yn bartïon cysylltiedig:

- aelodau o'r teulu agos, neu'r un aelwyd; a
- phartneriaethau, cwmnïau, ymddiriedolaethau neu endidau eraill lle mae'r unigolyn, neu aelod o'i deulu agos yn yr un cartref, yn berchen ar fudd rheoli.

**Dychwelyd**
Cyfanswm yr enillion o ddal buddsoddiad, gan gynnwys incwm ac unrhyw gynnydd neu leihad o ran gwerth y farchnad. Fel arfer mynegir adenillion dros gyfnodau sy'n hwy na blwyddyn fel adenillion blynyddol cyfartalog.

**Cyflogwyr y Cynllun**
Awdurdodau lleol a chyrff a benodir yn y Rheoliadau CPLlL, y mae eu cyflogeion yn gymwys yn awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa, a Chyrff Derbyn gan gynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a rhai tebyg sy'n gwneud gwaith cyhoeddus ei naws, y gall eu staff ddod yn aelodau o'r Gronfa drwy rinwedd cytundeb derbyn gyda'r Cyngor.

**Corff Cofrestredig**
Sefydliad sydd â'r hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o dan reoliadau'r cynllun. Nid oes angen derbyn sefydliad o'r fath, oherwydd bod ei hawl i aelodaeth yn awtomatig.

**Ymddiriedolaeth Unedau**
Cronfa fuddsoddi ar y cyd a gaiff ei phrisio, ei phrynu a'i gwerthu mewn unedau sy'n cynrychioli cymysgedd o'r gwarantau sy'n sylfaenol i'r gronfa.

**Enillion / Colledion nas Gwireddwyd**
Y cynnydd neu'r lleihad yng ngwerth y farchnad fuddsoddiadau a ddelir gan y gronfa ers y dyddiad y cawsant eu prynu. Sylwer: mae gwerthoedd drwy gydol y cyfrifon hyn yn cael eu cyflwyno wedi'u talgrynnu i rifau cyfan. Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau mewn tablau a nodiadau ategol yn ymddangos fel eu bod yn castio, croes-gastio neu'n cydweddu'n union â'r datganiadau craidd neu dablau eraill oherwydd gwahaniaethau o ran talgrynnu.



# GWYBODAETH YCHWANEGOL

**Mae gwybodaeth am y Gronfa ar gael ar wefan y Gronfa:**
**https://www.cardiffandvalepensionfund.org.uk/cy/**

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun hefyd ar wefan CPLlL (https://lgpsmember.org/). Caiff unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun eu cyfathrebu i'r aelodau trwy gylchlythyr.

Ar hyn o bryd, darperir datganiad o fuddion pob unigolyn yn awtomatig wrth iddynt ymddeol. Anfonir datganiadau buddion blynyddol at bob aelod gweithredol ac aelod gohiriedig o'r Gronfa yn seiliedig ar y buddion a gronnir hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn.

Anfonir copïau o'r adroddiad hwn at bob cyflogwr ac at Undebau Llafur cydnabyddedig, ac maent ar gael i bob parti sydd â diddordeb ar gais. Hefyd, gellir gweld copïau o'r rheolau sydd ar hyn o bryd yn llywodraethu cronfeydd pensiwn llywodraeth leol ar gais.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Gronfa Bensiwn neu unrhyw faterion pensiwn gan:
**Tîm Pensiynau**
**Ystafell 252**
**Neuadd y Sir**
**Glanfa'r Iwerydd**
**Caerdydd**
**CF10 4UW**

Ffôn: **029 2087 2334**

E-bost: dylid anfon ymholiadau e-bost at: **pensiynau@caerdydd.gov.uk**

Dylid cyfeirio ymholiadau e-bost fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Pensiynau Rheoli a Buddsoddi'r Cynllun** | | |
| Marc Falconer | Rheolwr Pensiynau | M.Falconer@cardiff.gov.uk |
| **Pensiynau Rheoli a Buddsoddi'r Cynllun** | | |
| Karen O'Donoghue-Harris | Prif Swyddog Pensiynau | KODonoghue-Harris@cardiff.gov.uk |
| Nicola Cumper | Uwch Swyddog Pensiynau | NCumper@cardiff.gov.uk |
| Jayne Newton | Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddi | Jayne.Newton@cardiff.gov.uk |
| Hywel Tutton | Uwch Swyddog Technegol | Hywel.Tutton@cardiff.gov.uk |
| **Cyfrifyddu'r Gronfa** | | |
| Sally Ormiston | Cyfrifydd Grŵp | SOrmiston@cardiff.gov.uk |